**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

# Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Gorffennaf 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8101
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

# Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Gorffennaf 2010

## Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried a chyflwyno adroddiadau ar ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Cynulliad, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Mae modd i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiadau hefyd ar ddeddfwriaeth nad yw wedi cael ei chyflwyno gan y Llywodraeth, pan fydd hynny'n briodol.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2008 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u pennu yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23 yn benodol. Mae'r rhain ar gael i'w gweld yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-guidance.htm

**Rhestr o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau Deddfwriaeth**

| *Teitl yr adroddiad* | *Dyddiad cyhoeddi* |
|---|---|
| Adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 | Mehefin 2009 |

Gellir gweld holl adroddiadau blaenorol y pwyllgorau yn **http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees.htm**

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Val Lloyd (Cadeirydd) | Llafur | Dwyrain Abertawe |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mike German (9/12/08 – 6/07/10) | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Aberconwy |
| Rhodri Morgan | Llafur | Gorllewin Caerdydd |
| Jenny Randerson (6/07/10 - ) | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Canol Caerdydd |
| Brynle Williams | Y Ceidwadwyr Cymreig | Gogledd Cymru |

# Cynnwys

**Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion ..... 9**

**1. Cyflwyniad ..... 27**

Natur y gwaith craffu ..... 27

Ein dull o weithio ..... 28

**2. Y cefndir ..... 30**

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arafethedig ..... 30

Y Memorandwm Esboniadol ..... 30

**3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth ..... 32**

Y cefndir ..... 32

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ..... 33

*Sylwadau cyffredinol ..... 33*

*Prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ..... 40*

*Pryderon am sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau ..... 41*

*Yr angen i gadw cynlluniau iaith ar ryw ffurf ..... 43*

*Ehangu rheoleiddio i'r sector preifat ..... 45*

*Addysg cyfrwng Cymraeg ..... 50*

*Cymhlethdod y Mesur arfaethedig ..... 51*

Tystiolaeth y Gweinidog ..... 53

Ein barn ni ..... 56

**4. Rhan 1: Statws Swyddogol y Gymraeg ..... 61**

Y cefndir ..... 61

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ..... 61

Tystiolaeth y Gweinidog ..... 66

Ein barn ni ..... 68

**5. Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg ..... 70**

Y cefndir ..... 70

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ..... 70

*Yr angen am Gomisiynydd y Gymraeg* .................................... 70

*Annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a'r broses benodi* ........ 71

*Trosglwyddo swyddogaethau hybu a rheoleiddio i Gomisiynydd y Gymraeg* ......................................................................... 75

*Trosglwyddo'r swyddogaethau hybu i Weinidogion Cymru neu gorff arall* ......................................................................... 80

*Swyddogaethau eraill y Comisiynydd* ...................................... 82

Tystiolaeth y Gweinidog ............................................................ 84

Ein barn ni ................................................................................. 88

**6. Rhan 3: Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg ........................91**

Y cefndir .................................................................................... 91

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad .................... 91

Tystiolaeth y Gweinidog ............................................................ 95

Ein barn ni ................................................................................. 96

**7. Rhan 4: Safonau ..........................................................................98**

Y cefndir .................................................................................... 98

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad .................. 100

*Sylwadau cyffredinol* .......................................................... 100

*Egluro cynnwys y safonau* .................................................... 100

*'Rhesymol a chymesur'* ........................................................ 103

*Effaith safonau ar gystadleuaeth* .......................................... 105

*Hawliau* ................................................................................ 109

*Materion penodol* .................................................................. 113

Tystiolaeth y Gweinidog .......................................................... 114

Ein barn ni ............................................................................... 122

**8. Rhan 5: Gorfodi Safonau ...........................................................128**

Y cefndir .................................................................................. 128

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad .................. 128

Tystiolaeth y Gweinidog .......................................................... 134

Ein barn ni ............................................................................... 137

**9. Rhan 6: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg .....................................139**

Y cefndir ........................................ 139

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ........................................ 139

Tystiolaeth y Gweinidog ........................................ 146

Ein barn ni ........................................ 148

**10. Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg ........................................ 150**

Y cefndir ........................................ 150

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ........................................ 150

Tystiolaeth y Gweinidog ........................................ 151

Ein barn ni ........................................ 152

**11. Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg ac ati 153**

Y cefndir ........................................ 153

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ........................................ 153

Tystiolaeth y Gweinidog ........................................ 156

Ein barn ni ........................................ 156

**12. Y goblygiadau ariannol ........................................ 158**

Y cefndir ........................................ 158

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ........................................ 158

Ein barn ni ........................................ 162

**Y tystion ........................................ 163**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........................................ 167**

**Gohebiaeth gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth ........................................ 180**

**Atodiad 1: Materion 20.1 a 20.2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ........................................ 181**

**Atodiad 2: Cyflwyniadau ysgrifenedig sy'n awgrymu gwelliannau penodol a gwelliannau technegol ........................................ 186**

## Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

### Pennod 3 – Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

**Rydym yn cytuno bod angen deddfwriaeth i ddiweddaru a moderneiddio fframwaith presennol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg.** Yn hyn o beth, rydym wedi nodi'r gefnogaeth dros wneud hynny ymhlith y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, er ein bod yn cydnabod bod llawer ohonynt o'r farn bod angen gwella neu newid agweddau ar y ddeddfwriaeth. [Paragraff 111]

Rydym wedi ystyried nodau ac amcanion y Mesur arfaethedig yn ofalus, fel y ceir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys datganiad clir o egwyddor. Credwn fod angen cynnwys datganiad cyffredinol yn y Mesur arfaethedig yn nodi'n glir mai diben y ddeddfwriaeth yw hybu a datblygu'r Gymraeg, gan gadw cefnogaeth ac ewyllys da'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg. Byddai datganiad o'r fath yn feincnod y gellid ei ddefnyddio i farnu llwyddiant nodau ac amcanion ehangach y Mesur arfaethedig (fel y ceir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol). Gan hynny, **rydym yn argymell y dylid diwygio teitl hir y Mesur arfaethedig er mwyn cynnwys datganiad clir o egwyddor y gellid ei ddefnyddio i fesur llwyddiant y Mesur arfaethedig yn y dyfodol.** At hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog dros Dreftadaeth yn ystyried gwneud datganiad sy'n egluro diben cyffredinol y Mesur arfaethedig a sut y mae hwnnw'n cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion ehangach. Dylid gwneud datganiad o'r fath tra bo'r Mesur arfaethedig ar ei daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol**. [Paragraff 112]

Nodwn na fu dim gwrthwynebiad i gynnwys darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â statws swyddogol y Gymraeg, er ein bod yn rhoi sylwadau manwl ar natur y darpariaethau hynny ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn. Hefyd, fel y mwyafrif o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, rydym o blaid creu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae gennym sylwadau manwl am swyddogaethau'r Comisiynydd ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn, a thrafodir pwysigrwydd y trefniadau pontio o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Comisiynydd ym Mhennod 11. [Paragraff 113]

Yn ein barn ni, a chan adlewyrchu llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law, mae'n rhy gynnar i ddatgan a fydd symud o'r cynlluniau iaith i safonau

yn creu fframwaith hwylusach a symlach yn weinyddol, a fframwaith mwy effeithiol yn sgil hynny, ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg. Credwn nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol yn ddigonol i'n cynorthwyo i ddeall sut y bydd y system newydd yn gweithio'n ymarferol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai nod y safonau yw creu system sy'n fwy hwylus i'r dinesydd na'r cynlluniau iaith presennol. Croesawn y bwriad hwn a'n dymuniad yw sicrhau bod hynny'n digwydd. Am y rheswm hwn, ac er gwaethaf y pryderon a nodir ar ddechrau'r paragraff, **rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y gall y system safonau newydd fod yn welliant ar y fframwaith deddfwriaethol presennol ac y gall greu modd o gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.** [Paragraff 114]

Credwn fod ehangu rhwymedigaethau iaith statudol er mwyn cynnwys sefydliadau penodol yn y sector preifat, sef y rheini sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gwasanaethau lled-gyhoeddus, yn welliant ar y sefyllfa bresennol. Wrth ddod at y farn honno, rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y cyrff hyn yn sgil eu cynlluniau iaith gwirfoddol. Serch hynny, rydym wedi nodi bod cymhwyso safonau i bersonau penodol, gan gynnwys sefydliadau yn y sector preifat, yn amodol ar brawf o'r hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur, ac mae'n cynnwys hawl i apelio. Ar y sail hon, **rydym yn fodlon, yn gyffredinol, y dylai'r Mesur arfaethedig fod yn gymwys i sefydliadau'r sector preifat sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gwasanaethau lled-gyhoeddus (ac eithrio ein hargymhelliad ym mharagraff 372). Y rheswm dros hyn yw ein bod yn credu y bydd dinasyddion a defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg ar eu hennill o ganlyniad i hyn.** [Paragraff 115]

Wrth ddod at y farn hon, nodwn y dystiolaeth a gawsom gan sefydliadau'r sector preifat a awgrymodd fod nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn isel. **Rydym yn argymell bod y Comisiynydd newydd, unwaith y caiff ei benodi, yn defnyddio'i bwerau o dan adran 3 o'r Mesur arfaethedig i ganfod pam bod nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n isel a'r ffordd orau o fynd i'r afael â hynny.** [Paragraff 116]

Rydym yn pryderu bod dau o amcanion y Mesur arfaethedig, fel y ceir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol, yn groes i'w gilydd. Gan ystyried yr amrywiaeth ieithyddol mewn cymunedau ledled Cymru, ni allwn weld sut y mae'n bosibl rhoi rhagor o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg ar y naill law, a sefydlu system ar y llaw

arall a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur ac yn creu amodau cyfartal o fewn sectorau. [Paragraff 117]

Yn hyn o beth, nodwn y darpariaethau yn adran 43 o'r Mesur arfaethedig (sy'n darparu y gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol mewn rhai amgylchiadau, ond nid mewn amgylchiadau eraill ac/neu mewn ardal neu rai ardaloedd, ond nid mewn ardaloedd eraill) ac adran 53 (sy'n rhoi hawl i herio a yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â safon mewn ffordd benodol, yn afresymol neu'n anghymesur). [Paragraff 118]

Felly, yn sgil ein hargymhelliad ym mharagraff 112**, rydym yn argymell y dylai unrhyw ddatganiad sy'n cael ei baratoi gan y Gweinidog dros Dreftadaeth egluro sut y bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi rhagor o eglurdeb a chysondeb i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg ar y naill law, ac yn parchu egwyddorion rhesymoldeb a chymesuredd ar y llaw arall.** [Paragraff 119]

Rydym wedi ystyried y dystiolaeth sy'n awgrymu y dylai'r Mesur arfaethedig fod wedi cynnwys darpariaethau penodol sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Ni chawsom ein perswadio mai'r ddeddfwriaeth hon yw priod le darpariaethau sy'n ymwneud ag un gwasanaeth penodol, ac rydym yn fodlon â'r Mesur arfaethedig yn hyn o beth. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwn y byddai'r Mesur arfaethedig yn caniatáu rhoi safonau ar gyrff sy'n ymwneud ag addysg, fel awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Byddai hyn yn caniatáu pennu safonau sy'n ymwneud yn benodol ag addysg ac a fyddai'n ddatblygiad ar gynlluniau addysg Gymraeg o dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.* [Paragraff 120]

O bwyso a mesur, a thra bo gennym bryderon ynghylch y diffyg eglurder wrth symud o gynlluniau iaith i safonau, **rydym yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig**. [Paragraff 121]

Mae gennym sylwadau'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn am natur rhai o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wrth i ni ystyried prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, roedd llawer o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn rhai manwl a thechnegol. Gan ystyried natur gwaith craffu Cyfnod 1, ni fu'n bosibl i ni edrych mewn manylder arnynt. Oherwydd hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r cyflwyniadau y**

**cyfeirir atynt yn Atodiad 2, gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau priodol fel y gwêl yn dda.** [Paragraff 122]

Dywedodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad nad oedd neb wedi ymgynghori â hwy cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno. Gan ystyried cymhlethdod y Mesur arfaethedig, y newid sylweddol y mae'n ei gyflwyno i'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, a'i bwysigrwydd o ran dyfodol y Gymraeg, credwn fod hyn yn siomedig. Tra ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i roi'r ddeddfwriaeth bwysig hon ar waith cyn diwedd y Cynulliad presennol yn 2011, **credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyhoeddi Mesur drafft ar gyfer ymgynghori cyn ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.** Credwn y byddai hyn wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd a sefydliadau perthnasol ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn cael ei gynnig. Yn benodol, credwn y byddai gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1 ar oblygiadau symud o gynlluniau iaith i safonau wedi gallu bod yn fwy effeithiol drwy wneud hynny. [Paragraff 123]

Hoffem hefyd wneud sylwadau am y Memorandwm Esboniadol. Rydym yn cydnabod ac yn cytuno â barn y Gweinidog bod y Memorandwm Esboniadol yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, gofynion gweithdrefnol yw'r rhain ac nid ydynt yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y wybodaeth a ddarperir. Yn ystod y broses graffu y gwneir hynny. Gan hynny, mae'r gofynion yn y Rheolau Sefydlog yn wahanol i'r angen i egluro'n glir beth yw'r union fwriad yn narpariaethau'r Mesur arfaethedig, y gydberthynas rhyngddynt ac yn sgil hynny eu heffaith ymarferol. [Paragraff 124]

Yn ystod y gwaith craffu, roedd angen gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch darpariaethau penodol. Rydym yn cydnabod ein bod wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol. **Ni welwn unrhyw reswm da pam na allai'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ystod ein gwaith craffu fod wedi'i chynnwys o'r dechrau yn y Memorandwm Esboniadol, yn enwedig gan ystyried cymhlethdod y Mesur arfaethedig.** [Paragraff 125]

Byddai rhoi gwybodaeth well a mwy cynhwysfawr yn y Memorandwm Esboniadol am y ddeddfwriaeth hon a'i heffaith ymarferol wedi galluogi sefydliadau ledled Cymru i ddeall y Mesur arfaethedig yn well yn ei gyfanrwydd, ac i ddeall yn enwedig sut y bydd y system safonau sy'n cael ei chyflwyno yn y Mesur arfaethedig yn gweithio. O ganlyniad, byddai hynny hefyd wedi arwain at waith craffu mwy

effeithiol ac effeithlon ar y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1. [Paragraff 126]

**Pennod 4 – Rhan 1: Statws Swyddogol y Gymraeg**

Rydym wedi ystyried yn ofalus farn y Gweinidog am adran 1 o'r Mesur arfaethedig. [Paragraff 165]

Rydym hefyd wedi ystyried a chydnabod bod cryn dipyn o dystiolaeth o blaid cael datganiad clir a diamwys ynghylch rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Cytunwn â'r farn hon. [Paragraff 166]

Fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, credwn nad yw adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn newid statws yr iaith mewn unrhyw ffordd. Yn hytrach, nid yw'n fwy na mynegbost at ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth hon a darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Nid yw'n cynnwys datganiad ynghylch statws y Gymraeg. Yn ein barn ni, mae angen datganiad o'r fath. Byddai'n cryfhau sefyllfa'r Gymraeg, yn annog ei defnydd mewn sefyllfaoedd swyddogol a chyhoeddus, ac fel rhan o hynny, yn chwalu'r farn ymhlith llawer o bobl yng Nghymru fod gan y Gymraeg statws sy'n is na'r Saesneg. [Paragraff 167]

Mewn gwlad lle siaredir dwy iaith yn eang, credwn yn gryf y dylid trin y ddwy iaith honno'n gyfartal. [Paragraff 168]

Gan hynny, **rydym yn argymell bod adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn cael ei disodli gyda datganiad clir ynghylch statws swyddogol ein hieithoedd, a allai ddarllen fel hyn** :

> **Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru, ac mae eu dilysrwydd a'u statws yn gyfartal.**

[Paragraff 169]

Cafodd ein barn ei dylanwadu gan ddiffyg unrhyw dystiolaeth glir ynghylch pam y bu'n rhaid drafftio adran 1 o'r Mesur arfaethedig ar ffurf rhestr o ddarpariaethau. Oherwydd hynny, ni allwn weld unrhyw reswm pam na all y Mesur arfaethedig gynnwys datganiad uniongyrchol ynghylch statws swyddogol y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. [Paragraff 170]

Credwn fod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd i ganiatáu gwelliant fel yr un rydym wedi'i gynnig. Credwn hefyd fod y datganiad hwn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch statws y Gymraeg na'r hyn a geir yng ngeiriad adran 1 ar hyn o bryd, a bydd yn gymorth i roi sylfaen gadarn i'r darpariaethau eraill yn y Mesur arfaethedig. [Paragraff 171]

Credwn yn ogystal y bydd cynnwys datganiad o'r fath yn cyfrannu'n helaeth at hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ac at ba mor rheolaidd y gwnânt hynny, sef rhan bwysig o'r egwyddor rychwantol y cyfeiriwn ati yn ein casgliadau ar yr egwyddorion cyffredinol. [Paragraff 172]

**Pennod 5 – Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg**

Rydym yn cydnabod bod mwyafrif y rheini a roddodd dystiolaeth o blaid trefniant lle mai'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n penodi Comisiynydd y Gymraeg. [Paragraff 245]

Rydym wedi ystyried yn ofalus dystiolaeth y Gweinidog, sydd o blaid trefniant lle mai'r Prif Weinidog fyddai'n penodi Comisiynydd y Gymraeg. [Paragraff 246]

Rydym hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a ddangosodd y byddai gan Gomisiynydd y Gymraeg y pŵer i roi sancsiynau ar Weinidogion Cymru a chymryd camau rheoleiddiol yn eu herbyn. [Paragraff 247]

Yn yr amgylchiadau hyn, **ein barn ni yw bod angen ffordd fwy agored a thryloyw o greu dull yn y Mesur arfaethedig lle caiff Comisiynydd y Gymraeg ei enwebu gan y Prif Weinidog ac yna'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw**. [Paragraff 248]

**Rydym yn argymell hefyd fod y Gweinidog yn adolygu'r darpariaethau hynny yn y Mesur arfaethedig sy'n rhoi rhyw fath o reolaeth i Weinidogion dros Gomisiynydd y Gymraeg, gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau a fydd yn rhoi ein hargymhelliad yn y paragraff diwethaf ar waith.** Yn ein barn ni, dyma'r darpariaethau hyn: adran 10(4) (cymeradwyaeth ar gyfer rhoi grantiau neu fenthyciadau); adran 11(6) (cymeradwyaeth ar gyfer cyflogi staff); adran 15 (pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddyd); adran 63 (pŵer i roi cyfarwyddyd i gynnal ymchwiliad safonau); adran 66 (codau ymarfer) ac adran 97 (cymeradwyaeth ar gyfer dogfennau polisi gorfodi). [Paragraff 249]

Rydym yn cytuno â barn nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a awgrymodd fod angen i'r Mesur arfaethedig gynnwys egwyddor neu ddiben statudol cliriach yn sail i waith Comisiynydd y Gymraeg, yn debyg i hwnnw sy'n sail i waith Comisiynydd Plant Cymru (yn adran 72 o *Ddeddf Safonau Gofal 2000*). Rydym yn credu y byddai datganiad o'r fath yn rhoi eglurder llwyr ynghylch prif ddiben gwaith Comisiynydd y

Gymraeg ac yn rhoi meincnod ar gyfer mesur perfformiad y Comisiynydd. Yn ein barn ni, dylai unrhyw ddiben statudol o'r fath roi sylw i'r egwyddor rychwantol y cyfeiriwn ati ym mharagraff 112 o'n hadroddiad ynghylch yr egwyddorion cyffredinol. Felly, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant sy'n datgan yn glir beth yw diben statudol gwaith Comisiynydd y Gymraeg** [Paragraff 250].

Rydym wedi ystyried yn ofalus iawn y dystiolaeth sy'n awgrymu na ddylid rhoi cyfrifoldebau hybu'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg neu Weinidogion Cymru (fel y darperir yn adran 134 o'r Mesur arfaethedig), ac yn hytrach y dylid rhoi'r cyfrifoldeb hwn i gorff newydd a gaiff ei sefydlu ar wahân. Nodwn nad yw'r Gweinidog â'i fryd ar sefydlu corff o'r fath. Nodwn hefyd o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod cyrff cyhoeddus eraill yn gweithredu a chanddynt swyddogaethau hybu a rheoleiddio ill dau. Gan ystyried y sefyllfa economaidd bresennol a'n pryder na fyddai digon o waith i gyfiawnhau creu corff ychwanegol, **rydym yn fodlon â'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn hyn o beth.** [Paragraff 251]

Fodd bynnag, nodwn nad yw'r Gweinidog wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi'r cyfrifoldebau hybu i Gomisiynydd y Gymraeg, Gweinidogion Cymru ynteu gyfuniad o'r ddau. **Fel sy'n digwydd o dan y fframwaith presennol, rydym yn credu ei bod yn anochel y bydd gan Weinidogion Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ill dau swyddogaethau i hybu'r iaith. Serch hynny, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi ei benderfyniad ar y mater hwn cyn i drafodion Cyfnod 2 ddechrau.** [Paragraff 252]

Pa bynnag benderfyniad a wneir, a chan adlewyrchu rhai o'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth, **rydym yn argymell yn gryf y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol graffu'n flynyddol ar y cyllidebau ar gyfer rheoleiddio a hybu'r Gymraeg, a hynny er mwyn sicrhau bod y naill swyddogaeth a'r llall yn cael eu hariannu'n briodol.** Ein barn ni ar y mater hwn yw na ddylid fyth gynyddu'r gyllideb ar gyfer rheoleiddio'r Gymraeg ar draul y gyllideb ar gyfer hybu'r iaith. [Paragraff 253]

**Pennod 6 – Rhan 3: Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg**

**Rydym yn cytuno â'r Gweinidog ac â rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad bod angen Panel Cynghori ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.** [Paragraff 273]

Rydym yn credu y bydd hwn yn banel pwysig i holi barn wrth brofi a chyflwyno syniadau newydd. Rydym yn cytuno hefyd â'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a awgrymodd fod angen cynrychiolaeth eang o wahanol sectorau ar y Panel Cynghori. Yn ein barn ni, dylai'r Panel Cynghori gynrychioli amrywiaeth Cymru gyfan. Gan hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i baragraff 5(4) o Atodlen 4 er mwyn ystyried y safbwyntiau hyn ynghylch amrywiaeth ac i egluro pa wybodaeth a phrofiad perthnasol y byddai'n rhaid i aelod o'r Panel Cynghori feddu arnynt.** [Paragraff 274]

Rydym yn credu y byddai'r cyfyngiad presennol yn adran 22(3) ar uchafswm aelodau'r Panel Cynghori yn tanseilio'i allu i gynrychioli amrywiaeth Cymru gyfan. Felly, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i gynyddu nifer yr aelodau a allai fod ar y Panel Cynghori ar unrhyw adeg benodol**. [Paragraff 275]

O ran penodi'r Panel Cynghori, yn unol â'n hargymhelliad ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg, **rydym yn credu** y **dylai aelodau'r Panel Cynghori gael eu henwebu gan Weinidogion Cymru a'u cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw**. [Paragraff 276]

Rydym wedi ystyried yr anghysondeb ymddangosiadol rhwng y gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiynydd cyn diswyddo aelodau'r Panel Cynghori, ond nid cyn eu penodi. Ar ôl ystyried y mater, rydym yn fodlon â'r trefniant hwn. Pe bai gofyn i'r Comisiynydd roi ei farn am ymgeiswyr, gallai'r system gael ei gweld yn un annheg os yw'r Comisiynydd yn adnabod rhai ohonynt ond nid rhai eraill. Ni fyddai sefyllfa o'r fath yn bosibl wrth ddiswyddo, oherwydd byddai'r Comisiynydd wedi cael profiad o weithio gyda holl aelodau'r Panel Cynghori ymlaen llaw. [Paragraff 277]

**Rydym yn argymell y dylai unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru i ddiswyddo aelod o'r Panel Cynghori fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.** [Paragraff 278]

**Pennod 7 – Rhan 4: Safonau**

Wrth drafod yr egwyddorion cyffredinol ym Mhennod 3, rydym eisoes wedi rhoi sylwadau ynghylch y graddau y byddai'r Mesur arfaethedig yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. [Paragraff 356]

Nodwn fod rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi beirniadu'r ffaith nad yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi unrhyw hawliau i gael gwasanaethau Cymraeg. Yn benodol, beirniadwyd y ffaith na cheir hawliau creiddiol sylfaenol i gael gwasanaethau Cymraeg y dylai siaradwyr Cymraeg allu'u cael, waeth ym mha ran o Gymru y maent yn byw. I raddau, rydym yn derbyn y ddadl honno, yn enwedig yng nghyd-destun y cyfeiriad yng nghytundeb Cymru'n Un at "*hawliau ieithyddol* o safbwynt darparu gwasanaethau" (ein pwyslais ni). [Paragraff 357]

Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith y byddai'n ddymunol cael rhagor o eglurdeb a chysondeb yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, ac er gwaethaf y cynnydd sylweddol a wnaed o dan Ddeddf 1993, rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau sylweddol yn dal i fodoli yn y galw am wasanaethau Cymraeg mewn gwahanol rannau o Gymru, ynghyd ag yn y gallu i ddarparu'r rheini. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cydnabod hefyd nad yw efallai'n bosibl cael cysondeb llwyr yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, oni bai y caiff ymrwymiadau sylfaenol eu gosod ar lefelau isel iawn. [Paragraff 358]

Yn ein barn ni, y peth pwysig yw sut i gysoni'r nod o ddarparu gwasanaethau ar lefel gyffredinol a phendant ar y naill law, gyda'r amrywiaeth leol sy'n bodoli ledled Cymru ar y llaw arall, a hynny mewn ffordd sy'n gwella'r sefyllfa sydd ohoni. [Paragraff 359]

Tra bo Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig yn sefydlu dull ar gyfer creu safonau, nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch cynnwys y safonau hynny (ac eithrio Atodlen 9, sy'n rhestru'r gweithgareddau a gyflwynwyd gan adran 41(2) ac y mae'n rhaid i safonau cyflenwi gwasanaethau a gaiff eu creu drwy reoliadau o dan adran 38 gan Weinidogion Cymru gyfeirio atynt). [Paragraff 360]

Rydym eisoes wedi cydnabod bod gan y system safonau y potensial i arwain at welliannau yn y gwasanaethau a ddarperir (gweler paragraff 114). Fodd bynnag, nid oes modd i ni gasglu'n bendant a fydd hyn yn arwain at y newidiadau hynny gan nad yw'r Mesur arfaethedig ei hun yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau o sylwedd sy'n ymwneud â chynnwys y safonau. [Paragraff 361]

Yn ein barn ni, dyma un o'r rhesymau pam mae llawer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi gofyn am eglurhad pellach gan Weinidogion Cymru ynghylch gwir gynnwys y safonau, o bosibl drwy gylchredeg safonau drafft a fyddai'n rhoi enghreifftiau clir o'r gwahanol fathau o safonau y bwriedir eu creu o dan y Mesur arfaethedig. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi yr**

**eglurhad hwn drwy baratoi a chyhoeddi safonau drafft, ar ffurf y rheini y bwriedir eu creu o dan y Mesur arfaethedig.** [Paragraff 362]

Rydym hefyd wedi dweud ei bod yn rhy gynnar i ddatgan a fydd symud o'r cynlluniau iaith i safonau yn creu fframwaith hwylusach a symlach yn weinyddol, a fframwaith mwy effeithiol yn sgil hynny, ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg. [Paragraff 363]

Nodwn y gallai'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r system safonau arwain at amrywiaeth sylweddol o safonau gwahanol. Nodwn hefyd fod y Gweinidog wedi cydnabod ei bod yn debygol y bydd y personau sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau yn dal yn mynd i orfod creu cynlluniau gweithredu i roi'r safonau ar waith yn eu sefydliadau. Nodwn hefyd, yn ystod y broses o greu safonau, y bydd llawer o gyfle i ymgynghori â'r personau y bydd y safonau hynny'n berthnasol iddynt, a chyfeiriodd y Gweinidog yntau at hynny. Gan hynny, rydym yn pryderu y gallai'r broses o gytuno ar safonau, ynghyd â'r angen posibl i ddatblygu cynlluniau gweithredu, arwain os rhywbeth at gynyddu'r baich gweinyddol i rai sefydliadau. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sut y gellir lleihau'r baich hwn cymaint ag y bo modd, heb i hynny amharu ar yr angen i ymgynghori'n briodol.** [Paragraff 364]

Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r safonau ar ôl cael argymhellion gan y Comisiynydd.[1] Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth ym Mhennod 2 yn Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig i ddynodi hyn. Credwn ei bod yn bwysig bod y Mesur arfaethedig yn egluro'n glir beth yw diben y safonau a sut y dylai'r broses o wneud safonau weithio. Gan hynny, **rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i'r perwyl hwn, a hynny'n unol â thystiolaeth y Gweinidog**. [Paragraff 365]

Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog na fydd safonau, fel rheol, ond yn cael eu datblygu gan Weinidogion wrth ymateb i ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan y Comisiynydd. Nodwn hefyd, wrth gynnal yr ymchwiliadau hynny, fod angen ymgynghori â'r personau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, yn ein barn ni, bydd yn dal yn bosibl i Weinidogion Cymru wneud safonau o dan adran 25 heb ymgynghori â'r Comisiynydd nac â'r personau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt, a hynny gan ei bod yn ymddangos y gall Gweinidogion greu safonau heb ymchwiliad safonau. At hynny, credwn y dylai rheoliadau a gaiff eu paratoi gan Weinidogion Cymru ynghylch

[1] Er enghraifft, Cofnod y Trafodion, paragraff [129], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

safonau o dan adran 25 fod yn amodol ar ymgynghori, ac ni welwn reswm da pam na ddylai gofyniad o'r fath gael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig ei hun. Gan hynny, **rydym yn argymell bod adran 25 yn cael ei diwygio ar y sail hon.** At hynny, am resymau tebyg, credwn y dylid creu dyletswydd i ymgynghori â sefydliadau ynghylch rheoliadau sy'n darparu bod safonau yn berthnasol iddynt o dan adran 38. Felly, **rydym yn argymell bod adran 38 yn cael ei diwygio i'r perwyl hwn.** [Paragraff 366]

Yn gysylltiedig â'n hargymhellion ynghylch adrannau 25 a 38 a'r angen i ymgynghori, rydym wedi ystyried y gred ymhlith nifer o'r ymatebwyr mai cyfyngedig yw rôl y dinesydd yn y broses o greu safonau. Er enghraifft, o dan adran 61 o'r Mesur arfaethedig, sy'n ymdrin â chynnal ymchwiliadau safonau, nodwyd bod angen i'r Comisiynydd ymgynghori â'r personau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt yn y pen draw, yn ogystal ag ymgynghori â'r Panel Cynghori, ond nid yw'n ofynnol iddo ymgynghori â neb arall, gan gynnwys y cyhoedd. [Paragraff 367]

Tra ein bod yn cydnabod na fydd gan y cyhoedd o bosibl ddiddordeb arbennig mewn agweddau technegol ar safonau penodol a allai fod yn destun ymchwiliadau safonau, nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn cyfiawnhau gadael i'r Comisiynydd yn unig benderfynu a fydd yn ymgynghori â'r cyhoedd ym mhob ymchwiliad safonau, yn enwedig pan allai fod gan y cyhoedd yng Nghymru ddiddordeb sylweddol iawn mewn nifer o ymchwiliadau safonau. Felly, credwn y byddai'n well pe bai adran 61 yn nodi y dylai'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyhoedd. **Rydym yn argymell bod adran 61(2) yn cael ei diwygio er mwyn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal ymchwiliadau safonau**. [Paragraff 368]

O ran ehangu'r system safonau y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, rydym eisoes wedi rhoi sylwadau ac wedi dweud y dylai'r system bresennol gael ei hehangu mewn egwyddor i gynnwys sefydliadau yn y sector preifat sy'n cyflawni swyddogaethau o natur lled-gyhoeddus. [Paragraff 369]

Fodd bynnag, credwn y dylid ystyried yn ofalus bryderon y sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â'r system newydd. Credwn hefyd fod y system safonau yn cynnwys darpariaethau sylweddol sy'n galluogi sefydliadau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt i gyfrannu at y broses o bennu'r safonau hynny – drwy'r gofyniad o dan adran 61 i'r Comisiynydd ymgynghori â hwy wrth gynnal ymchwiliad safonau, er

enghraifft. Nodwn hefyd fod gan sefydliadau hawl i apelio i'r Tribiwnlys os ydynt o'r farn na fyddai safon a osodwyd yn rhesymol neu'n gymesur. [Paragraff 370]

Nodwn y dystiolaeth sylweddol a glywsom am y camau cadarnhaol y mae nifer o sefydliadau wedi'u cymryd wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg o dan gynlluniau gwirfoddol, er nad ydynt yn gorfod cydymffurfio â Deddf 1993 ar hyn o bryd. Nodwyd ein bod yn cefnogi ehangu'r system reoleiddio i rai sefydliadau yn y sector preifat sy'n cyflawni swyddogaethau o natur lled-gyhoeddus. Serch hynny, credwn y dylid parhau i annog cyrff i greu cynlluniau gwirfoddol, a nodwn nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddull yn y Mesur arfaethedig sy'n darparu ar gyfer hyn. Roeddem hefyd yn hoff o'r syniad o Nod Siarter a allai gael ei ddatblygu ar gyfer sefydliadau na fydd y system safonau'n berthnasol iddynt. **Felly, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sut y gellir gwneud darpariaeth i greu Nod Siarter ac iddo ryw ffurf ar gymeradwyaeth swyddogol, o bosibl gan y Comisiynydd.** [Paragraff 371]

Rydym wedi clywed tystiolaeth ynghylch sefyllfa cyflenwyr LPG, a'r ffaith ei bod yn ymddangos na fyddai eu prif gystadleuwyr yn gorfod cydymffurfio â'r Mesur arfaethedig gan nad yw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn ymestyn i'r cystadleuwyr hynny. Credwn fod hyn yn groes i'r nod o sicrhau amodau cyfartal o fewn sectorau. Er y gall y cwmnïau hyn apelio yn erbyn penderfyniad i osod safonau arnynt ar y sail nad yw'n rhesymol neu'n gymesur, credwn mai'r ffordd orau o ymdrin â hyn fyddai drwy beidio â'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig tan y bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol i gynnwys y diwydiannau y maent yn cystadlu â hwy. **Felly, rydym yn argymell bod Atodlen 8 yn cael ei diwygio i egluro na fydd y safonau'n berthnasol i gyflenwyr LPG.** [Paragraff 372]

O ran y diffiniad o'r sector telathrebu, rydym wedi nodi'r sicrwydd a roddodd y Gweinidog ynghylch y sefyllfa hon ac rydym yn derbyn y sicrwydd hwnnw. [Paragraff 373]

O ran y ffaith mai dim ond ar Weinidogion Cymru, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir y gosodir safonau hybu, dywedodd y Gweinidog ei fod yn barod i ystyried ehangu'r rhestr hon o sefydliadau y gellid rhoi safonau hybu iddynt, er iddo esbonio'r rhesymeg dros ei chyfyngu yn y fath fodd. [Paragraff 374]

Tra ei bod yn ddealladwy na ddylid cynnwys cyrff gwasanaethau iechyd, awdurdodau'r heddlu a chyrff eraill sydd â swyddogaethau penodol, nid yw'n glir pam bod y llinell wedi'i thynnu ar ôl y prif awdurdodau lleol, a pham bod cynghorau tref a chymuned wedi'u heithrio. [Paragraff 375]

Nid yw'n glir ychwaith pam na ddylai'r Mesur arfaethedig gynnwys cyrff lle mae'r defnydd o'r iaith yn un o'u swyddogaethau canolog. Ni welwn fod rheswm da pam na ddylai'r Mesur arfaethedig beidio â rhoi swyddogaethau hybu i gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Sianel 4 Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. **Rydym yn argymell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio i ganiatáu rhoi safonau hybu i gyrff o'r fath.** Yn fwy cyffredinol**, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ailystyried i ba gyrff y dylid rhoi safonau hybu, gan gyflwyno gwelliannau fel y gwêl yn dda.** [Paragraff 376]

O ran y safonau cadw cofnodion, rydym wedi nodi safbwyntiau'r Gweinidog. **Yn ein barn ni, credwn y byddai'n fuddiol pe bai safonau cadw cofnodion clir yn berthnasol i bob sefydliad er mwyn barnu pa mor llwyddiannus fu unrhyw safon a osodwyd. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant perthnasol i wneud hyn yn ofyniad statudol.** [Paragraff 377]

**Pennod 8 – Rhan 5: Gorfodi Safonau**

Rydym yn cydnabod y bydd y broses o orfodi safonau yn dibynnu ar ba mor eglur a manwl y caiff y safonau eu llunio. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai amrywiaeth mewn safonau (yn hytrach na'u heglurder) yn achosi problemau wrth orfodi safonau, o reidrwydd. **Rydym yn gymharol fodlon â'r gyfundrefn orfodi fel y'i hamlinellir yn Rhan 5 o'r Mesur arfaethedig, ar wahân i'r sylwadau penodol a nodwn isod.** [Paragraff 409]

O ran cynnwys y dinesydd pan fydd y Comisiynydd yn rhoi'r broses orfodi ar waith, rydym yn nodi bod darpariaeth ar gyfer cynnwys dinasyddion yn y broses honno o dan adrannau 72 (dyfarnu ar ymchwiliad), 84 (ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol) a 94 (ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwyn ynghylch ymddygiad). Felly, rydym o'r farn bod y Mesur arfaethedig yn darparu i raddau ar gyfer cynnwys y dinesydd yn barhaol yn y broses ymchwilio. [Paragraff 410]

Fodd bynnag, rydym yn ansicr a yw rôl gyffredinol y dinesydd yn y broses orfodi yn ddigonol, ac rydym yn rhannu'r farn mai pwerau cyfyngedig iawn, ar wahân i'r pŵer o allu cyflwyno cwyn i'r

Comisiynydd, sydd gan y dinesydd i sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu cymryd. Yn ein barn ni, mae sail i'r pryderon a nodwyd gan nifer o'r ymatebwyr ynghylch diffyg darpariaeth ar gyfer cynnwys dinasyddion yn y broses gwynion. [Paragraff 411]

Felly, rydym yn pryderu nad yw dinasyddion yn cael eu cynnwys cymaint ag y byddai modd, a chredwn y dylid cryfhau'r darpariaethau hynny. [Paragraff 412]

Rydym yn nodi'r cyferbyniad rhwng adran 100 o'r Mesur arfaethedig, sy'n creu darpariaeth i unigolion wneud cais i'r Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth honedig â'r hawl i gyfathrebu yn Gymraeg, ac adran 70, nad yw'n creu darpariaeth debyg o ran ymchwilio i fethu â chydymffurfio â safonau. **Rydym yn argymell diwygio adran 70 er mwyn tynnu sylw at allu unigolion i ddechrau'r broses o gynnal ymchwiliad ac i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd orfod egluro penderfyniad i beidio â chynnal ymgynghoriad, sy'n debyg i'r gofyniad yn adran 103(6).** [Paragraff 413]

Byddai modd creu darpariaeth hefyd i'r achwynydd apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd. Gan hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried ffyrdd eraill sy'n amlygu'r modd y gall y cyhoedd gyfrannu at gyflawni amcanion y Mesur arfaethedig, a chredwn y dylid cyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw.** [Paragraff 414]

O ran y gosb sifil uchaf o £5,000, rydym yn cydnabod, fel y nodwyd gan swyddogion y Gweinidog, y gallai'r gosb gael ei gosod sawl gwaith ar yr un sefydliad, bob tro y bydd methiant i gydymffurfio â safon. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r effaith wahanol y gallai cosb sifil o'r fath ei chael, yn dibynnu ar faint ac adnoddau'r sefydliad dan sylw. Fodd bynnag, rydym yn nodi mai dyma yw uchafswm y gosb sifil, ac y gallai cosb lai gael ei gosod, neu ddim cosb o gwbl, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. [Paragraff 415]

Rydym o'r farn bod y materion sydd wedi'u pennu yn adran 82(2) ac y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu hystyried wrth bennu lefel cosbau sifil yn sicrhau y bydd unrhyw gosb a osodir yn rhesymol ac yn gymesur. **Rydym yn fodlon, felly, gyda'r darpariaethau sy'n ymwneud â chosbau sifil.** [Paragraff 416]

**Pennod 9 – Rhan 6: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg**

Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan sefydliadau sy'n credu bod y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddarpariaeth bwysig sy'n werth ei

chadw yn y Mesur arfaethedig. Er ein bod yn cydnabod bod achosion o'r fath yn gymharol anghyffredin, rydym yn derbyn y gall fod sefyllfaoedd lle na chaiff pobl siarad Cymraeg gyda'i gilydd, a dylid cael ffyrdd o sicrhau nad yw hynny'n digwydd. [Paragraff 456]

Nodwn bryderon rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad sy'n credu nad yw'r pwerau a roddir i'r Comisiynydd yn ddigon effeithiol na chryf i roi modd digonol i unigolion ddatrys y sefyllfa mewn achosion pan amharwyd ar eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, o gofio bod gan y Comisiynydd bwerau eang o dan adran 3 o'r Mesur arfaethedig, nid ydym yn credu bod dadleuon y rheini a ddywedodd y dylid ehangu swyddogaethau gorfodi ac ymchwilio'r Comisiynydd yn dal dŵr. **Rydym yn credu bod darpariaethau digonol eisoes i'w cael mewn adrannau eraill o'r Mesur arfaethedig, yn benodol o dan adran 3, a fydd yn caniatáu i'r Comisiynydd ymdrin â chwyn yn ymwneud â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.** [Paragraff 457]

Nodwn a chydnabyddwn y dystiolaeth a gafwyd gan sefydliadau ac unigolion sy'n teimlo bod Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig yn aneglur, yn rhy gymhleth ac yn astrus. Derbyniwn hefyd yr awgrym bod y ddeddfwriaeth bresennol ym maes cydraddoldeb yn ffordd well o ymdrin ag achosion sy'n ymwneud ag ymyrryd ar ryddid i unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. **Felly, er eglurdeb a chywirdeb, ac o gofio'r pwerau a fydd gan y Comisiynydd, rydym yn credu y dylid defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol ym maes cydraddoldeb er mwyn ymdrin ag unrhyw achosion sy'n ymwneud ag ymyrryd ar ryddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.** [Paragraff 458]

Er gwaethaf sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn monitro'r ddeddfwriaeth hon yn ofalus unwaith y caiff ei rhoi ar waith, **yn ein barn ni, os bydd y Gweinidog yn derbyn ein hargymhelliad i gynnwys datganiad clir ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yn Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig, ni fyddai angen darpariaeth ddilynol i ddiogelu rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r iaith. Byddai'r datganiad ynddo'i hun yn diogelu rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol. Os gwneir y newid hwnnw i'r Mesur arfaethedig, credwn y dylid cael gwared ar Ran 6 yn llwyr.** [Paragraff 459]

**Pennod 10 – Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg**

**Rydym yn derbyn dadleuon y Gweinidog ynghylch trefniadau gweinyddol y Tribiwnlys.** [Paragraff 469]

O ran penodi'r Tribiwnlys, yn unol â'n hargymhelliad ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg a'r Panel Cynghori, credwn y **dylai aelodau'r Tribiwnlys gael eu henwebu gan Weinidogion Cymru a'u cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw.** [Paragraff 470]

**Pennod 11 – Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg ac ati**

Nodwn fod nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi mynegi pryderon am y trefniadau pontio o'r system bresennol i'r system newydd o dan y Mesur arfaethedig. [Paragraff 487]

O'r dystiolaeth a ddaeth i law, mae'n amlwg bod agwedd a dull Bwrdd yr Iaith Gymraeg o weithio wedi cael croeso a chefnogaeth gref gan y sefydliadau y bu'n ymwneud â hwy. Yn benodol, rydym wedi nodi cynifer o sefydliadau sydd wedi dweud pa mor effeithiol y bu eu perthynas weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n braf clywed hynny, ac mae'n amlwg y bydd y Gymraeg yn elwa ar y gwaith hwn yn y dyfodol. [Paragraff 488]

Felly, mae'n hanfodol nad yw profiad ac arbenigedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei golli yn ystod y broses bontio, ac mae'n bwysig nad yw'r agweddau a gafodd eu meithrin ymhlith sefydliadau tuag ato'n newid. At hynny, llawn cyn bwysiced yw sicrhau na chollir yr ewyllys da tuag at y Gymraeg sydd wedi'i feithrin drwy ddatblygu cynlluniau iaith gwirfoddol. Mae hynny yr un mor wir yn achos y sefydliadau y bydd darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn effeithio arnynt ag ydyw i'r rhai na fydd y darpariaethau'n effeithio arnynt. [Paragraff 489]

Felly, **rydym yn argymell yn gryf bod y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynllunio'n effeithiol ar gyfer pontio i'r system newydd, a hynny er mwyn cynnal y momentwm sydd wedi'i feithrin wrth hybu'r Gymraeg ac wrth reoleiddio'r modd y darperir gwasanaethau Cymraeg.** [Paragraff 490]

**Pennod 12 – Y goblygiadau ariannol**

Rydym yn rhannu pryderon yr ymatebwyr ynghylch y diffyg gwybodaeth sydd yn y Memorandwm Esboniadol am effaith ariannol nodau ac amcanion y Mesur arfaethedig. [Paragraff 509]

Rydym yn ymwybodol bod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag,

**credwn ei bod yn bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agored â phob sefydliad os daw'r ddeddfwriaeth hon i rym, a hynny er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'n gywir y gost o roi ei ddarpariaethau ar waith.** [Paragraff 510]

# 1. Cyflwyniad

1. Ar 4 Mawrth 2010, cyflwynodd Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth (y Gweinidog) *Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)*[2] (y Mesur arfaethedig) ynghyd â Memorandwm Esboniadol.[3] Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad am y Mesur arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol.[4]

2. Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2010, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 er mwyn ystyried ei egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1) yn unol â Rheol Sefydlog 23.21. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y byddai'n rhaid i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gyflwyno'i adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 16 Gorffennaf 2010 fan bellaf. Ar ôl i ni wneud cais i'r Pwyllgor Busnes, cafodd y dyddiad hwn ei ymestyn tan 23 Gorffennaf 2010. [5]

### Natur y gwaith craffu

3. Yn ein cyfarfod ar 10 Mawrth 2010, cytunwyd ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig:

Ystyried:

i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni amcanion datganedig Llywodraeth Cymru, fel y nodir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol, sef:

- cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- lleihau'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n destun dyletswyddau drwy symud y ffocws oddi ar baratoi cynlluniau;

---

[2] Ar gael yn http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7944-e.pdf
[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm Esboniadol i Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010*, 4 Mawrth 2010. Ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7944-em-e.pdf
[4] Cofnod y Trafodion, tudalennau [36 - 61], 10 Mawrth 2010
[5] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, BC(3)11-10, 20 Ebrill 2010, paragraff 4(i)

- sefydlu system a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur;
- o fewn sectorau penodol, sicrhau bod mwy o gysondeb o ran y cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau, gyda'r nod o sicrhau chwarae teg i bawb;
- datblygu cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru o ran hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach;
- datblygu trefn orfodi fwy effeithiol mewn perthynas ag unrhyw ddyletswyddau a gaiff eu gosod;
- rhoi llais cryf ac annibynnol i'r Gymraeg drwy sefydlu'r Comisiynydd fel eiriolwr i'r iaith;
- gwneud darpariaeth bellach o ran statws swyddogol y Gymraeg;
- gwneud darpariaethau o ran ymchwilio ac adrodd ar yr achosion hynny o ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd."[6]

ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni ei amcanion datganedig;

iii) prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ac a ydynt yn addas i gyflawni'r amcanion;

iv) rhwystrau posibl rhag rhoi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw iddynt;

v) safbwyntiau rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio o dan y trefniadau newydd.

## Ein dull o weithio

4. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth gennym, a gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan randdeiliaid allweddol er mwyn i hynny fod yn sail i'n gwaith.[7] Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10
[7] Mae copi o'n llythyr ymgynghori ar gael yn:
http://www.cynulliadcymru.org/lc2_wl_letter_to_consultees-e_new_template.pdf

5. Clywsom dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r tystion hyn hefyd i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

6. Yn benodol, hoffem ddiolch i Bernat Joan Í Mari, a roddodd dystiolaeth ar ran Llywodraeth Catalonia. Diolchwn hefyd i'r Mobile Broadband Group, Trenau Arriva Cymru, Scottish Power a Chymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU am gytuno i roi tystiolaeth ychwanegol, ar ein cais, am arferion mewn gwledydd amlieithog eraill y mae eu busnesau'n ymwneud â hwy. Bu'r dystiolaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn rhoi cyd-destun rhynwgladol i'n gwaith.

7. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar.

8. Penodwyd Dr Robert Dunbar, o Brifysgol Aberdeen, fel cynghorwr arbenigol ac rydym yn ddiolchgar iddo am ei holl gyngor a'i arweiniad, a hynny ar sail ei brofiad rhyngwladol eang iawn ym maes deddfwriaeth iaith.

9. Yn yr adroddiad a'r argymhellion isod, ceir y casgliadau a ddeilliodd o'r dystiolaeth a ddaeth i law wrth i ni fwrw ati gyda'n gwaith. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hadroddiad.

# 2. Y cefndir

## Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arafethedig

10.Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesur mewn perthynas â'r Gymraeg i'w gael ym Materion 20.1 a 20.2 yn Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r materion hyn i'w gweld yn Atodiad 1.

### Y Memorandwm Esboniadol

11.Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig, yn egluro sut y mae deddfwriaeth yn y gorffennol wedi cyfrannu at hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac yn benodol drwy *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993* ("Deddf 1993") a *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006").[8]

12.Mae Deddf 1993 wedi'i seilio ar yr angen i "hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal".[9] Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u rhoi gan Ddeddf 1993 i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.[10]

13. Mae Deddf 1993 yn rhestru categorïau penodol o bersonau y gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi cynlluniau iaith. Mae'r cynlluniau hyn yn pennu'r camau y mae'r personau dan sylw yn bwriadu eu cymryd er mwyn rhoi ei heffaith i'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, a hynny wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae Deddf 1993 hefyd yn rhoi pwerau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ymchwilio i achosion o weithredu'n groes i'r cynlluniau iaith. Mewn achosion o'r fath, mae gofyn i'r Bwrdd gyflwyno adroddiadau ar ei ymchwiliadau.[11]

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai diben y Mesur arfaethedig yw:

> "…[m]oderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

[8] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.4 – 2.10
[9] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.6
[10] ibid
[11] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.7

ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus."[12]

15. Eglurir bod moderneiddio'r fframwaith presennol hwn yn angenrheidiol am sawl rheswm, gan gynnwys:

- mae siaradwyr Cymraeg yn dal i wynebu anghysondebau ac anawsterau o ran derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;[13]
- mae'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wedi newid ers 1993. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith yn Neddf 1993 yn caniatáu i'r newidiadau hyn gael eu hystyried mewn ffordd gyson. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd o anghysondeb yn y sectorau hyn ac ansicrwydd ynghylch y gwasanaethau y gall cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith ddisgwyl eu derbyn;[14]
- mae datblygu, trafod a chytuno ar gynlluniau iaith fesul achos wedi bod yn broses sy'n galw am lawer o adnoddau.[15]

16. Un o amcanion eraill cyflwyno'r Mesur arfaethedig yw cyflawni un o ymrwymiadau rhaglen lywodraethu *Cymru'n Un*[16], sef "[c]reu Mesur Cynulliad newydd i  gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith."[17]

17. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn ceisio darparu "sail i Weinidogion Cymru gyflwyno polisïau ar yr iaith"[18]. Mae'r polisïau hyn i'w cael ar hyn o bryd yn y ddogfen *Iaith Pawb.*[19]

18. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi amcanion y Mesur arfaethedig yn fanwl ym mharagraff 3.10 (mae'r rhain hefyd i'w gweld yn y cylch gorchwyl ym mharagraff 3 uchod ac ym mharagraff 19 ar y dudalen nesaf).

---

[12] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1
[13] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1
[14] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2
[15] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3
[16] Llywodraeth Cymru, *Cytundeb Cymru'n Un*, Mehefin 2007, tudalen 34, Ar gael yn: http://wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalese.pdf?lang=en
[17] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.7
[18] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.9
[19] Llywodraeth Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Chwefror 2004, Ar gael yn: http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbe.pdf?lang=en

# 3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

## Y cefndir

19. Disgrifir amcanion cyffredinol y Mesur arfaethedig fel a ganlyn:

- cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- lleihau'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n destun dyletswyddau drwy symud y ffocws oddi ar baratoi cynlluniau iaith;
- sefydlu system a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur;
- o fewn sectorau penodol, sicrhau bod mwy o gysondeb o ran y cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau, gyda'r nod o sicrhau chwarae teg i bawb;
- datblygu cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru ("Llywodraeth Cymru") ac awdurdodau lleol yng Nghymru o ran hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach;
- datblygu trefn orfodi fwy effeithiol mewn perthynas ag unrhyw ddyletswyddau a gaiff eu gosod;
- rhoi llais cryf ac annibynnol i'r Gymraeg drwy sefydlu'r Comisiynydd fel eiriolwr i'r iaith;
- gwneud darpariaeth bellach o ran statws swyddogol y Gymraeg;
- gwneud darpariaethau o ran ymchwilio ac adrodd ar yr achosion hynny o ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.[20]

[20] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10

**Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad**

*Sylwadau cyffredinol*

20. Tra'r oedd y farn yn amrywio ynghylch egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'i brif ddarpariaethau, roedd mwyafrif helaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn croesawu'r ffaith bod y Mesur arfaethedig wedi cael ei gyhoeddi. Meddai Emyr Lewis, sy'n gyfreithiwr:[21]

> "Gwelaf y Mesur fel cyfle hanesyddol i osod carreg sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Dyma'r cyfle gorau ers canrifoedd i lunio fframwaith deddfwriaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a hynny gan ddeddfwrfa lle mae pob plaid yn deall gwerth yr iaith, ac yn ymrwymedig i'w chefnogi."[22]

21. Yn ôl Mentrau Iaith Cymru:

> ". . . mae'r Mesur yn gyfle gwych i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg am genedlaethau i ddod ac mae'n bwysig sicrhau fod y Mesur yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn sylweddol."[23]

22. Roedd Dŵr Cymru o blaid egwyddor y Mesur arfaethedig, ond yn teimlo na fyddai'n newid dim yn sylweddol i'w sefydliad.[24] Serch hynny, meddent:

> "The Measure should promote consistency and ensure that the same level of services are offered by many of the other major organisations in Wales, in both the private and public sectors. Therefore, for the Welsh speaking public in Wales this can only be regarded as a positive move as there is likely to be more consistency in the services offered."[25]

23. Awgrymodd Dŵr Cymru hefyd y gallai effaith y Mesur arfaethedig olygu bod mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'r gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg.[26]

---

[21] Emyr Lewis hefyd yw cynrychiolydd y Deyrnas Unedig ar Gyngor Pwyllgor o Arbenigwyr Ewrop sy'n ymchwilio i lefel gydymffurfio gwladwriaethau â Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop
[22] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9
[23] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53
[24] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 11
[25] ibid
[26] ibid

24. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru:

> "NCMA Cymru is supportive of the stated objectives of the Measure and believes the Measure is needed in order to update existing legislation and ensure Welsh speakers have access to more consistent and clearer provisions regarding the language. NCMA Cymru welcomes the move towards standards for organisations to work towards, which will help ensure service providers and service users have clarity and consistency about Welsh language services and duties."[27]

25. Hyd yn oed lle'r oedd gan sefydliadau bryderon am elfennau unigol yn y Mesur arfaethedig—er enghraifft, sut y byddai'n berthnasol i'r sector preifat—roedd pobl yn cefnogi'n gyffredinol y rhesymeg dros ei gyflwyno. Yn ôl E.ON UK, roedd egwyddorion y Mesur arfaethedig yn ymddangos yn rhai cadarn"[28], tra'r oedd Scottish Power yn cydnabod:

> "that greater clarity and consistency for Welsh speakers in terms of the services they can expect to receive in Wales across various sectors could be valuable. We can also see the benefit of having some consistency within sectors in creating a more level playing field. As such, we welcome the new Welsh Language (Wales) Measure in principle."[29]

26. Teimlai Scottish Power hefyd y gallai'r math o system reoleiddio y byddai'r Mesur arfaethedig yn ei chyflwyno yn gallu bod yn fuddiol:

> "We already have a strong commitment for Welsh language service provision, so the possibility of regulation may be beneficial in ensuring that our competitors offer similar standards".[30]

27. Pan holwyd hwy ymhellach, ychwanegodd Scottish Power:

> "We see it as a challenge and an opportunity to improve our service to customers in Wales. However, that is provided that there is clarity about the standards and that they are workable and achievable."[31]

---

[27] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 34
[28] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 17
[29] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 15
[30] ibid
[31] Cofnod y Trafodion, paragraff [240], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

28. Dywedodd RWE npower eu bod o blaid y Mesur arfaethedig o ran yr angen i gylfawni chwech[32] o'r amcanion arfaethedig a geir ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol, a hynny ac ystyried arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y Gymraeg i'r genedl Gymreig".[33] Nid oeddent yn cytuno bod angen sicrhau amodau cyfartal o fewn gwahanol sectorau, oherwydd yn eu sector hwy (cyflenwi nwy a thrydan) mae gan y farchnad gystadleuol eisoes y gallu a'r ewyllys i gynnig darpariaeth briodol drwy gyfrwng y Gymraeg.[34] Mae defnyddio cystadleuaeth i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y bennod hon ac ym Mhennod 7 ar safonau.

29. Tra'r oedd gan rai o gwmnïau'r sector preifat amheuon am symud o system wirfoddol i system statudol, roedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru (CBI Cymru) yn dal yn gadarnhaol ynghylch y Mesur arfaethedig fel darn o ddeddfwriaeth, ac eithrio'r darpariaethau sy'n ymwneud â safonau. Meddent:

> "We find it disappointing that we are now going to move to a mandatory legislative approach for Welsh-language services in the private sector. However, given that that is where we are, we think that the proposed Measure is, as it stands, and as far as it relates to private sector provision of services, a pretty sensible document, and one that I think most companies will be able to work with. The big caveat is to do with the level of standards that will be required of services to be provided by private sector companies. Frustratingly, we still have no visibility of the likely level of services. It is nigh on impossible to give meaningful comment on costs and acceptability until we have some clarity on that."[35]

30. Gan gytuno'n fras â'r Mesur arfaethedig, meddai Trenau Arriva Cymru:

> "We see it as trying to establish some consistency in the way schemes and, eventually, standards are delivered in terms of the Welsh language. We are looking for consistency where

[32] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 29
[33] ibid
[34] ibid
[35] Cofnod y Trafodion, paragraff [207], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

schemes are currently self-determined by the various businesses and bodies."[36]

31. Wrth ddweud eu bod yn cefnogi'r Mesur arfaethedig, dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

> "The introduction of Standards should make it clearer to consumers about what levels of service to expect and who they can expect to receive a Welsh language service from. This move towards consistency and clarity is a positive step forward for Welsh language consumers."[37]

32. Ychwanegasant fod eu hymchwil yn dangos bod anghysondeb rhwng gwahanol gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'u bod gan hynny yn croesawu datblygu amodau cyfartal."[38] Roeddent hefyd yn teimlo bod eu gwaith ymchwil ar wasanaethau Cymraeg yn dangos yn glir bod angen rhagor o gysondeb rhwng gwahanol sectorau[39] a bod defnyddwyr yn teimlo bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw. Roedd defnyddwyr hefyd, meddent, yn teimlo o dan anfantais os nad oeddent yn gallu mynegi'u hunain yn eu dewis iaith."[40]

33. Nododd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fod y diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch y gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael ynddo'i hun yn cael effaith negyddol ar ddefnyddio'r iaith:

> "We have anecdotal evidence that our service users sometimes lack confidence in stating their preferred language as they are unclear regarding the service they can expect".[41]

34. Dywedodd Un Llais Cymru wrth roi sywladau ar amcanion y Mesur arfaethedig:

> "The stated objectives in the explanatory memorandum appear sensible and worthwhile. In a situation where we are striving for citizen-centred public service delivery, it clearly makes sense to have those services delivered consistently."[42]

---

[36] Cofnod y Trafodion, paragraff [86], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[37] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37
[38] ibid
[39] ibid
[40] Cofnod y Trafodion, paragraff [309], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[41] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 45
[42] Cofnod y Trafodion, paragraff [7], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

35. Meddent hefyd:

> "the broad picture—the shift from a scheme to standard—looks straightforward, as does an enhanced enforcement regime with more options, because there is clearly some sense in that."[43]

36. Roeddent yn teimlo bod gan safonau y potensial i leihau biwrocratiaeth, er bod ganddynt air o rybudd:

> "… [the new system] offers the potential to reduce bureaucracy; that is the principle behind replacing schemes with standards. Avoiding what might be seen as protracted discussions to arrive at a scheme could be a saving … So, while the principle of a standard looks attractive, there is a slight concern that it could lead to more, rather than less, bureaucracy. At the moment, you have one document: that is your agreed Welsh language scheme and it is clear to members of the council and the public if they want to see that scheme. We need to ensure that we are not making things more complicated when we are trying to make them simpler."[44]

37. Roedd Comisiynydd Plant Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r Mesur arfaethedig, a disgrifiodd yr amcanion fel a ganlyn:

> "…appropriate, especially in relation to clarity of what the citizen should expect, having a strong advocate and champion of the Welsh language, affording official status to the Welsh Language and providing a level of accountability and recourse via a more effective reinforcement regime."[45]

38. Serch hynny, roedd gan Gomisiynydd Plant Cymru un gair o rybudd hefyd:

> "It is unclear how the Proposed Measure builds on the provisions of the Welsh Language Act 1993 in terms of empowering the citizen. It is questionable whether or not the balance of power between service provider (and their statutory

---

[43] Cofnod y Trafodion, paragraff [48], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[44] Cofnod y Trafodion, paragraff [46], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[45] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 266

obligations) and the rights of the citizen … has been achieved."[46]

39. Roedd Agored Cymru[47] yn cefnogi'r nod o sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg, ond cyfeiriwyd at un risg bosibl:

> "We support minimising unnecessary bureaucracy. There is a risk however that by moving to the proposed system, a new set of bureaucracy and potentially costly processes will be put in place at a time of increasing budgetary constraints."[48]

40. Tra'r oeddent yn cefnogi'r egwyddor o gyflwyno'r Mesur arfaethedig, ymddangosai bod ambell un o'r rheini a ymatebodd yn gymharol fodlon â'r fframwaith presennol sy'n rheoleiddio'r iaith (ac yn benodol yn fodlon â'r cynlluniau iaith a gaiff eu creu o dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*).

41. Dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru:

> "We are not sure where the notion has come from that Schemes are not an effective or efficient way of managing the planning and provision of language choice".[49]

42. Dywedodd Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru eu bod yn fodlon yn gyffredinol â'r system bresennol o reoleiddio'r iaith a chyfraniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg at hynny. Meddent:

> "The contact members have enjoyed with the Welsh Language Board has been invariably … described as positive and constructive. Any change in this would not be generally welcomed by Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru and its members."[50]

43. Fodd bynnag, mynegodd nifer o sefydliadau bryder ynghylch agweddau ar y Mesur arfaethedig.

44. Pan ofynnwyd iddynt a oedd y Mesur arfaethedig, yn ei gyfanrwydd, yn welliant ar y drefn sydd ohoni, dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg nad oeddent yn credu ei fod mewn unrhyw ffordd sylweddol.

---

[46] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 266
[47] Mae Agored Cymru yn sefydliad dyfarnu sy'n datblygu cymwysterau sydd wedi'u teilwra i ateb anghenion dysgwyr yng Nghymru
[48] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 244
[49] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 21
[50] Cofnod y Trafodion, paragraff [309], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

At hynny, yn ôl y tystion: "yr ydym yn meddwl nad yw'n gwireddu rhai o addewidion 'Cymru'n Un' ynghylch yr iaith Gymraeg".[51]

45. Aethant yn eu blaenau i ddweud:

> "…Nid yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi datganiad diamwys bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Nid yw'n rhoi'r hawl gyffredinol i bobl Cymru gael gwasanaeth yn y Gymraeg nac yn creu cyfundrefn arolygu sy'n fwy annibynnol ar y Llywodraeth na'r drefn bresennol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg…."[52]

46. Fodd bynnag, roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig:

> "…yn welliant ar y status quo o ran bod sgôp y cyrff sy'n dod o dan y Mesur arfaethedig ychydig yn ehangach nag o dan y Ddeddf bresennol. Hynny yw, mae'r cyfleustodau cyhoeddus yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, cam bach ymlaen yw hynny…" [53]

47. Mynegwyd pryderon hefyd gan Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, a ddywedodd:

> "Credwn fod y Mesur arfaethedig, heb amheuaeth, yn gyfle i osod amodau i wella'r sefyllfa bresennol o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, mae gwendidau amlwg yn y Mesur arfaethedig fel y saif. Mae lle i ofni y gallai'r gwendidau hynny arwain at sefyllfa sydd hyd yn oed yn waeth ac yn fwy aneglur na'r sefyllfa bresennol o dan Ddeddf 1993. Y peth pwysig i ni yw sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog yn y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r unigolyn yn ei ganol, a chredwn ei fod yn annelwig o'r herwydd."[54]

48. Yn yr un modd, er eu bod yn credu bod y Mesur arfaethedig "yn gam i'r cyfeiriad cywir"[55] teimlai Mentrau Iaith Cymru "fel ei fod yn pwyso i ffwrdd o'r dinesydd".[56] Gan roi enghraifft, dywedasant fod digon o gyfleoedd i sefydliad gwyno ynghylch y safonau y mae disgwyl iddo'u cyrraedd, ond nad oes hawl gan unigolyn i apelio os nad yw'n cytuno â phenderfyniad a wnaed gan y Comisiynydd mewn perthynas â

[51] Cofnod y Trafodion, paragraff [5], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[52] Cofnod y Trafodion, paragraff [6], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[53] Cofnod y Trafodion, paragraff [9], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[54] Cofnod y Trafodion, paragraff [133], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[55] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53
[56] Cofnod y Trafodion, paragraff [272], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

sefydliad, neu benderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys.[57] Cyfeiriodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad at yr un pwynt, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a ddywedodd:

> "Others have noted the irony that the only rights explicitly afforded by the Proposed Measure is the right for service providers to challenge the standards ... [with] which they have a duty to comply."[58]

49. Roedd nifer o'r rheini a ymatebodd yn feirniadol o'r Mesur arfaethedig, gan gredu ei fod yn rhy wan. Cafwyd ymatebion ysgrifenedig tebyg gan tua 200 o ymatebwyr a oedd yn mynegi siom nad yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd; nad yw'n rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg; nad yw'n sefydlu Comisiynydd Iaith sy'n ddigon annibynnol; nad yw'n rhoi hawliau i bobl gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg; ac nad yw'n rhoi hawl i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn eu man gwaith.[59]

50. Nid oedd nifer bychan o ymatebwyr yn derbyn bod angen y Mesur arfaethedig o gwbl, a hynny am amryw resymau. Er enghraifft, teimlai un aelod o'r cyhoedd y byddai'r Mesur arfaethedig yn gostus mewn cyfnod o gyni cyffredinol[60] tra dywedodd aelod arall o'r cyhoedd:

> "I personally do not want Welsh forced on me and I would like all my services in **English Only** so that I am afforded the same rights as anyone who wants their services in Welsh"[61].

51. Awgrymodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad welliannau penodol a thechnegol i'r ddeddfwriaeth, a cheir rhestr o'u cyflwyniadau yn Atodiad 2.

*Prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig*

52. Mae'r prif ddarpariaethau a gyflwynir gan y Mesur arfaethedig yn ymwneud â darpariaeth mewn perthynas â statws swyddogol y Gymraeg, creu swydd Comisiynydd y Gymraeg (a diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei sgil) a disodli cynlluniau iaith gyda safonau.

---

[57] Cofnod y Trafodion, paragraff [272], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[58] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 266
[59] Er enghraifft, Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 7
[60] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 3
[61] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 5 (y pwyslais yn y dystiolaeth ei hun).

53. O ran statws swyddogol y Gymraeg, mynegodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad bryderon am adran 1 o'r Mesur arfaethedig, ond nid oedd neb yn anghytuno bod angen darpariaeth o'r fath nac yn gwrthwynebu cynnwys darpariaeth o'r fath yn y ddeddfwriaeth.

54. Cafwyd cefnogaeth eang i greu swydd Comisiynydd y Gymraeg.

55. Arweiniodd y bwriad i ddisodli cynlluniau gyda safonau at gryn drafodaeth ymysg y tystion. Mae'r materion a gododd yn cael eu trafod yn y ddwy adran isod ac yna'n fanylach ym Mhennod 7.

*Pryderon am sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau*

56. Fel y dangosir wrth drafod y sylwadau cyffredinol yn y paragraffau blaenorol, roedd nifer o sefydliadau'n croesawu'r nod yn y Mesur arfaethedig sy'n ceisio sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir i siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn pryderu a ellid cyflawni'r nod hwn, yn enwedig ac ystyried natur y fframwaith safonau.

57. Pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr anawsterau posibl a allai ddeillio o geisio cyflawni'r nod o sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb:

> "mae angen mwy o eglurder a chysondeb er mwyn i'r dinesydd fedru deall y lefel o wasanaeth y gall ddisgwyl derbyn o ran yr iaith Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth a'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth serch hynny, a bydd angen i'r Mesur arfaethedig ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater heriol hwnnw."[62]

58. O ran y pwynt diwethaf, pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod yr "angen am hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion lleol yn parhau", ac "nid yw dull 'yr un i bawb' o ran darpariaeth iaith Gymraeg yn realistig nac yn ddymunol."[63] Gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan Un Llais Cymru[64] a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a ddywedodd y gallai fod yn dalcen caled cael cydbwysedd

---

[62] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 23
[63] ibid
[64] Cofnod y Trafodion, paragraffau [7 -8], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

rhwng sicrhau cysondeb ledled Cymru ar y naill law, a bod yn gymesur yn lleol ar y llaw arall."[65]

59. Ar ôl croesawu creu swydd Comisiynydd y Gymraeg a'r pwerau rheoleiddio cryfach a fyddai'n dod yn sgil hynny[66], dywedodd un o dystion Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth ymateb i gwestiwn am y fframwaith safonau newydd:

> "Ni welaf y ddadl yn cael ei gwneud bod hwn yn gam ymlaen. Credaf fod angen mwy o eglurder ynglŷn â beth yw'r safonau, a dylid nodi hefyd bod y Mesur arfaethedig hwn yn dileu cynlluniau iaith....Yr ydych felly'n adeiladu safonau ar strwythur yr ydych newydd ei ddileu. Yr wyf yn teimlo bod hynny'n anodd ei ddeall mewn cyd-destun cyfreithiol."[67]

60. Ychwanegodd y tyst:

> "Yr wyf yn gobeithio y bydd safonau yn arwain at eglurder, ond, eto, rhaid cydnabod nad oes digon o fanylder am y safonau yn y Mesur arfaethedig i wneud y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod bod angen system sy'n rhoi pŵer i'r dinesydd. O ddarllen y Mesur arfaethedig hwn, nid wyf yn gweld tystiolaeth o hynny. Yr hyn a fydd gennym fydd strwythur, drwy safonau, a fydd yn rhoi pwysau ar y darparwr, yn hytrach na hawliau i'r dinesydd."[68]

61. Mynegodd Canolfan Llywodraethiant Cymru hefyd bryderon am y Mesur arfaethedig:

> "It is impossible to decide whether the Measure provides greater clarity and consistency for Welsh speakers in terms of the services they can expect to receive in Welsh without seeing the draft of the standards proposed to be made under clause 25. This is considered to be particularly necessary in order to understand what would be the difference between such standards and the current provisions in schemes made under 1993 Act.
>
> It is not considered that there would be a reduction in the administrative demands placed upon those subject to duties

[65] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 26
[66] Cofnod y Trafodion, paragraff [7], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[67] Cofnod y Trafodion, paragraff [90], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[68] Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

under the Measure by moving the focus away from the preparation of 1993 Act schemes. This is because in order to implement the standards applying to them, bodies will have to set out in what manner they intend to meet the requirements of the standards. This seems no different to the work involved in preparing schemes under the current legislation which set out how the body intends to conduct its business in both languages on the basis of equality. In addition, it does not appear that the Measure would create a "system" because what is being established by prescribing standards depends on what is reasonable and proportionate in the particular circumstances of a particular body. Can a general "system" be established on the basis of a variety of applicable standards?"[69]

62. Er mwyn sicrhau amodau cyfartal, awgrymodd y Ganolfan hefyd y gellid bod wedi mynd i'r afael â diffygion yn Neddf 1993 drwy ei diwygio, ac y byddai hynny wedi sicrhau'r un math o gysondeb.[70]

63. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

> "Ni fydd y Mesur yn gwneud yn siŵr y bydd pobl yn gwybod beth yw eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, oherwydd bydd y gyfundrefn yn hollol ddibynnol ar safonau sydd yn amrywio o gorff i gorff ac o ardal i ardal. Does dim sicrwydd na fydd pobl yn dal i ddioddef safon o wasanaeth is-raddol yn y Gymraeg chwaith....."[71]

*Yr angen i gadw cynlluniau iaith ar ryw ffurf*

64. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "…yr hyn sy'n bwysig wrth gyflwyno safonau a'u datblygu yw eu bod yn cael eu gwau ynghyd â strwythur y cynlluniau iaith, ac yn adeiladu arnynt. Nid ydym yn sicr a yw hynny'n cael ei fynegi'n glir yn y Mesur arfaethedig."[72]

65. Meddent hefyd:

> "Mae Deddf 1993 a'r Mesur arfaethedig hwn yn rhoi'r pwyslais ar y darparwr. Yr ydym yn teimlo, o safbwynt safonau, na

---

[69] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[70] ibid
[71] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[72] Cofnod y Trafodion, paragraff [78], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> fyddai'r ddeialog fewnol honno yn digwydd i'r un graddau. Byddai safonau yn gosod disgwyliadau ar gyrff ac felly ni fyddai'r ddeialog honno, sy'n galluogi cynlluniau i dyfu o fewn y sefydliad, yn digwydd. Dyna yw'n pryder mwyaf yn hyn o beth: y bydd y teimlad o berchnogaeth yr ydym yn ei weld mor amlwg ar hyn o bryd mewn cyrff yn cael ei golli."[73]

66. Fel nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, nid oedd yr Athro Colin Williams o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn credu y byddai safonau'n golygu na fydd angen i sefydliadau greu rhywbeth tebyg i gynlluniau iaith er mwyn rhoi'r safonau hynny ar waith:

> "Cyn i'r Mesur arfaethedig ymddangos, rhaid imi gyfaddef fy mod yn disgwyl i'r safonau fod yn haen arwyddocaol a symbolaidd—nid i ddisodli cynlluniau iaith, ond i'w gwarchod fel bod safonau cenedlaethol yn perthyn i'r system addysg, y gwasanaeth iechyd, y Llywodraeth ac yn y blaen. Dyna sut yr wyf yn dal i'w gweld, sef, fel rhywbeth sydd ar lefel *mezzo,* ac, oddi tanynt, rywbeth tebyg i'r cynlluniau iaith traddodiadol weithio o hyd."[74]

67. Cafwyd sylwadau tebyg am yr angen am ryw fath o gynlluniau iaith yn ychwanegol at safonau gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru[75], y Ganolfan Cynllunio Iaith[76] ac aelod o'r cyhoedd a oedd yn brofiadol ym maes cynlluniau iaith. Dywedodd y tyst hwn:

> "…mae'n edrych i nifer fawr o bobl, yn cynnwys fi oedd yn hollol gefnogol i'r syniad o safonau, mai gwannach na'r ddeddf presennol bydd y Mesur os nad yw'r safonau a rhyw fath o gynlluniau iaith yn cyd-fynd... [Oni fyddai'n] syniad i weithio i wella a datblygu beth sydd ganddon ni nawr gyda chymorth y Mesur, yn lle dechrau o'r dechrau a thaflu allan yr holl waith da sy'n bodoli, er gwaetha diffygion Deddf 1993 a'r holl broblemau?
>
> … Yn lle hynny, rydyn ni mewn sefyllfa lle mae'n teimlo ein bod ni ar fin colli yr unig cyfle mewn cenhedlaeth i wneud gwaith da

[73] Cofnod y Trafodion, paragraff [95], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[74] Cofnod y Trafodion, paragraff [215], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[75] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[76] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 54

a symud ymlaen yn synhwyrol ac yn bositif gyda chynllunio ieithyddol yng Nghymru."[77]

68. Cyfeiriodd Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru hefyd at bryder tebyg:

> "Os yw safonau'n disodli cynlluniau, pa effaith fydd hyn yn ei chael ar gynlluniau gwirfoddol presennol sydd yn agored i fusnesau nad ydynt yn dod o dan unrhyw ddeddfwriaeth?"[78]

*Ehangu rheoleiddio i'r sector preifat*

69. Nid oedd nifer o'r cyflwyniadau gan sefydliadau neu gynrychiolwyr y sector preifat yn cefnogi ehangu'r gyfundrefn reoleiddio y tu hwnt i sector y wladwriaeth. Yn aml, eu dadl oedd bod sefydliadau yn y sector preifat eisoes yn darparu gwasanaethau Cymraeg a hynny o dan gynlluniau iaith Gymraeg gwirfoddol (weithiau wedi'u paratoi ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg). Yn eu tyb hwy, roedd y dull hwn yn fwy effeithiol er mwyn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat.

70. Dywedodd y Gymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd:

> "ISPA is keen to ensure that the Measure is underpinned by a thorough process that balances the development of the Welsh language with the impact on those subject to the measure.
>
> The internet sector is … characterised by varied services, footprints and business models …. ; This means that obligations placed on the sector will affect different players in different ways and any regulations that are drafted should take this into account. There is a concern that by drawing the Measure too widely, it may hamper the development of the sector and services to the Welsh market."[79]

71. Mynegodd Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU hefyd bryderon am effaith y Mesur arfaethedig ar y sector telathrebu, ac yn benodol ynghylch symud oddi wrth y dull gwirfoddol:

> "So, potentially, the move from a voluntary arrangement, where you do something that fits … to a situation where our members suddenly have nothing but costs, we fear that it may lead to

[77] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 263
[78] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 24
[79] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 42

> some people exiting or not entering the market in Wales. It is a barrier to entry."[80]

72. Pe na bai gwasanaethau ar gael i gwsmeriaid yng Nghymru oherwydd hyn, teimlai UKCTA y byddai'n dra niweidiol.[81]

73. Dywedodd BT Cymru wrthym ei fod yn "yn llwyr gefnogi'r egwyddor o gyflwyno deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg yng Nghymru, ond mae'n anghytuno ag ymestyn mesurau gorfodol i'r sector preifat."[82]

74. Fel y gwelsom eisoes yn nhystiolaeth RWE npower, cyfeiriodd nifer o dystion o'r sector preifat at faterion yn ymwneud â chystadleuaeth. Yn benodol, teimlai nifer o sefydliadau y dylai'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gwmnïau'r sector preifat gael eu gyrru gan y farchnad, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth. Dywedodd Good Energy:

> "… where the service provided is part of a competitive market, where the user can switch the provider of such services, then competitive pressures should prevail, and customers should seek out providers who offer services in the language of their choosing."[83]

75. Dywedodd E.ON UK am gynnwys y sector preifat yn y fframwaith safonau:

> "We are concerned that the proposed Standards will be very prescriptive in terms of the Welsh language service to be offered. This may be appropriate for the public bodies covered by the Measure, but this is not appropriate for companies, like ours, operating in a competitive market …The key objective of a Standard relating to organisations operating in a competitive market should be to ensure transparency of the services offered, not to define the level of service. In the competitive market it is legitimate for companies to offer different standards so consumers have a choice; it could become an element on which companies compete … We would suggest that the Standard could be in the form of a Charter Mark whereby companies are accredited according to the level of Welsh language services they provide."[84]

---

[80] Cofnod y Trafodion, paragraff [182], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[81] Cofnod y Trafodion, paragraff [183], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[82] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 30
[83] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 25
[84] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 17

76. Nid oedd Nwy Prydain yn credu y byddai safonau cyflenwi gwasanaethau o anghenraid yn arwain at ragor o eglurder a chysondeb i ddefnyddwyr. Yn ôl y tyst:

> "it will be difficult for the proposed Measure to marry the principles of a level playing field and tests of proportionality and reasonableness. Companies who occupy the same sector do not necessarily share the same characteristics in terms of market share, growth, customer profile and product and service provision. There is also no mention of demand, which ought to have some bearing on service provision in a competitive market."[85]

77. Dywedodd Nwy Prydain hefyd bod gwasanaethau Cymraeg yn y sector preifat wedi cael eu seilio ar y dull gwirfoddol ac ar gystadleuaeth:

> "… a voluntary approach to service provision, delivered by the competitive energy market, represents a better way to raise the level of provision of Welsh language service. . . . . British Gas believes that an increase in the use of services would drive improved standard of services and points of competitive differentiation between companies. Uplift in service use and provision on this basis could deliver more useful customer benefits than through prescriptive application of arbitrary standards envisaged by the proposed Measure."[86]

78. Pan holwyd tyst Nwy Prydain, eglurodd pam nad oedd yn teimlo mai'r Mesur arfaethedig oedd y ffordd orau o gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg:

> "I am not aware of any evidence that a Measure would make people use Welsh-language services more than they do now. That is why I suggested that it would perhaps be better to try to create demand for services in the first place and then to have companies, voluntarily, provide the services to meet that increased demand…"[87]

79. Er hynny, er gwaethaf barn gyffredinol CBI Cymru am y Mesur arfaethedig (gweler paragraff 29), gwnaethant sylwadau tebyg i Nwy Cymru:

---

[85] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 22
[86] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 22
[87] Cofnod y Trafodion, paragraff [120], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

"[it] will shift the focus of those companies that are covered by the legislation to compliance and costs rather than to the promotion and enhancement of service that the voluntary approach has engendered so far."[88]

80. Teimlai CBI Cymru y byddai dull gwirfoddol yn y tymor hir yn sicrhau gwell darpariaeth.[89] Meddai'r tyst:

"The answer to the question of whether the voluntary approach is sufficient depends on your aim and ultimate goal. If you want every supplier of a service to provide Welsh-language services, you will probably end up legislating. In the absence of strong customer demand, you will end up legislating. However, if the provision of Welsh language services in the private sector was static and had not shifted for the past 20 years, I would give more credence to that view. My strong impression is that we are making progress with the voluntary approach and we will continue to do so, but we are where we are now."[90]

81. Meddai Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru:

"More importantly, the proposed Measure refers to a framework of language standards which are not as yet defined. We are concerned that these standards will not reflect (nor be sympathetic to) the differing usage of Welsh within Wales. The current arrangement where companies can agree a policy and the development of that policy with the Welsh Language Board is flexible enough to achieve this balance whilst maintaining 'pressure' to increase the use of the language where appropriate."[91]

82. Teimlai Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) y gallai deddfwriaeth fod yn niweidiol i'r Gymraeg yn y pen draw:

". . . we do not believe that it would be a positive move to try and strengthen the language through further legislation, and in fact during our consultation with our membership we feel that we have evidence to show that it would actually be detrimental to the language itself. . . . 59% [of our members] chose customer demand as the single measure most likely to

[88] Cofnod y Trafodion, paragraff [209], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[89] Cofnod y Trafodion, paragraff [243], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[90] Cofnod y Trafodion, paragraff [266], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[91] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 38

> generate use of Welsh in their business. . . . FSB statistics clearly show that business will respond to customers more than legislation . . ."[92]

83. Roedd y Mobile Broadband Group hefyd o blaid dull gwirfoddol gan nodi bod gweithredwyr ffonau symudol eisoes yn gwneud mwy ar y sail honno nag y byddai economeg syml neu alw o du'r cwsmeriaid yn arwain ato.[93] Yn y cyd-destun hwn, teimlai ymatebwyr eraill o'r sector preifat, fel SWALEC, y dylai cymryd camau i annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd fod yn fwy o flaenoriaeth na rheoleiddio'r sector preifat mewn ffordd ffurfiol.[94]

84. Dywedodd busnesau eraill bod y nifer o bobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau Cymraeg yn isel. Er enghraifft, yn ôl Grŵp y Post Brenhinol:

> "We share the view of CBI Wales that it would be more beneficial for the Welsh Assembly Government to direct resources towards promotional activities ... From a business perspective, we would welcome increased usage by our customers of our current Welsh language services, which at present is disappointingly low".[95]

85. Meddent hefyd:

> "Like many other organisations within the business community in Wales, we would prefer to continue operating our Welsh Language Scheme on a voluntary basis ... the simple point is that it is easier to ensure our business units comply with the scheme if it is perceived by them as something we want to do rather than are compelled to do."[96]

86. Rhoddodd Llais Defnyddwyr Cymru esboniad posibl pam fod cyn lleied o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Yn ôl un o'u harolygon, diffyg hyder pobl yn eu sgiliau ieithyddol eu hunain yw un o'r rhwystrau mwyaf sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau Cymraeg, ac roedd hyn yn wir waeth po mor rhugl oedd y bobl hynny. [97] Wrth gael ei holi, dywedodd y tyst:

---

[92] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 24
[93] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 31
[94] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 8
[95] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 13
[96] ibid
[97] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37

> "It is difficult for us to pull apart the reasons for that. There were issues with people not being aware of what services were available, and an issue about the quality or level of service that was being provided, but over and above everything else, confidence seemed to be the biggest issue—people just did not feel that they had the confidence, whether that was the confidence to ask if Welsh was available, or in their skills to speak in a formal way."[98]

87. Cyfeiriodd Scottish Power at y ffaith mai dim ond sectorau penodol a fyddai'n cael eu rheoleiddio (gan gynnwys y sector cyfleustodau), a'u bod yn pryderu am ehangu'r rheoleiddio hwnnw i gynnwys y sectorau trydan a nwy oni bai bod hynny'n cynnwys nwyddau a gwasanaethau eraill sy'n berthnasol i fywydau pobl o ddydd i ddydd, fel archfarchnadoedd, banciau a chyflenwi tanwydd cerbydau (mewn ardaloedd gwledig).[99]

88. Fodd bynnag, roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn feirniadol o'r posibilrwydd o beidio â chynnwys y sector preifat yn y ddeddfwriaeth, a hynny ar sail yr hyn a welai fel annigonolrwydd y dull gwirfoddol. Meddent:

> "Mae'r ddadl fod y dull gwirfoddol yn gweithio yn hurt oherwydd y dibynna'r ddarpariaeth ar hyn o bryd ar ewyllys da unigolion a sefydliadau a metha fynd i'r afael â sefydliadau a ddylai fod yn darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn gwbl anghyson ac mae gennym dystiolaeth sy'n profi bod dibynnu ar ddulliau gwirfoddol a mympwy ac ewyllys da cwmnïau yn arwain at sefyllfa anwastad sy'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'n cynnig sefydlogrwydd i'r unigolyn na'r gymuned ac mae'n caniatáu anghysonderau tost."[100]

*Addysg cyfrwng Cymraeg*

89. Awgrymodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys darpariaethau penodol yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg.

90. Yn ôl Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

---

[98] Cofnod y Trafodion, paragraff [314], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[99] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 15
[100] Cofnod y Trafodion, paragraff [91], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> "Er mwyn bod yn gyflawn, credwn y dylid rhoi addysg Gymraeg yng nghyd-destun nod cyffredinol y Mesur arfaethedig hwn. Mae cydberthynas rhwng y strategaeth addysg, y strategaeth iaith a'r Mesur iaith arfaethedig. Ar hyn o bryd, nid yw'r strategaeth addysg yn statudol, ac felly mae awdurdodau lleol sy'n cynhyrchu cynlluniau sy'n mynd yn groes iddi. Byddai'n gwneud synnwyr i gynnwys adran am addysg yn y Mesur arfaethedig, gan gyfuno nod ac amcanion y prif strategaethau sy'n mynd i'r afael â datblygiadau'r Gymraeg."[101]

91. Dywedodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg y dylai'r Mesur arfaethedig "ychwanegu grym statudol i Strategaeth Addysg Cymraeg y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael y cyfle i elwa o fod yn gwbl ddwyieithog."[102]

92. Dywedodd Rhieni dros Addysg Gymraeg y byddent "yn croesawu fod y Mesur arfaethedig ddatganiad clir a fyddai'n sicrhau yr hawl statudol i addysg Gymraeg drwy gydol y cyfnod addysg statudol a chyn-statudol ac o fewn pellter rhesymol ar gyfer pob plentyn yng Nghymru."[103] Gresynai UCAC, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru, nad oedd y Mesur arfaethedig yn rhoi hawl i addysg Gymraeg i bob disgybl yng Nghymru.[104]

*Cymhlethdod y Mesur arfaethedig*

93. Roedd rhai o'r rheini a ymatebodd yn feirniadol o strwythur cyffredinol y Mesur arfaethedig. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y ddeddfwriaeth yn fanwl ac yn rhagnodol mewn rhai mannau, ond nad oes hyd yn oed fframwaith mewn mannau eraill.[105]

94. Roedd tystion eraill yn feirniadol wrth gyfeirio at gymhlethdod cyffredinol y Mesur arfaethedig. Yn benodol, cafwyd llawer o sylwadau anffafriol ynghylch cymhlethdod ymddangosiadol y dull o bennu safonau.

95. Meddai Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru:

---

[101] Cofnod y Trafodion, paragraff [126], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[102] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 48
[103] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 50
[104] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 52
[105] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 10

> "Both the proposed Measure and the explanatory notes are lengthy, complicated and, in important places, very scant on detail. Clarification is needed in a number of areas."[106]

96. Cyfeiriodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd at yr anawsterau a achoswyd gan gymhlethdod y Mesur arfaethedig:

> "Mae'r mesur yn anodd iawn ei ddeall a'i ddehongli, ac mae hefyd yn hir iawn. Nid oedd y nodiadau esboniadol o gymorth, ac er ein bod yn croesawu'r ffaith bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn barod i gyfarfod â ni i'n helpu i weithio drwy'r goblygiadau i'n sefydliad ac i'r sector, mae'r diffyg gwybodaeth glir a chryno yn rhwystr i fudiadau llai ac ystod ehangach ohonynt rhag gallu ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth a bod yn gysylltiedig â'r agenda hon na wyddys a fydd yn effeithio arnynt ai peidio."[107]

97. Tynnodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg sylw at ddiffyg eglurder y system safonau newydd:

> "Er mwyn cael trafodaeth ystyrlon yng nghyd-destun safonau, byddai'n fuddiol cael enghreifftiau o wahanol safonau inni allu deall yn well pa ffurf y rhagwelir ar eu cyfer. Yn ogystal â hyn, da fyddai cael eglurhad syml o holl gamau'r broses newydd - o osod safon i ddarparu gwasanaeth.
>
> Wedyn, mae'n rhaid dangos sut y byddai'r drefn newydd, o ran ymarferwyr sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith ar hyn o bryd, yn symlach ac yn haws i'w gweithredu."[108]

98. Gwnaeth Emyr Lewis sylwadau tebyg:

> "Byddai'n help mawr pe bai'r Llywodraeth yn rhannu ei gweledigaeth o safonau iaith, gan roi ambell safon iaith i ni, a phe bai hefyd yn rhannu ei gweledigaeth o'r hysbysiadau cydymffurfio i ddangos sut ydynt yn wahanol i gynlluniau iaith. Swydd y comisiynydd yw creu'r rhain gyda'r Llywodraeth, ond teimlaf y byddai cael rhyw sampl o fwriad y Llywodraeth yn rhoi llawer mwy o hyder inni allu deall sut y bydd pethau'n well. Byddai cael esiamplau eglur o fewn y Mesur arfaethedig yn well byth, ond os na allwn gael hynny, hoffwn gael dealltwriaeth o'r

[106] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 38
[107] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 265
[108] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 14

hyn sy'n digwydd. Fel y dywedais, byddai'n well gennyf weld datganiadau eglur yn y Mesur arfaethedig."[109]

99. Galwodd nifer o'r bobl eraill a ymatebodd i'r ymgynghoriad am enghreifftiau o safonau ymarferol.[110]

100. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad nad oeddent wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru cyn iddi gyflwyno'r Mesur arfaethedig, er i rai o'r tystion gydnabod bod trafodaethau wedi cael eu cynnal yn y cyfamser.

**Tystiolaeth y Gweinidog**

101. Cyfeiriodd y Gweinidog at amcanion y Mesur arfaethedig fel a ganlyn:

> "Bwriad rhaglen 'Cymru'n Un' y Llywodraeth yw cadarnhau statws y Gymraeg a'r Saesneg, i roi hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd y comisiynydd iaith. Nod y ddeddfwriaeth yw diweddaru Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. I enwi ychydig, amcanion y Mesur arfaethedig yw darparu mwy o eglurder a chysondeb ar gyfer siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gellir eu disgwyl, datblygu trefn fwy effeithiol o ran gorfodi, a darparu llais cryfach ac annibynnol i'r Gymraeg wrth sefydlu swydd y comisiynydd."[111]

102. Yn ddiweddarach, dywedodd wrthym:

> "Credaf y bydd y Mesur, ar ôl cael ei wneud, yn cael effaith sylweddol. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer sefydlu hyrwyddwr amlwg ar gyfer y Gymraeg a fydd yn gallu ymchwilio i achosion o ymyrraeth â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg, gyda phwerau llawer cryfach i sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a fydd yn cael eu gosod arnynt. Bydd pobl yn magu hyder yn y ffaith bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destunau hyn, gan fod yn dawel eu meddwl y gallant fynd i'r afael â'r mater ymhellach gyda'r comisiynydd os nad ydynt yn derbyn eu hawliau neu os ymyrrir ar eu rhyddid."[112]

---

[109] Cofnod y Trafodion, paragraff [92], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[110] Er enghraifft, Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 34, MI 52 ac MI 53
[111] Cofnod y Trafodion, paragraff [9], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[112] Cofnod y Trafodion, paragraff [65], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

103. Ychwanegodd ei fod yn teimlo bod y Mesur arfaethedig yn bellgyrhaeddol ac yn gam o bwys ymlaen er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.[113]

104. Rhoddodd hefyd yr eglurhad a ganlyn ynghylch pam fod angen moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol sy'n rheoleiddio'r iaith:

> "Mae'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wedi newid mewn sawl maes ers 1993. Nid yw'r fframwaith a osodwyd gan Ddeddf 1993 yn galluogi'r newidiadau hyn, megis newidiadau i strwythur rhai gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn arbennig, i gael eu hystyried yn gyson. Mae'r ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau yn golygu bod wyneb cyhoeddus rhai sectorau allweddol y tu hwnt i faes Deddf 1993, sydd yn creu'r potensial am faes lle nad yw'r amodau yr un fath i bawb o fewn y sectorau hyn, ac ansicrwydd ynglŷn â'r gwasanaethau y gall cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith eu disgwyl. Mae profiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers 1993 o ran datblygu, trafod a chytuno cynlluniau wedi dangos bod y broses yn un dwys o ran adnoddau."[114]

105. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu y byddai'r safonau'n sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau.[115] Meddai:

> "Mae'r Mesur arfaethedig yn nodi fframwaith clir ar gyfer gosod dyletswyddau, a wnaed gan y Gweinidogion drwy is-ddeddfwriaeth, a byddant yn amodol ar asesiadau o effaith pellach, manylach."[116]

106. Wrth sôn am eglurder a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau a thrafod a fyddai'r cynigion newydd yn arwain at system weinyddol symlach, gwnaeth y Gweinidog sylwadau manylach am y system safonau. Mae Pennod 7, sy'n ymdrin â'r safonau, yn trafod tystiolaeth y Gweinidog ar y materion hyn.

---

[113] Cofnod y Trafodion, paragraff [75], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[114] Cofnod y Trafodion, paragraff [13], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[115] Cofnod y Trafodion, paragraff [151], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[116] ibid

107. Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar gyngor Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5[117] i ymgynghori ar y Mesur arfaethedig cyn iddo gael ei gyflwyno, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Nid oedd yn briodol i ymgynghori nes bod cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Chwefror. Yr oeddem am gyflwyno'r Mesur arfaethedig cyn gynted â phosib, gan ei fod yn Fesur pwysig a fydd yn cyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' ar yr iaith Gymraeg. Cynhaliwyd ymarfer dros gyfnod o dri mis yn galw am dystiolaeth ar strategaeth yr iaith Gymraeg yn ehangach a'r cyfeiriad o ran polisi rhwng mis Hydref a Ionawr, a bûm yn rhan o sawl cyfarfod cyhoeddus. Felly, yr wyf wedi bod yn siarad â rhanddeiliaid yn gyson. Wrth gwrs, mae'r pwyllgor wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth, sydd yn rhoi cyfle pellach i bobl roi tystiolaeth."[118]

108. Pan ofynnwyd iddo am natur y wybodaeth a geir yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Caf ar ddeall bod y memorandwm yn dilyn y gofyniad a nodir yn Rheol Sefydlog Rhif 23.18 a'i fod wedi'i ystyried yn dderbyniol gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad. Serch hynny, os ceisiwch eglurder pellach, ceisiaf ei roi ichi."[119]

109. Wrth ymateb i'n ceisiadau am ragor o wybodaeth, cafwyd pedwar llythyr gan y Gweinidog ynghylch gwahanol agweddau ar ein gwaith craffu, gan gynnwys gwybodaeth am statws swyddogol y Gymraeg, gwybodaeth am annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg, manylion am y system safonau ac, wrth i ni ddirwyn ein gwaith craffu i ben, enghreifftiau o sut y gallai'r safonau weithio'n ymarferol.[120]

110. O ran cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, dywedodd y Gweinidog nad bwriad y Mesur arfaethedig oedd rhoi ar waith y strategaeth ddiweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg, a

---

[117] Cofnod y Trafodion, paragraff [102], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[118] Cofnod y Trafodion, paragraff [15], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[119] Cofnod y Trafodion, paragraff [27], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[120] Mae'r holl ohebiaeth a anfonwyd gan y Gweinidog ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-wl/business-legislation-measures-wl-reldocs.htm

luniwyd law yn llaw â'r Mesur arfaethedig.[121] Dywedodd hefyd y byddai gan y Comisiynydd yr hawl i roi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg o dan adran 3 o'r Mesur arfaethedig, ac y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r cyngor hwnnw.[122]

**Ein barn ni**

111. **Rydym yn cytuno bod angen deddfwriaeth i ddiweddaru a moderneiddio fframwaith presennol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg**. Yn hyn o beth, rydym wedi nodi'r gefnogaeth dros wneud hynny ymhlith y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, er ein bod yn cydnabod bod llawer ohonynt o'r farn bod angen gwella neu newid agweddau ar y ddeddfwriaeth.

112. Rydym wedi ystyried nodau ac amcanion y Mesur arfaethedig yn ofalus, fel y ceir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys datganiad clir o egwyddor. Credwn fod angen cynnwys datganiad cyffredinol yn y Mesur arfaethedig yn nodi'n glir mai diben y ddeddfwriaeth yw hybu a datblygu'r Gymraeg, gan gadw cefnogaeth ac ewyllys da'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg. Byddai datganiad o'r fath yn feincnod y gellid ei ddefnyddio i farnu llwyddiant nodau ac amcanion ehangach y Mesur arfaethedig (fel y ceir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol). Gan hynny, **rydym yn argymell y dylid diwygio teitl hir y Mesur arfaethedig er mwyn cynnwys datganiad clir o egwyddor y gellid ei ddefnyddio i fesur llwyddiant y Mesur arfaethedig yn y dyfodol**. At hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog dros Dreftadaeth yn ystyried gwneud datganiad sy'n egluro diben cyffredinol y Mesur arfaethedig a sut y mae hwnnw'n cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion ehangach. Dylid gwneud datganiad o'r fath tra bo'r Mesur arfaethedig ar ei daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol.**

113. Nodwn na fu dim gwrthwynebiad i gynnwys darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â statws swyddogol y Gymraeg, er ein bod yn rhoi sylwadau manwl ar natur y darpariaethau hynny ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn. Hefyd, fel y mwyafrif o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, rydym o blaid creu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae gennym sylwadau manwl am swyddogaethau'r

---

[121] Cofnod y Trafodion, paragraffau [269 - 270], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[122] Cofnod y Trafodion, paragraff [271], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Comisiynydd ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn, a thrafodir pwysigrwydd y trefniadau pontio o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Comisiynydd ym Mhennod 11.

114. Yn ein barn ni, a chan adlewyrchu llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law, mae'n rhy gynnar i ddatgan a fydd symud o'r cynlluniau iaith i safonau yn creu fframwaith hwylusach a symlach yn weinyddol, a fframwaith mwy effeithiol yn sgil hynny, ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg. Credwn nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol yn ddigonol i'n cynorthwyo i ddeall sut y bydd y system newydd yn gweithio'n ymarferol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai nod y safonau yw creu system sy'n fwy hwylus i'r dinesydd na'r cynlluniau iaith presennol. Croesawn y bwriad hwn a'n dymuniad yw sicrhau bod hynny'n digwydd. Am y rheswm hwn, ac er gwaethaf y pryderon a nodir ar ddechrau'r paragraff, **rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y gall y system safonau newydd fod yn welliant ar y fframwaith deddfwriaethol presennol ac y gall greu modd o gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.**

115. Credwn fod ehangu rhwymedigaethau iaith statudol er mwyn cynnwys sefydliadau penodol yn y sector preifat, sef y rheini sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gwasanaethau lled-gyhoeddus, yn welliant ar y sefyllfa bresennol. Wrth ddod at y farn honno, rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y cyrff hyn yn sgil eu cynlluniau iaith gwirfoddol. Serch hynny, rydym wedi nodi bod cymhwyso safonau i bersonau penodol, gan gynnwys sefydliadau yn y sector preifat, yn amodol ar brawf o'r hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur, ac mae'n cynnwys hawl i apelio. Ar y sail hon, **rydym yn fodlon, yn gyffredinol, y dylai'r Mesur arfaethedig fod yn gymwys i sefydliadau'r sector preifat sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gwasanaethau lled-gyhoeddus (ac eithrio ein hargymhelliad ym mharagraff 372). Y rheswm dros hyn yw ein bod yn credu y bydd dinasyddion a defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg ar eu hennill o ganlyniad i hyn.**

116. Wrth ddod at y farn hon, nodwn y dystiolaeth a gawsom gan sefydliadau'r sector preifat a awgrymodd fod nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn isel. **Rydym yn argymell bod y Comisiynydd newydd, unwaith y caiff ei benodi, yn defnyddio'i bwerau o dan adran 3 o'r Mesur arfaethedig i ganfod pam bod nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n isel a'r ffordd orau o fynd i'r afael â hynny.**

117. Rydym yn pryderu bod dau o amcanion y Mesur arfaethedig, fel y ceir y rheini ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol, yn groes i'w gilydd. Gan ystyried yr amrywiaeth ieithyddol mewn cymunedau ledled Cymru, ni allwn weld sut y mae'n bosibl rhoi rhagor o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg ar y naill law, a sefydlu system ar y llaw arall a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur ac yn creu amodau cyfartal o fewn sectorau.

118. Yn hyn o beth, nodwn y darpariaethau yn adran 43 o'r Mesur arfaethedig (sy'n darparu y gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol mewn rhai amgylchiadau, ond nid mewn amgylchiadau eraill ac/neu mewn ardal neu rai ardaloedd, ond nid mewn ardaloedd eraill) ac adran 53 (sy'n rhoi hawl i herio a yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â safon mewn ffordd benodol, yn afresymol neu'n anghymesur).

119. Felly, yn sgil ein hargymhelliad ym mharagraff 112**, rydym yn argymell y dylai unrhyw ddatganiad sy'n cael ei baratoi gan y Gweinidog dros Dreftadaeth egluro sut y bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi rhagor o eglurdeb a chysondeb i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg ar y naill law, ac yn parchu egwyddorion rhesymoldeb a chymesuredd ar y llaw arall.**

120. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth sy'n awgrymu y dylai'r Mesur arfaethedig fod wedi cynnwys darpariaethau penodol sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Ni chawsom ein perswadio mai'r ddeddfwriaeth hon yw priod le darpariaethau sy'n ymwneud ag un gwasanaeth penodol, ac rydym yn fodlon â'r Mesur arfaethedig yn hyn o beth. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwn y byddai'r Mesur arfaethedig yn caniatáu rhoi safonau ar gyrff sy'n ymwneud ag addysg, fel awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Byddai hyn yn caniatáu pennu safonau sy'n ymwneud yn benodol ag addysg ac a fyddai'n ddatblygiad ar gynlluniau addysg Gymraeg o dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.*

121. O bwyso a mesur, a thra bo gennym bryderon ynghylch y diffyg eglurder wrth symud o gynlluniau iaith i safonau, **rydym yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig**.

122. Mae gennym sylwadau'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn am natur rhai o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wrth i ni ystyried prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, roedd llawer o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn rhai manwl a thechnegol. Gan ystyried natur gwaith craffu Cyfnod 1, ni fu'n bosibl i ni edrych mewn manylder arnynt. Oherwydd hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r cyflwyniadau y cyfeirir atynt yn Atodiad 2, gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau priodol fel y gwêl yn dda.**

123. Dywedodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad nad oedd neb wedi ymgynghori â hwy cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno. Gan ystyried cymhlethdod y Mesur arfaethedig, y newid sylweddol y mae'n ei gyflwyno i'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, a'i bwysigrwydd o ran dyfodol y Gymraeg, credwn fod hyn yn siomedig. Tra ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i roi'r ddeddfwriaeth bwysig hon ar waith cyn diwedd y Cynulliad presennol yn 2011, **credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyhoeddi Mesur drafft ar gyfer ymgynghori cyn ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.** Credwn y byddai hyn wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd a sefydliadau perthnasol ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn cael ei gynnig. Yn benodol, credwn y byddai gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1 ar oblygiadau symud o gynlluniau iaith i safonau wedi gallu bod yn fwy effeithiol drwy wneud hynny.

124. Hoffem hefyd wneud sylwadau am y Memorandwm Esboniadol. Rydym yn cydnabod ac yn cytuno â barn y Gweinidog bod y Memorandwm Esboniadol yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, gofynion gweithdrefnol yw'r rhain ac nid ydynt yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y wybodaeth a ddarperir. Yn ystod y broses graffu y gwneir hynny. Gan hynny, mae'r gofynion yn y Rheolau Sefydlog yn wahanol i'r angen i egluro'n glir beth yw'r union fwriad yn narpariaethau'r Mesur arfaethedig, y gydberthynas rhyngddynt ac yn sgil hynny eu heffaith ymarferol.

125. Yn ystod y gwaith craffu, roedd angen gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch darpariaethau penodol. Rydym yn cydnabod ein bod wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol. **Ni welwn unrhyw reswm da pam na allai'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ystod ein gwaith craffu fod wedi'i chynnwys o'r**

**dechrau yn y Memorandwm Esboniadol, yn enwedig gan ystyried cymhlethdod y Mesur arfaethedig.**

126. Byddai rhoi gwybodaeth well a mwy cynhwysfawr yn y Memorandwm Esboniadol am y ddeddfwriaeth hon a'i heffaith ymarferol wedi galluogi sefydliadau ledled Cymru i ddeall y Mesur arfaethedig yn well yn ei gyfanrwydd, ac i ddeall yn enwedig sut y bydd y system safonau sy'n cael ei chyflwyno yn y Mesur arfaethedig yn gweithio. O ganlyniad, byddai hynny hefyd wedi arwain at waith craffu mwy effeithiol ac effeithlon ar y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1.

# 4. Rhan 1: Statws Swyddogol y Gymraeg

### Y cefndir

127. Mae adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn "rhestru'r Rhannau hynny o'r Mesur a'r adrannau o ddeddfwriaeth arall sy'n gwneud darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru".[123] Dywed y Memorandwm Esboniadol nad yw'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.[124]

### Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

128. Er mai ychydig o sylwadau penodol, os o gwbl, a gafwyd gan lawer o'r ymatebwyr ynghylch manylion Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig, roedd llawer ohonynt yn cefnogi'r nod o "wneud darpariaeth bellach o ran statws swyddogol y Gymraeg"[125] fel y nodir hynny ym mharagraff 3.10 o'r Memorandwm Esboniadol.

129. Ymhlith y rheini a roddodd sylw i fanylion adran 1, roedd cefnogaeth eang dros gael datganiad clir ynghylch statws y Gymraeg, ynghyd â phryder ynghylch methiant ymddangosiadol y Mesur arfaethedig i wneud hynny.

130. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi cynnwys "datganiad clir yn y Mesur sy'n rhoi statws cydradd a swyddogol i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yng Nghymru".[126]

131. Dywedodd aelod o'r cyhoedd ei bod yn ymddangos bod amharodrwydd i roi statws llawn i'r Gymraeg.[127]

132. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr:

> "Looking at section 1, it does not operate to create official status for Welsh, and it does not deal specifically with English either. So, the objective, taken from 'One Wales', to confirm official status for both Welsh and English is not delivered through section 1."[128]

133. Meddent hefyd:

[123] Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 3: Nodiadau Esboniadol
[124] ibid
[125] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10
[126] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 23
[127] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 18
[128] Cofnod y Trafodion, paragraff [8], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> "Signalling the law is not what we need. We need clear legislation. We need to be clear that problems that can be foreseen are dealt with at the time of law making and that we do not leave any queries and issues as grey areas. So, we would say that the legislation should deal with these topics thoroughly and clearly at this stage."[129]

134. Mynegodd Emyr Lewis yntau bryder am y diffyg eglurder yn adran 1:

> "Nid wyf yn gweld llawer o ddiben i'r adran hon, dim ond rhestru adrannau mewn deddfau eraill y mae. Yn wir, yn nes ymlaen yn y Mesur arfaethedig, mae un o'r rheini'n cael ei dirymu."[130]

135. Awgrymodd adran 1 newydd i'r Mesur arfaethedig, sef:

> "Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru, ac mae eu statws yn gyfartal."[131]

136. Yn ei farn ef, esboniodd, "byddai'n briodol cadarnhau bod unrhyw beth a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn Cymru yr un mor ddilys yn gyfreithiol ag y byddai pe gwnaed hynny yn Saesneg." [132]

137. Esboniodd Emyr Lewis hefyd pam ei bod yn bwysig cyfeirio at y Saesneg:

> "Ni allwn roi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg heb ei roi i'r iaith Saesneg hefyd. Mae'n rhaid inni drin y ddwy iaith yn gyfartal; mae hynny'n hanfod yn y maes arbennig hwn…Os ydych yn derbyn bod angen datganiad bod yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru, mae'n dilyn yn rhesymegol, er mwyn trin y ddau'n gyfartal, bod yn rhaid gwneud yr un peth i'r Saesneg."[133]

138. Nid oedd yn credu y byddai gwneud hyn yn amharu ar statws y Saesneg yng Nghymru o'i gymharu â'i statws yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig:

---

[129] Cofnod y Trafodion, paragraff [12], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[130] Cofnod y Trafodion, paragraff [6], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[131] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9
[132] ibid
[133] Cofnod y Trafodion, paragraff [29], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> "Yr oeddwn wastad wedi meddwl mai un o bwrpasau datganoli oedd sicrhau y gallai pethau weithio'n wahanol yng ngwahanol rannau o'r Deyrnas Gyfunol. Ni welaf ba niwed na difrod i'r setliad datganoli, nac i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Gyfunol, a wna'r ffaith fod y ddeddfwrfa Gymreig yn gwneud datganiad eglur bod yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal."[134]

139. Ar y pwynt penodol hwn, gwnaeth yr Athro Colin Williams sylwadau tebyg:

> "...rhan o lif datganoli rhesymol yw hwn. Gyda holl lif datganoli yn mynd i un cyfeiriad, byddai'n od pe na baem, am ryw reswm, yn cymryd y cam rhesymegol sydd yn deillio o'r ffaith bod gwahaniaethau o fewn y Deyrnas Unedig. Byddai hynny'n afresymol."[135]

140. Wrth gynnig gwelliant i'r Mesur arfaethedig, dywedodd Emyr Lewis hefyd:

> "...i'r rhai sy'n nerfus ynglŷn â'r syniad o ddatgan bod rhywbeth yn swyddogol heb fynd ati i ddiffinio'n fanwl beth yw ystyr 'swyddogol', dywedaf fod cynsail i hynny o fewn deddfwriaeth Prydain ac o fewn deddfwriaeth y Gymanwlad."[136]

141. Cynigiodd sefydliadau eraill a oedd yn anfodlon ag adran 1 o'r Mesur arfaethedig ragor o awgrymiadau ynghylch sut y gellid disgrifio statws y Gymraeg.

142. Teimlai Bwrdd yr Iaith Gymraeg bod "cryn amwysedd ac aneglurder"[137] yn adran 1 o'r Mesur arfaethedig gan ofyn:

> "Beth fyddai o'i le â geiriad megis 'Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru'?"[138]

143. Meddent hefyd:

> ". . . os yw statws y Gymraeg yn cael ei nodi'n barod mewn nifer o ddeddfau, pam na ellir cyhoeddi'i statws yn syml a diamwys yn y ddeddfwriaeth hon?"[139]

---

[134] Cofnod y Trafodion, paragraff [27], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[135] Cofnod y Trafodion, paragraff [146], 22 Ebrill Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[136] Cofnod y Trafodion, paragraff [19], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[137] Cofnod y Trafodion, paragraff [9], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[138] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 14
[139] ibid

144. Pan holwyd hwy ymhellach, meddent:

> "Mae gwerth cyfreithiol i'r datganiad hwnnw am statws. Cewch adeiladu ar hwnnw wedyn yn gyfreithiol. Mae gwerth seicolegol a diwylliannol penodol iawn i'r datganiad hwnnw, hefyd. Mae'n creu hyder ieithyddol. Felly gwelwn ddwy elfen, fel bwrdd."[140]

145. Meddent hefyd:

> "……[rydym] yn gweld o'n holl waith ymchwil mai un o'r ffactorau mwyaf allweddol ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg yw siaradwyr yn teimlo bod gan yr iaith honno statws a hawl."[141]

146. Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd newid geiriad adran 1. Awgrym y Gymdeithas oedd disodli adran 1(1) gyda'r geiriau "Y Gymraeg yw priod iaith Cymru" a disodli adrannau 1(2) a 1(3) gyda'r geiriau "Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru."[142]

147. Wrth egluro'u rhesymeg dros y newidiadau hyn, dywedodd y Gymdeithas:

> "Mae'r egwyddor o wneud y Gymraeg yn briod iaith Cymru yn golygu cydnabod safle arbennig y Gymraeg yn ei pherthynas â phobl Cymru, fel ein hiaith genedlaethol."[143]

148. At hynny, dywedodd y Gymdeithas fod cydnabod bod y Gymraeg yn briod iaith "yn esbonio i bobl Cymru pam fod angen trin yr iaith Gymraeg yn wahanol"[144]. Nodwyd hefyd fod geiriad tebyg yn sail i ddeddfwriaeth ieithyddol yng Ngwlad y Basg ac yng Nghatalonia.[145]

149. O ran y rhesymau dros beidio â chynnwys cyfeiriad at y Saesneg yn adran 1, dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

> "Ein barn fel cymdeithas yw nad oes angen newid statws y Saesneg gan ei bod yn iaith gref fyd-eang, ac unig iaith de facto Cymru ar hyn o bryd. Diben y Mesur arfaethedig yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Nid oes angen unrhyw

---

[140] Cofnod y Trafodion, paragraff [18], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[141] Cofnod y Trafodion, paragraff [121], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[142] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[143] Cofnod y Trafodion, paragraff [25], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[144] Cofnod y Trafodion, paragraff [26], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[145] Cofnod y Trafodion, paragraff [27], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> gymorth deddfwriaethol ar y Saesneg—mae'n ddigon diogel fel iaith yng Nghymru, Prydain ac ar draws y byd."[146]

150. Awgrymodd y Ganolfan Cynllunio Iaith gynnwys cyfeiriad at ddilysrwydd cyfartal y Gymraeg:

> "Yn ogystal â datgan bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru awgrymwn y gellid hefyd ehangu ar y gosodiad a geir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 yng nghyswllt dilysrwydd cyfartal y Gymraeg i ddatgan dilysrwydd cyfreithiol y Gymraeg yng Nghymru."[147]

151. Fel y dywedwyd mewn rhannau cynharach o'r bennod hon, cred nifer o sefydliadau y byddai cynnwys datganiad clir ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yn arwain at ganlyniadau symbolaidd ac ymarferol.

152. Teimlai Comisiynydd Plant Cymru fod perygl o golli cyfle i roi statws swyddogol a statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, gan nad oedd y geiriad presennol yn gwneud hyn.[148] Teimlai hefyd y gallai datganiad o'r fath hyrwyddo'r ymdeimlad o berchnogaeth genedlaethol dros y Gymraeg, a hynny ymhlith siaradwyr yr iaith a phobl ddi-Gymraeg fel ei gilydd.[149]

153. Yn ôl Mentrau Iaith Cymru:

> "[Mae] angen cyhoeddi yn glir yn y Mesur fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru...Bydd rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yn gam allweddol ymlaen. Yn ein barn ni, bydd yn cael effaith positif ar agwedd pobol tuag at y Gymraeg ac yn codi hyder siaradwyr Cymraeg."[150]

154. Dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru ei bod yn bwysig bod y Mesur arfaethedig yn cynnwys datganiad diamwys yn nodi bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, a hynny er mwyn sicrhau bod ei phwysigrwydd yn ein diwylliant, ein hanes a'n bywyd dyddiol yn amlwg.[151]

---

[146] Cofnod y Trafodion, paragraff [18], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[147] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 54
[148] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 266
[149] ibid
[150] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53
[151] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 21

155. Teimlai'r Ganolfan Cynllunio Iaith "fod geiriad cyfredol y Mesur yn colli cyfle", gan ddweud hefyd:

> "Credwn fod angen gosod datganiad clir a diamwys o statws swyddogol y Gymraeg o fewn y Mesur hwn ... Byddai datganiad o'r fath yn gosod neges glir a gaiff effaith gadarnhaol ar ganfyddiad pobl Cymru ac eraill o statws y Gymraeg."[152]

156. Yn ôl Mudiadau Dathlu'r Gymraeg:

> "...[Mae] angen datgan yn gwbl glir a diamwys fod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru…Byddai'n sicrhau newid sylfaenol a fyddai'n golygu nad yw'r Gymraeg yn ymylol neu ar y cyrion. Yr ydym yn pryderu y bydd cyfle yn cael ei golli os na fydd hynny'n digwydd i wrthdroi'r ffordd y mae pobl Cymru yn gweld ac yn ystyried y Gymraeg mewn modd cwbl bellgyrhaeddol. Yn deillio o hynny, byddai ganddynt yr hyder i'w defnyddio yn gwbl ddi-ofn a gofyn am wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae'r gydberthynas honno ac effaith ymarferol hynny yn gwbl allweddol."[153]

157. Wrth bwysleisio'r pwynt hwn, dywedodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg y byddai datganiad o'r fath yn galluogi pobl i ddefnyddio'r iaith "heb deimlo eu bod yn gofyn am rywbeth annheg, eu bod yn niwsans neu fod pobl yn gorfod mynd allan o'u ffordd."[154]

158. Dywedodd UCAC y byddai datgan yn glir bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yn "rhoi sail gadarn ar gyfer holl amcanion eraill y Mesur."[155]

### Tystiolaeth y Gweinidog

159. Wrth gael ei holi am adran 1 o'r Mesur arfaethedig, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Credwn ei fod yn gwneud datganiad clir am statws swyddogol yr iaith ac yn cadarnhau bod statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru, ond bod y Mesur arfaethedig hwn yn

[152] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 54
[153] Cofnod y Trafodion, paragraff [135], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[154] Cofnod y Trafodion, paragraff [139], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[155] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 52

> gwneud darpariaeth bellach ac yn diffinio'r ddarpariaeth bellach honno yn glir o safbwynt statws swyddogol yr iaith."[156]

160. Ychwanegodd:

> "Bydd canlyniadau i hynny. Mae adran 1 hefyd yn rhoi arwydd i unrhyw lys sydd yn ystyried materion sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru."[157]

161. Mewn sesiwn dystiolaeth ddiweddarach, ailadroddodd y Gweinidog ei safbwynt:

> "Nid wyf yn cytuno bod y Mesur arfaethedig yn aneglur. Pwysleisiaf eto fod adran 1 yn gwneud darpariaeth glir ac eglur mewn perthynas â statws swyddogol y Gymraeg."[158]

162. Er hynny, roedd yn cydnabod mai "dyma'r tro cyntaf i'r term 'statws swyddogol' ymddangos mewn deddfwriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg."[159]

163. Pan ofynnwyd iddo a oedd o blaid awgrym Emyr Lewis o ran diwygio adran 1 (gweler paragraff 135 uchod), dywedodd y Gweinidog:

> "Mae gwaith y pwyllgor hwn wedi ennyn diddordeb sylweddol sydd i'w groesawu. Yr wyf wedi gwrando'n ofalus ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i chi, ac edrychaf ymlaen at ddarllen eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau. Ni chredaf y gallaf ymhelaethu ar hynny."[160]

164. Ar ôl sesiwn dystiolaeth olaf y Gweinidog, ysgrifennwyd ato yn gofyn a allai esbonio unrhyw resymau cyfreithiol a oedd yn bodoli, os o gwbl, a olygai na ellid cynnwys datganiad clir a chryno yn nodi bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws swyddogol yng Nghymru.[161] Ymatebodd y Gweinidog:

> "…rydym yn gwbl eglur ynglŷn â buddion posibl datganiad i gadarnhau statws swyddogol yr iaith …

---

[156] Cofnod y Trafodion, paragraff [30], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[157] Cofnod y Trafodion, paragraff [32], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[158] Cofnod y Trafodion, paragraff [73], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[159] Cofnod y Trafodion, paragraff [85], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[160] Cofnod y Trafodion, paragraff [63], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[161] Llythyr gan Val Lloyd AC at Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 25 Mehefin 2010

> …rwyf hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r angen i wireddu'r ymrwymiad hwn mewn ffordd sy'n osgoi ansicrwydd cyfreithiol. Mae Mesur y Gymraeg yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi'r hyn a olygir gan statws swyddogol, ac yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'i statws swyddogol. Mae hyn yn cyferbynnu â rhai o'r cynigion mwy datganiadol sydd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor. Yn absenoldeb y math o fanylder a gynhwysir yn y Mesur, mater i'r llysoedd yn y pen draw fyddai penderfynu ar ddatganiadau penagored.
>
> Rwyf wedi egluro fy mod yn barod i ystyried cynigion sydd â'r nod o wella'r darpariaethau a gynhwysir yn y Mesur. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i osgoi unrhyw gynigion a fydd yn arwain at ansicrwydd cyfreithiol neu o ran polisïau. Nod sylfaenol y Mesur yw cryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Nid wyf o'r farn y byddai creu ansicrwydd cyfreithiol yn cyfrannu at y nod hwnnw. Bydd datblygu safonau ar gyfer y Gymraeg yn ei gwneud yn eglur i siaradwyr Cymraeg natur y gwasanaethau y gallant ei ddisgwyl yn yr iaith. Nid yw'n eglur imi beth fyddai'r buddion ymarferol ar gyfer siaradwyr Cymraeg o gael darpariaethau deddfwriaethol a chanddynt effeithiau ansicr, am mai ond arwain at ansicrwydd pellach y byddai'n rhaid ei ddatrys yn y llysoedd fyddai hyn. Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i siaradwyr Cymraeg orfod troi at y llysoedd er mewn derbyn gwasanaethau yn yr iaith a ddewisir ganddynt."[162]

**Ein barn ni**

165. Rydym wedi ystyried yn ofalus farn y Gweinidog am adran 1 o'r Mesur arfaethedig.

166. Rydym hefyd wedi ystyried a chydnabod bod cryn dipyn o dystiolaeth o blaid cael datganiad clir a diamwys ynghylch rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Cytunwn â'r farn hon.

167. Fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, credwn nad yw adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn newid statws yr iaith mewn unrhyw ffordd. Yn hytrach, nid yw'n fwy na mynegbost at ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth hon a darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r

---

[162] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 1 Gorffennaf 2010

Gymraeg. Nid yw'n cynnwys datganiad ynghylch statws y Gymraeg. Yn ein barn ni, mae angen datganiad o'r fath. Byddai'n cryfhau sefyllfa'r Gymraeg, yn annog ei defnydd mewn sefyllfaoedd swyddogol a chyhoeddus, ac fel rhan o hynny, yn chwalu'r farn ymhlith llawer o bobl yng Nghymru fod gan y Gymraeg statws sy'n is na'r Saesneg.

168. Mewn gwlad lle siaredir dwy iaith yn eang, credwn yn gryf y dylid trin y ddwy iaith honno'n gyfartal.

169. Gan hynny, **rydym yn argymell bod adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn cael ei disodli gyda datganiad clir ynghylch statws swyddogol ein hieithoedd, a allai ddarllen fel hyn:**

> **Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru, ac mae eu dilysrwydd a'u statws yn gyfartal.**

170. Cafodd ein barn ei dylanwadu gan ddiffyg unrhyw dystiolaeth glir ynghylch pam y bu'n rhaid drafftio adran 1 o'r Mesur arfaethedig ar ffurf rhestr o ddarpariaethau. Oherwydd hynny, ni allwn weld unrhyw reswm pam na all y Mesur arfaethedig gynnwys datganiad uniongyrchol ynghylch statws swyddogol y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru.

171. Credwn fod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd i ganiatáu gwelliant fel yr un rydym wedi'i gynnig. Credwn hefyd fod y datganiad hwn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch statws y Gymraeg na'r hyn a geir yng ngeiriad adran 1 ar hyn o bryd, a bydd yn gymorth i roi sylfaen gadarn i'r darpariaethau eraill yn y Mesur arfaethedig.

172. Credwn yn ogystal y bydd cynnwys datganiad o'r fath yn cyfrannu'n helaeth at hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ac at ba mor rheolaidd y gwnânt hynny, sef rhan bwysig o'r egwyddor rychwantol y cyfeiriwn ati yn ein casgliadau ar yr egwyddorion cyffredinol.

# 5. Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg

### Y cefndir

173. Mae adrannau 2 - 21 o Ran 2 o'r Mesur arfaethedig, ynghyd ag Atodlenni 1 - 3, yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ac yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau cyffredinol y Comisiynydd. Yn benodol, mae adran 2 yn darparu mai'r Prif Weinidog sydd i benodi'r Comisiynydd.

174. Daw sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg law yn llaw â diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 134 yn Rhan 9 o'r Mesur arfaethedig.

175. Roedd adran 3(1) o *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993* yn rhoi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg swyddogaeth hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Rhoddir swyddogaeth hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg i'r Comisiynydd yn adran 3(1) o'r Mesur arfaethedig, ynghyd â swyddogaeth ychwanegol hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

176. Mae adran 3(2) o'r Mesur arfaethedig yn rhoi enghreifftiau o sut y gall y Comisiynydd gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae'r pwerau cyffredinol sydd gan y Comisiynydd wedi'u pennu yn adran 10 o'r Mesur arfaethedig, ac yn cyfateb yn fras i bwerau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adrannau 3(3) a 3(4) o Ddeddf 1993.

177. Felly, mae hyn yn gyson ag adran 134(2) o'r Mesur arfaethedig sy'n trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i'r Comisiynydd. Fodd bynnag, mae adran 134(3) yn darparu bod hynny'n ddarostyngedig i bŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan adran 143 o'r Mesur arfaethedig er mwyn i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn ogystal â'r Comisiynydd, neu i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r Comisiynydd.

### Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

*Yr angen am Gomisiynydd y Gymraeg*

178. Roedd nifer o'r ymatebwyr mewn egwyddor yn cefnogi creu swydd Comisiynydd y Gymraeg.

179. Croesawodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y bwriad i "sefydlu Comisiynydd sy'n eiriol dros siaradwyr Cymraeg".[163]

180. Croesawodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru hefyd sefydlu swydd y Comisiynydd i hyrwyddo materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.[164]

181. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "Mae WLGA yn croesawu sefydlu swyddfa a swydd Comisiynydd ar gyfer y Gymraeg. Mae'n bwysig sefydlu llais statudol, sydd ar wahân i lywodraeth, ac sy'n eiriolwr dros yr iaith Gymraeg, gydag ystod eang o bwerau archwilio a rheoleiddio.[165]

182. Dywedodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ynghylch sefydlu Comisiynydd:

> "We believe this is a model that already works well in Wales in relation to Older People and Children and would support this model in relation to the Welsh language."[166]

*Annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a'r broses benodi*

183. Mynegodd nifer sylweddol o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y farn bod sicrhau annibyniaeth y Comisiynydd yn ystyriaeth hanfodol. Yn achos llawer o'r ymatebwyr, golygai hyn y dylai'r Comisiynydd fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach nag i Weinidogion Cymru, a'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na'r Prif Weinidog ddylai benodi'r Comisiynydd.[167]

184. Esboniodd Mentrau Iaith Cymru y rhesymeg dros ddadlau hyn:

> "Yn gyffredinol, hoffwn weld y Comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad yn hytrach nag i weinidogion y Llywodraeth neu'r Prif Weinidog. Mae hyn yn fwy agored a thryloyw. Byddai hyn yn cryfhau statws annibynnol y Comisiynydd, yn ei bellhau o ddylanwad y Llywodraeth a'r gweinidogion...Dylai'r Cynulliad benodi'r Comisiynydd..."[168]

185. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

---

[163] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 14
[164] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 21
[165] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 23
[166] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 45
[167] Er enghraifft, Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 50
[168] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53

> "I would suggest that the Welsh Language Commissioner would be better served to be appointed under the same procedures as the Public Services Ombudsman and appointed by the National Assembly for Wales, rather than by the First Minister. This would seem more appropriate, especially given the powers of the Commissioner to impose sanctions on and bring proceedings against Welsh Ministers. The influence of Welsh Ministers in their ability to instruct the Commissioner as well as the role of Welsh Ministers in specifying standards under section 25 also merits further consideration."[169]

186. Cyfeiriodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad at allu'r Comisiynydd i osod sancsiynau ar Weinidogion Cymru, a bod hynny'n rheswm dros sicrhau mai'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n penodi'r Comisiynydd. Dywedodd Emyr Lewis:

> "Prif Weinidog Cymru sy'n gyfrifol am benodi a diswyddo'r Comisiynydd ... Mae hynny'n gydnaws â sefyllfaoedd Comisiynydd Plant a Phobol Ifanc Cymru, a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ond mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng y Comisiynydd Iaith arfaethedig a'r Comisiynyddion eraill hyn, sef y bydd y Comisiynydd iaith yn gallu gosod sancsiynau ar Weinidogion Cymru...neu ddwyn achos yn erbyn Gweinidogion Cymru fel rhan o'i swyddogaethau rheoleiddio. Nid oes pwerau cyffelyb gan y Comisiynyddion eraill. Mae'n deg gofyn felly oni ddylid darparu mai penodiad y Cynulliad Cenedlaethol ei hun ddylai hwn fod."[170]

187. Pan holwyd ef ymhellach, dywedodd Emyr Lewis y byddai'n well ganddo "pe na bai'r comisiynydd yn cael ei benodi gan y Prif Weinidog", gan ychwanegu:

> "…Mae'n beth od bod y Weithrediaeth yn penodi rhywun fyddai'n gallu rheoleiddio'r Weithrediaeth a'i chosbi. Byddwn yn teimlo'n fwy cysurus pe bai'r comisiynydd yn cael ei benodi mewn modd tebyg i'r ombwdsmon neu'r archwilydd cyffredinol. Hynny yw, gan y Cynulliad Cenedlaethol."[171]

188. Aeth yn ei flaen i ddweud: "mae'n ymddangos yn fater o egwyddor gyfansoddiadol ac y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'r

---

[169] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 266
[170] Tystiolaeth Ysgrifenedig MI 9
[171] Cofnod y Trafodion, paragraff [55], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

elfen ddemocrataidd yn hytrach na'r elfen weithredol i benodi'r swyddog hwn."[172]

189. Awgrymodd yr Athro Colin Williams hefyd y dylai'r Comisiynydd fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol "a hynny oherwydd profiadau gwledydd eraill, ac nid am fy mod yn ddrwgdybus o Weinidogion Cymru, pwy bynnag y bônt."[173] Cytunai hefyd â barn Emyr Lewis bod swydd y Comisiynydd yn debycach i swydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, yn hytrach na swydd Comisiynydd Plant Cymru neu Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru[174]. Roedd UCAC hefyd o'r un farn.[175]

190. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "Un peth a welsom yn ein gwaith rheoleiddio a monitro fel bwrdd yw bod darn mawr o waith rheoleiddio yn ymwneud â'r Llywodraeth. Dyna un o brif feysydd monitro a rheoleiddio. Os yw'r comisiynydd yn cael ei benodi gan y Prif Weinidog, mae cwestiwn yn codi o ran yr elfen wleidyddol sy'n dod i mewn i'r penodiad hwnnw ac a fydd pwysau gwleidyddol yn cael ei ddwyn. Byddai'n anodd iawn i'r comisiynydd rheoleiddio gwaith y Llywodraeth yn annibynnol."[176]

191. Roedd y Bwrdd yn tybio "y byddai, yn sicr, hanner gwaith y comisiynydd yn ymwneud â'r Llywodraeth a llywodraeth leol".[177] Yn ôl yr Athro Colin Williams, yng Nghanada, mae tua 90 y cant o'r cwynion am fethu cydymffurfio â'r Ddeddf yn ymwneud â gweision sifil.[178]

192. Wrth roi tystiolaeth atodol, dywedodd Un Llais Cymru am ei weithgor polisi cenedlaethol:

> "… [it] was of the view that, in the interests of political neutrality, it was preferable for the appointment to be made by the National Assembly for Wales. Furthermore, the Committee was in agreement with the point I made in the evidence session regarding consistency of titles regarding Commissioners being

[172] Cofnod y Trafodion, paragraff [57], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[173] Cofnod y Trafodion, paragraff [149], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[174] Cofnod y Trafodion, paragraffau [151-2], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[175] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 52
[176] Cofnod y Trafodion, paragraff [45], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[177] Cofnod y Trafodion, paragraff [48], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[178] Cofnod y Trafodion, paragraff [159], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> appointed by WAG and roles appointed by the Assembly being given some other title."[179]

193. Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd y byddai cael ffynhonnell arian nad yw'n dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn gymorth i sicrhau annibyniaeth swyddfa'r Comisiynydd. At hynny, awgrymodd Cymdeithas yr Iaith y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio system benodi wahanol ar gyfer y Comisiynydd, gan gynnwys gwrandawiadau cyhoeddus cyn gwneud y penodiad.[180] Ymhelaethodd y tystion pan holwyd hwy am hyn:

> "Rhan bwysig o rôl y comisiynydd fydd rheoleiddio Llywodraeth y dydd. Ein hawgrym yw mai'r modd gorau o benodi fyddai i Weinidogion Cymru enwebu rhywun a chael cytundeb gan gorff y Cynulliad am y penodiad hwnnw.
>
> Mae'n deg dweud nad oes un model a fydd yn sicrhau y bydd y comisiynydd yn gwbl annibynnol, ond os mai'r Prif Weinidog yn unig a fydd yn gyfrifol am benodi'r comisiynydd, gellid gofyn i ba raddau y byddai comisiynydd yn teimlo'n rhydd i feirniadu gwaith y Llywodraeth.
>
> Un fantais bosibl arall o gael y Cynulliad i wneud y penderfyniad yw y gallai cyfranddeiliaid yn y sector gymryd rhan yn y broses o benodi'r comisiynydd. Hefyd, byddai'n cynyddu atebolrwydd y comisiynydd i bobl Cymru."[181]

194. Awgrymodd Canolfan Llywodraethiant Cymru ddull go debyg lle byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhan o'r broses. Meddent:

> "Given the unique nature of the post and its effects on the future of the Welsh language should there at least be a statutory requirement that the person whom WAG wishes to appoint as Commissioner has to appear before a relevant Assembly Committee to enable the Assembly [t]o decide on the Committee's recommendation whether or not the appointment should be endorsed?"[182]

195. Cynigiodd Rhieni dros Addysg Gymraeg ddull gwahanol hefyd, gan awgrymu y "dylai'r penodiad gael ei wneud gan bwyllgor o

---

[179] Tystiolaeth Ysgrifenedig Atodol, MI 245; gweler hefyd Gofnod y Trafodion, paragraff [32], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[180] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[181] Cofnod y Trafodion, paragraffau [46 – 48], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[182] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27

Gynulliad Cenedlaethol Cymru, nad yw'n cynnwys mwyafrif o unrhyw un blaid."[183]

196. Holodd rhai sefydliadau a oedd rhai o adrannau'r Mesur arfaethedig yn cyfyngu ar annibyniaeth y Comisiynydd. Er enghraifft, dywedodd Mentrau Iaith Cymru fod adrannau 10, 11, 15, 63, 66 a 97 yn cyfeirio at bwerau sydd gan Weinidogion Cymru dros y Comisiynydd, cyn gofyn "sut mae'r Comisiynydd yn annibynnol gyda'r cymalau yma yn y Mesur?"[184]

197. Dywedodd BT Cymru nad oedd ganddynt farn benodol am y broses benodi. Tra byddai proses benodi fwy cynhwysfawr yn rhoi'r argraff bod y Comisiynydd yn fwy annibynnol ar y Llywodraeth, teimlent fod dull y Comisiynydd o weithredu ar ôl cael ei benodi'n bwysicach yn y pen draw.[185] Meddent hefyd:

> "Mae'n bwysig bod y broses yn dryloyw ac yn dilyn argymhellion Nolan, fel y gall pawb fod yn hollol hyderus bod popeth wedi cael ei wneud mewn dull priodol."[186]

*Trosglwyddo swyddogaethau hybu a rheoleiddio i Gomisiynydd y Gymraeg*

198. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi rhoi pwerau rheoleiddio i'r Comisiynydd. Dywedodd Dŵr Cymru:

> "Establishing a system to monitor duties imposed on organisations would seem a fair and reasonable way of ensuring that organisations are providing a service through the medium of Welsh."[187]

199. Argymhellodd nifer o'r ymatebwyr y byddai'n amhriodol rhoi'r cyfrifoldeb dros hybu'r iaith ynghyd â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio a gorfodi yn nwylo'r Comisiynydd. Yn ôl Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

> "Un o brif wendidau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd yw bod disgwyl iddo fod yn gyfrifol am gynlluniau iaith ac ymchwilio i gwynion, ynghyd â cheisio hyrwyddo'r iaith

[183] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 50
[184] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53
[185] Cofnod y Trafodion, paragraff [160], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[186] Cofnod y Trafodion, paragraff [162], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[187] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 11

> Gymraeg a hybu defnydd cyrff a chwmnïau ohoni. Mae'n amhosibl ceisio rheoleiddio a hyrwyddo ar yr un pryd."[188]

200. Felly, argymhellodd nifer o sefydliadau bod angen gwahanu'r swyddogaethau hybu a rheoleiddio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn o blaid rhoi'r swyddogaeth reoleiddio i'r Comisiynydd. Dywedodd y Ganolfan Cynllunio Iaith:

> "Rydym yn croesawu sefydlu Comisiynydd y Gymraeg. Mae IAITH wedi galw am ddatblygiad o'r fath ers Awst 2004. Fodd bynnag, credwn yn gryf y dylai swyddogaethau blaenaf Comisiynydd o'r fath fod yn gyfyngedig i'r maes rheoleiddio gwasanaethau Cymraeg ... [Credwn] ei bod hi'n bwysig gwahanu gweithgareddau rheoleiddio – a all olygu elfennau o gosbi a gorfodi – oddi wrth weithgareddau mwy 'meddal' sy'n dibynnu ar werthoedd ar ennyn ewyllys da, dylanwadu ar werthoedd a newid arferion y boblogaeth yn wirfoddol".[189]

201. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol, dywedodd Emyr Lewis:

> "…rwy nawr yn tueddu i gytuno na ddylai'r Comisiynydd fod â swyddogaethau hyrwyddo, ac eithrio i'r graddau ei fod yn hyrwyddo arfer da o ran darparu gwasanaethau drwy godau ymarfer ac ati. O ran hyrwyddo'r iaith ei hun, nid swyddogaeth y Comisiynydd ddylai hynny fod."[190]

202. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "...[nid] yw hwn yn fodel Comisiynydd Iaith sy'n cael ei efelychu mewn gwledydd eraill... A ddylid, felly, ystyried model ar gyfer Cymru sy'n gwahanu'r swyddogaethau o reoleiddio a hyrwyddo? Oni fyddai'n well ystyried model lle mae'r Comisiynydd yn eiriol dros siaradwyr y Gymraeg, ac yn rheoleiddio pan fo diffyg cydweithrediad yn digwydd yng nghyd-destun Cynlluniau Iaith? Ceir enghraifft dda o hyn yng nghylch gwaith Comisiynydd Ieithoedd Gweriniaeth Iwerddon."[191]

203. Pan holwyd y tystion ymhellach, esboniodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod rhesymau ymarferol dros gadw'r swyddogaethau hyrwyddo a rheoleiddio ar wahân:

---

[188] Cofnod y Trafodion, paragraff [41], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[189] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 54
[190] Tystiolaeth Ysgrifenedig Atodol, MI 9
[191] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 14

> "Mae tensiwn pan fydd gan rywun grymoedd rheoleiddio caled a grymoedd hybu. Ar hyn o bryd, o safbwynt y bwrdd, credaf y gallant orwedd yn lled gyfforddus gyda'i gilydd, ond nid oes gan y bwrdd y grymoedd caled hynny. Pan fydd grymoedd caled, a rhaid dweud wrth rywun eich bod yn mynd drwy'r broses gyfreithiol, mae'n anodd mynd yn ôl y diwrnod wedyn a gofyn, er enghraifft, 'A hoffech chi weithio gyda ni, gan rannu rhywfaint o arian i ddatblygu prosiect i hyrwyddo'r Gymraeg yn nyffryn Aman?' Mae tensiynau; nid oes amheuaeth am hynny, ac yr ydym wedi cael rhywfaint o flas ar hynny ar hyd y blynyddoedd."[192]

204. Gwnaeth sefydliadau eraill bwyntiau tebyg ynghylch yr anawsterau posibl y gallai'r Comisiynydd eu hwynebu yn sgil y swyddogaeth ddeuol hon. Yn ôl BT Cymru:

> "Mae gan BT yng Nghymru rai pryderon am y Comisiynydd yn gweithredu fel rheoleiddiwr ac adfocad yr iaith Gymraeg. Mae BT yn cydnabod a chefnogi'r angen am gefnogwr annibynnol o'r Gymraeg...ond sut fydd yr unigolyn a benodir yn cydbwyso rôl gefnogol (gan adeiladu partneriaethau gyda chyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol) â'r swyddogaeth o weithredu rheoliadau caeth a gwerthuso'u heffaith ar weithgareddau'r partneriaid hynny."[193]

205. Meddent hefyd:

> "Mae'n rhaid cofio ei bod yn haws ennyn ffydd a chydweithrediad cyrff preifat wrth iddynt ddelio â chorff hyrwyddo'n unig yn hytrach na chorff sydd yn hyrwyddo ar un lefel a phlismona ar lefel arall."[194]

206. Ym marn Mudiadau Dathlu'r Gymraeg:

> "…[mae] cael corff i hyrwyddo'r Gymraeg sydd ar wahân i swyddfa'r comisiynydd yn gwneud synnwyr. Er enghraifft, pe bai'r comisiynydd yn bygwth erlyn neu enwi rhyw gorff am beidio â chynnig gwasanaethau digon da yn y Gymraeg, nid y comisiynydd fyddai'r person gorau i fynd at yr un cwmni yr

---

[192] Cofnod y Trafodion, paragraff [54], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[193] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 30
[194] Cofnod y Trafodion, paragraff [152], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

wythnos wedyn i geisio'i annog i wella ei gynllun iaith ac i gynnig gwasanaeth gwell mewn awyrgylch bositif." [195]

207. Gan fynegi barn bersonol, dywedodd cynrychiolydd ar ran Grŵp y Post Brenhinol:

> "A frequent error in the public sector is to fail to appreciate the cost of promotion. So, you may find that a group that has both functions is likely, over time, to see its resource directed towards compliance rather than promotion."[196]

208. Roedd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru farn debyg, wrth awgrymu y gallai'r Comisiynydd ddefnyddio'i adnoddau i ganolbwyntio ar orfodaeth yn hytrach nag anogaeth, gan gofio'r amrywiaeth bosibl o safonau a allai gael eu creu.[197] Teimlai Mudiadau Dathlu'r Gymraeg y byddai "rhoi'r ddwy ddyletswydd yn yr un swyddfa efallai yn golygu rhoi blaenoriaeth i un ar draul y llall."[198]

209. Tra'r oedd y rhan fwyaf o'r rheini a roddodd sylwadau am y mater hwn yn teimlo na ddylai'r Comisiynydd fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, cafwyd safbwyntiau gwahanol hefyd.

210. Yn ôl Un Llais Cymru:

> "In principle, it probably makes sense to split the roles. However, I think that it could be seen as a bit of a luxury in the current financial climate, when there are clearly going to be pressing constraints on public finances." [199]

211. Mewn tystiolaeth atodol ddiweddarach, awgrymodd Emyr Lewis ei fod yn tueddu i gytuno na ddylai'r Comisiynydd fod yn gyfrifol am waith hybu'r iaith (gweler paragraff 201). Serch hynny, cynigiodd un ffordd o ddatrys y broblem o ran hybu a rheoleiddio, ar sail pryderon am y trefniadau pontio wrth symud i system newydd. Meddai:

> "Pam diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg? Pam na ellid cadw'r endid cyfreithiol, newid ei enw yn 'gomisiynydd' neu'n 'gomisiwn yr iaith Gymraeg', a chael comisiynydd, prif gomisiynydd, a dirprwy gomisiynydd, fel sydd yn y Mesur arfaethedig? Drwy wneud hynny bydd yn haws sicrhau olyniaeth

---

[195] Cofnod y Trafodion, paragraff [169], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[196] Cofnod y Trafodion, paragraff [185], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[197] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[198] Cofnod y Trafodion, paragraff [157], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[199] Cofnod y Trafodion, paragraff [36], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

o ran y gwaith, bydd yn haws plethu'r ddwy ffrwd o reoleiddio gyda'i gilydd, a hefyd, er nad wyf yn sicr ynghylch hyn, gallai fod yn llawer rhatach. Gellid defnyddio'r arian a arbedir er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, neu ar gyfer beth bynnag y dymuna'r Llywodraeth yn yr amseroedd caled hyn."[200]

212. Cynigiodd yr Athro Colin Williams awgrym tebyg:

"…dylid cadw'r elfen honno o waith y bwrdd sydd yn hyrwyddo ac sy'n fwy radical na chael gweision sifil yn gweithio ar eu pennau eu hunain, a chadw elfen reoleiddio'r bwrdd a rhoi grym iddi drwy roi pen newydd arni, sef comisiynydd iaith a dirprwy gomisiynydd, a gwahanu'r ddwy swyddogaeth. Yn y gorffennol, yr oedd y bwrdd, ei aelodau a'i staff, yn awgrymu'r ffordd arall: y gellid cadw'r ddwy swyddogaeth o fewn un corff a'i alw'n gomisiwn iaith."[201]

213. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr:

"We do not have a specific view in relation to the Welsh language commissioner, but, again, I would draw parallels with other established commissions in England and Wales that satisfy the role of an adviser and a regulator, for example, the Charity Commission and the Equality and Human Rights Commission. It is a way of operating that is already established within our system."[202]

214. Meddent hefyd:

"The commissioners of the Equality and Human Rights Commission are appointed by the Secretary of State. They serve this dual role of enforcement and providing advice and support, and they would also come into contact with areas in which Ministers have acted. So, they would be testing Ministers in a similar way."[203]

---

[200] Cofnod y Trafodion, paragraff [112], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[201] Cofnod y Trafodion, paragraff [164], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[202] Cofnod y Trafodion, paragraff [31], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[203] Cofnod y Trafodion, paragraff [33], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

*Trosglwyddo'r swyddogaethau hybu i Weinidogion Cymru neu gorff arall*

215. Roedd nifer o'r rheini a gefnogai wahanu'r swyddogaethau hyrwyddo a rheoleiddio, gan roi'r gwaith rheoleiddio i'r Comisiynydd, yn pryderu hefyd ynghylch trosglwyddo'r swyddogaethau hybu i Weinidogion Cymru drwy orchymyn o dan adran 143 o'r Mesur arfaethedig. Roedd hynny'n cynnwys pryderon y byddai hybu'r iaith yn dod yn weithgarwch gwleidyddol, a'r ymdeimlad y gallai hynny fod yn niweidiol i'r iaith. Roedd pryderon hefyd na fyddai dulliau gweithredu llywodraethau yn rhoi rhwydd hynt i waith hybu fynd rhagddo.

216. Teimlai Emyr Lewis y byddai trosglwyddo'r gwaith hybu i Lywodraeth Cymru yn golygu bod perygl y byddai strategaethau iaith a chynllunio iaith yn cael eu rhoi o'r neilltu, ac y byddid yn colli arbenigedd "yn sgil y cyfaddawdu gwleidyddol dros flaenoriaethau ac adnoddau sy'n rhan o fywyd beunyddiol pob llywodraeth".[204] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol yn ddiweddarach, pwysleisiodd Emyr Lewis drachefn nad oedd yn argyhoeddedig "mai o fewn y Llywodraeth y mae'r lle priodol i'r hyrwyddo ddigwydd".[205] Wrth ddweud hynny, nododd:

> "Mae Bwrdd yr Iaith wedi llwyddo am nad yw'n rhan o'r Llywodraeth. Mae'n ddigon annibynnol i weithredu mewn ffyrdd creadigol ac ystwyth, ac i holi cwestiynau anodd i'r Llywodraeth ac awdurdodau eraill ar faterion polisi. Mae ei natur hyd-braich fel hyrwyddydd yr un mor werthfawr, yn fy marn i, ag yw fel rheoleiddydd. Dylid ychwanegu hefyd fod model y Bwrdd, a ffordd y Bwrdd o fynd ati, yn cael eu cydnabod ledled Ewrop a gweddill y byd fel esiamplau ardderchog o sut y gellir hyrwyddo iaith leiafrifol o fewn cyd-destun fframwaith democratiaeth fodern."[206]

217. Nododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "Dau ddewis y mae'r Mesur arfaethedig yn ei gynnig o ran y gwaith hyrwyddo: rhoi'r swyddogaethau hyrwyddo un ai i'r Comisiynydd neu i'r Llywodraeth Ganol. Nid ydym ni yn credu fod y Llywodraeth Ganol yn meddu ar y diwylliant priodol i ymgymryd â hyrwyddo iaith. Rydym wedi cyfeirio'n barod at

---

[204] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9
[205] Tystiolaeth Ysgrifenedig Atodol, MI 9
[206] Tystiolaeth Ysgrifenedig Atodol, MI 9

beryglon gwrthdaro pe rhoddid y swyddogaethau hyrwyddo a gorfodi i'r Comisiynydd. Un opsiwn pellach, felly, fyddai rhoi'r swyddogaethau hyrwyddo i gorff ar wahân".[207]

218. Cyfeiriodd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad at greu corff newydd i hybu'r iaith.

219. Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y gellid creu Cyngor yr Iaith Gymraeg i ddisodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac y dylai corff o'r fath gael ei sefydlu "fel corff hyrwyddo corfforaethol wedi ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ... [a hwnnw] yn gorff hollol ar wahân i'r Comisiynydd."[208] Byddai'r cyngor hwn yn fforwm cynhwysol ar gyfer y Gymraeg[209] ac yn cynnwys " cyfranogiad ystod helaeth o gyrff statudol, gwirfoddol a phreifat yn y gwaith o greu dyfodol i'r Gymraeg".

220. Ychwanegodd Cymdeithas yr Iaith:

> "...[mae] mudiadau sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg y gallant greu deinameg newydd o rannu arfer da, rhannu sgiliau cynllunio iaith a mynd tuag at ddull synhwyrol o hyrwyddo'r iaith ym mhob rhan o Gymru".[210]

221. Gwnaeth Mentrau Iaith Cymru awgrym tebyg:

> "Un model, efallai, fyddai creu consortiwm o fudiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar draws Cymru ac sydd â phrofiad o hyrwyddo'r Gymraeg. Gallai consortiwm o'r fath ddod ynghyd i wneud y gwaith hyrwyddo neu ddod i benderfyniad ynghylch y ffordd orau o hyrwyddo'r Gymraeg."[211]

222. Awgrymodd y Ganolfan Cynllunio Iaith y canlynol:

> "Credwn y dylid gosod y dasg o hyrwyddo'r Gymraeg yn ei ystyr ehangach, ynghyd ag adeiladu hyfywedd yr iaith, i gorff arall... Gallai'r corff hwnnw fod yn uned o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru neu yn gorff (neu gyrff) allanol a fyddai'n gweithredu o fewn fframwaith polisi a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru".[212]

---

[207] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 14
[208] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[209] ibid
[210] Cofnod y Trafodion, paragraff [61], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[211] Cofnod y Trafodion, paragraff [260], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[212] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 54

223. Nid oedd rhai o'r ymatebwyr eraill yn pryderu pe bai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y gwaith hybu:

> "On a strategic level, ColegauCymru considers there is scope for the Welsh Assembly Government to take on a greater promotional role. We therefore very much endorse the proposal to give the WAG responsibility for promoting the Welsh language".[213]

224. Fodd bynnag, dywedodd ColegauCymru fod ganddo rai amheuon ynghylch hyn hefyd:

> "Whilst ColegauCymru is very supportive of the proposal that the WAG be given responsibility for the promotion of Welsh language on a strategic level, it is less convinced that the WAG is best placed to deliver on the operational level. . . . .It is possible that, if the type of hands-on training and promotional role (entailing the training of individual members of the public in face to face interactions) … were expected of civil servants, that language promotion could be seen as a politically flavoured enterprise."[214]

225. At hynny, er ei bod yn gofyn am ragor o eglurder ynghylch sut y gallai'r Comisiynydd gyflawni gwaith rheoleiddio a hybu ill dau, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am waith hybu Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "…[gall] fod yn rhan o swyddfa'r Comisiynydd neu yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad...Gellid uno swyddogaethau eraill Bwrdd yr Iaith gyda Llywodraeth y Cynulliad naill ai fel adran benodol sy'n delio gyda phob mater sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg neu i mewn i'r adran gyfatebol..."[215]

*Swyddogaethau eraill y Comisiynydd*

226. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn siomedig â'r ffaith nad oedd egwyddor na diben statudol yn sail i waith y Comisiynydd, ac nad oedd "dyletswydd [arno] i amddiffyn hawliau, neu hyd yn oed y safonau".[216]

---

[213] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 41
[214] ibid
[215] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 232
[216] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47

227. Pan holwyd y tystion ymhellach, cyfeiriwyd at y ffaith fod gan Gomisiynydd Plant Cymru amcan a ffocws eglur[217] [218]. Meddent:

> "peth elfennol bwysig yw bod cyfres o egwyddorion a phrif nod i yrru'r comisiynydd, i'w gymell i ddefnyddio'r pwerau sydd ganddo i'w llawn botensial."[219]

228. Ychwanegodd y tystion:

> "…os nad oes egwyddor waelodol yn gyrru gwaith y comisiynydd, yn absenoldeb hawliau, nid oes esboniad pam y byddai'r comisiynydd yn gosod safonau yn y lle cyntaf."[220]

Gofynasant:

> "Pam nad oes nod a fyddai'n gyrru gwaith y comisiynydd gan ddweud bod rheswm dros osod safonau ar gyrff mewn sefyllfa arbennig? Nid oes dim byd o'r fath yn y Mesur arfaethedig ar hyn o bryd."[221]

229. Roedd gan Mudiadau Dathlu'r Gymraeg safbwyntiau tebyg:

> "Teimlwn fod y cyd-destun yn aneglur ac yn amwys ac y byddai gwneud datganiad clir o rôl, nod ac amcanion y comisiynydd yn gam ymlaen er mwyn sicrhau bod pwrpas y swydd yn gwbl glir a bod y comisiynydd yn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r Mesur arfaethedig ar ei ffurf bresennol yn golygu bod hyn yn gwbl ddibynnol ar bersonoliaeth yr unigolyn a gaiff ei benodi maes o law. Yr ydym hefyd eisiau sicrhau fod dinasyddion Cymru yn gwbl eglur ynghylch rôl yr unigolyn hwnnw a phwrpas cylch gorchwyl y comisiynydd. Ar hyn o bryd, teimlwn nad yw hynny'n gwbl glir i bobl Cymru."[222]

230. Wrth wneud cymhariaeth arall â swydd Comisiynydd Plant Cymru, gofynnodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg:

> "Pam nad oes gan y Comisiynydd Iaith ddyletswydd i wneud yr un peth? Gwarchod buddiannau pobl Cymru i'r Gymraeg a

---

[217] Cofnod y Trafodion, paragraffau [55-56], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[218] Fel y gwelir yn adran 72(A) o *Ddeddf Safonau Gofal 2000*. Darperir mai prif amcan y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu a hybu hawliau a lles plant y bydd Rhan V o Ddeddf 2000 yn gymwys iddynt
[219] Cofnod y Trafodion, paragraff [55], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[220] Cofnod y Trafodion, paragraff [44], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[221] Cofnod y Trafodion, paragraff [101], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[222] Cofnod y Trafodion, paragraff [184], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

hyrwyddo hawliau dinasyddion i'r Gymraeg. Gan fod sawl confensiwn rhyngwladol i ryw raddau, yn cynnwys hawliau ieithyddol, oni fyddai'n gwneud synnwyr bod dyletswydd ar y Comisiynydd i hybu a diogelu'r hawliau hynny?"[223]

231. Yn olaf, roedd Llais Defnyddwyr Cymru am weld dyletswyddau'r Comisiynydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol:

> ". . . we believe that the monitoring and evaluation of the use of services, as well as the use of the language, should be included in the Measure as one of the Commissioner's duties."[224]

**Tystiolaeth y Gweinidog**

232. Pan holwyd ef a fyddai'r Comisiynydd yn annibynnol, ac a fyddai'n rhydd o reolaeth gan Weinidogion, dywedodd y Gweinidog:

> "…[mae'r] berthynas rhwng y comisiynydd iaith a'r Llywodraeth yn debyg i'r berthynas gyda'r comisiynwyr eraill sydd wedi'u penodi yng Nghymru. Bwriedir iddynt fod yn annibynnol ac yn feirniadol o'r Llywodraeth, os dymunir. Ceir datganiad clir yn y Mesur arfaethedig bod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i unrhyw gyngor a roddir gan y comisiynydd, sydd yn awgrymu bod gan y comisiynydd bwerau eang. Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod rôl glir i'r comisiynydd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac i hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd disgwyliad clir a chyhoeddus i'r comisiynydd ymgymryd a chyflawni'r amcanion a'r dyletswyddau a fydd yn ddisgwyliedig ganddo neu ganddi mewn perthynas â'r system gorfodi safonau, a fydd yn gofyn i'r comisiynydd weithredu yn amhleidiol ac yn annibynnol."[225]

233. Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

> "Mae'r Mesur arfaethedig yn nodi ffyrdd y gall y comisiynydd ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio â dyletswyddau a osodir gan safonau. Mae ymchwiliadau yn fater hollol wahanol. Fel y dywedodd y Gweinidog, os yw'r comisiynydd am ymchwilio i'r defnydd o'r Gymraeg gan y sector cyhoeddus neu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc, mae'r Mesur

[223] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 48
[224] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37
[225] Cofnod y Trafodion, paragraff [40], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> arfaethedig yn nodi'r broses ffurfiol er mwyn gwneud hynny, i sicrhau bod pawb yn deall y cylch gorchwyl a bod gan bobl gyfle i gyflwyno tystiolaeth. Mae'n dangos agwedd arall lle bydd y comisiynydd yn annibynnol o'r Llywodraeth, gan y gall ef neu hi ymchwilio i unrhyw beth y mae ef neu hi yn ei ystyried yn briodol."[226]

234. Nododd y Gweinidog hefyd y byddai gan y Comisiynydd "yr hawl i roi cymorth i unigolyn heb ofyn caniatâd unrhyw Weinidog na neb."[227]

235. Wrth ymateb i gwestiwn yn gofyn a fyddai'n anodd i'r Comisiynydd reoleiddio gwaith y Llywodraeth yn annibynnol, gan ystyried tystiolaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg bod rhan helaeth o'i waith rheoleiddiol yn gysylltiedig â'r Llywodraeth, anghytunai'r Gweinidog. Dywedodd:

> "Bydd y comisiynydd yn cyfrannu'n allweddol at gyflawni Rhannau 4 a 5 y Mesur arfaethedig, sy'n ymdrin â gosod dyletswyddau ar bobl drwy safonau, a gorfodi'r safonau hynny. Drwy wneud hynny, bydd yn ymdrin ag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys mwy na 550 o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos na fydd rhan fawr o waith y comisiynydd yn ymwneud â'r Llywodraeth, a bydd yn gallu gweithredu'n annibynnol i'r Llywodraeth wrth wneud y gwaith hwnnw."[228]

236. Roedd y Gweinidog yn cydnabod nad yw Comisiynydd Plant Cymru na Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu rhoi sancsiynau ar Weinidogion Cymru (yn y modd y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gwneud hynny).[229] Er hynny, dywedodd:

> "Mae enghreifftiau cyfredol o gomisiynwyr eraill neu gyrff tebyg yn gallu gosod sancsiynau ar Weinidogion y Llywodraeth lle mae'r union Weinidogion hynny yn gwneud penodiadau i'r cyrff hynny. Mae'r rhain yn cynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Nid oes model parod ar gyfer comisiynwyr. Mae'r model

---

[226] Cofnod y Trafodion, paragraff [76], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[227] Cofnod y Trafodion, paragraff [84], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[228] Cofnod y Trafodion, paragraff [91], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[229] Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> hwn wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru."[230]

237. Pan ofynnwyd iddo pam oedd y Mesur arfaethedig, yn adran 11, yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd gael cymeradwyaeth ar gyfer nifer y staff y mae'n eu cyflogi, ynghyd â'u hamodau gwaith, ymatebodd y Gweinidog:

> "Nid wyf yn credu bod yn rhaid i'r comisiynydd gael caniatâd i benodi nifer benodol o staff, ond mae gan y Gweinidog yr hawl i osod uchafswm. Nid ydych eisiau gweld corff fel hwn yn dechrau gwario arian yn ddiangen, gan adeiladu ymerodraeth a thalu cyflogau afresymol, fel sydd wedi digwydd mewn rhai cyrff a ariannwyd neu a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Felly, rhyw fath o system o *checks and balances* yw honno."[231]

238. Esboniodd y Gweinidog hefyd fod pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd yn adran 15 yn "angenrheidiol fel rhan o'r *checks and balances*" ac y dylai'r pŵer fod ar gael i'w ddefnyddio "mewn achosion anarferol iawn, megis pe bai pryder ynglŷn â pherfformiad y comisiynydd."[232] Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

> "Mae'n bŵer sy'n gynwysedig yn Neddf 1993, yng nghyswllt bwrdd yr iaith. Nid yw'r pŵer hwnnw wedi'i ddefnyddio erioed, fel y deallaf, yng nghyswllt gwaith y bwrdd. Fel y dywedodd y Gweinidog, rhaid defnyddio'r pŵer yn ofalus; nid ydyw yno i alluogi Gweinidogion i ymyrryd yng ngwaith beunyddiol y comisiynydd. Os yw Gweinidogion yn defnyddio'r pŵer mewn ffordd amhriodol, gellir dwyn adolygiad barnwrol yn eu herbyn."[233]

239. Mewn llythyr atom ar 23 Ebrill 2010, rhoddodd y Gweinidog ragor o wybodaeth am y rhwystrau a'r gwrthbwysau sy'n sicrhau annibyniaeth y Comisiynydd yn y Mesur arfaethedig.[234]

240. Wrth drafod y broses o benodi'r Comisiynydd, dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon bod y gweithdrefnau yn y Mesur arfaethedig yn addas[235] a bod y broses:

[230] Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[231] Cofnod y Trafodion, paragraff [90], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[232] Cofnod y Trafodion, paragraff [92], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[233] Cofnod y Trafodion, paragraff [94], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[234] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 23 Ebrill 2010
[235] Cofnod y Trafodion, paragraff [95], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

"…yn gyson â phenodiad Comisiynydd Plant Cymru a'r Comisiynydd dros Bobl Hŷn yng Nghymru. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth ym mharagraff 3(1) o Atodlen 1 i ganiatáu i'r Prif Weinidog ystyried barn y Cynulliad, boed yn bwyllgor yn y Cynulliad neu Aelodau'r Cynulliad, wrth benodi'r comisiynydd."[236]

241. Wrth drafod a ddylai'r Comisiynydd fod yn gyfrifol am reoleiddio a hybu'r Gymraeg ill dau, dywedodd y Gweinidog wrthym:

"Mae dwy farn. Un farn yw y dylid cyfuno'r ddwy rôl, a'u cadw ochr yn ochr â'r model cyfredol. Y farn arall yw y dylent fod ar wahân. Yr ydym yn cynnal trafodaethau â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill ar y mater hwn. Gallaf ddweud y byddai'n well gennyf beidio â chadw Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu sefydlu corff arall er mwyn cyflawni unrhyw rôl hyrwyddo a allai fod yn briodol ar gyfer y comisiynydd. Fel y dywedais, fodd bynnag, mae'r cydbwysedd o ran y rôl rheoleiddio a hyrwyddo yn rhywbeth yr wyf yn ei drafod â'r bwrdd ac eraill, a byddaf yn ymgynghori ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg pan fyddaf yn cyhoeddi strategaeth iaith Gymraeg ddrafft y Llywodraeth yn ddiweddarach eleni. Mae gennyf ddiddordeb clywed barn y pwyllgor ar y mater."[237]

242. Ychwanegodd:

"O ran hyrwyddo'r iaith, dylid cofio nad y bwrdd ei hun sy'n gwneud y mwyafrif o'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg; ond sefydliadau eraill fel yr Urdd, y mentrau iaith, yr Eisteddfod Genedlaethol, clybiau ffermwyr ifanc a'r papurau bro—llu o gyrff.

Mae hefyd nifer o gyrff eraill a gyllidir gan y Llywodraeth yn cyfrannu, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, yn ogystal ag S4C a Radio Cymru. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu mewn un ffordd neu'i gilydd at hyrwyddo'r iaith. Felly, ni ddylid ei ystyried fel rhywbeth sy'n digwydd mewn un corff, pa bynnag gorff ydyw."[238]

[236] Cofnod y Trafodion, paragraff [49], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[237] Cofnod y Trafodion, paragraff [99], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[238] Cofnod y Trafodion, paragraffau [101-2], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

243. Dywedodd yn ddiweddarach nad oedd y penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pwy ddylai gyflawni'r gwaith hybu.[239]

244. O ran cael egwyddor neu ddiben statudol yn sail i waith y Comisiynydd, fel yr awgrymodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, dywedodd y Gweinidog fod y "Mesur arfaethedig yn glir o ran rôl y comisiynydd".[240]

**Ein barn ni**

245. Rydym yn cydnabod bod mwyafrif y rheini a roddodd dystiolaeth o blaid trefniant lle mai'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n penodi Comisiynydd y Gymraeg.

246. Rydym wedi ystyried yn ofalus dystiolaeth y Gweinidog, sydd o blaid trefniant lle mai'r Prif Weinidog fyddai'n penodi Comisiynydd y Gymraeg.

247. Rydym hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a ddangosodd y byddai gan Gomisiynydd y Gymraeg y pŵer i roi sancsiynau ar Weinidogion Cymru a chymryd camau rheoleiddiol yn eu herbyn.

248. Yn yr amgylchiadau hyn, **ein barn ni yw bod angen ffordd fwy agored a thryloyw o greu dull yn y Mesur arfaethedig lle caiff Comisiynydd y Gymraeg ei enwebu gan y Prif Weinidog ac yna'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw**.

249. **Rydym yn argymell hefyd fod y Gweinidog yn adolygu'r darpariaethau hynny yn y Mesur arfaethedig sy'n rhoi rhyw fath o reolaeth i Weinidogion dros Gomisiynydd y Gymraeg, gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau a fydd yn rhoi ein hargymhelliad yn y paragraff diwethaf ar waith.** Yn ein barn ni, dyma'r darpariaethau hyn: adran 10(4) (cymeradwyaeth ar gyfer rhoi grantiau neu fenthyciadau); adran 11(6) (cymeradwyaeth ar gyfer cyflogi staff); adran 15 (pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddyd); adran 63 (pŵer i roi cyfarwyddyd i gynnal ymchwiliad safonau); adran 66 (codau ymarfer) ac adran 97 (cymeradwyaeth ar gyfer dogfennau polisi gorfodi).

250. Rydym yn cytuno â barn nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a awgrymodd fod angen i'r Mesur arfaethedig

---

[239] Cofnod y Trafodion, paragraff [115], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[240] Cofnod y Trafodion, paragraff [97], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

gynnwys egwyddor neu ddiben statudol cliriach yn sail i waith Comisiynydd y Gymraeg, yn debyg i hwnnw sy'n sail i waith Comisiynydd Plant Cymru (yn adran 72 o *Ddeddf Safonau Gofal 2000*). Rydym yn credu y byddai datganiad o'r fath yn rhoi eglurder llwyr ynghylch prif ddiben gwaith Comisiynydd y Gymraeg ac yn rhoi meincnod ar gyfer mesur perfformiad y Comisiynydd. Yn ein barn ni, dylai unrhyw ddiben statudol o'r fath roi sylw i'r egwyddor rychwantol y cyfeiriwn ati ym mharagraff 112 o'n hadroddiad ynghylch yr egwyddorion cyffredinol. Felly, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant sy'n datgan yn glir beth yw diben statudol gwaith Comisiynydd y Gymraeg**.

251. Rydym wedi ystyried yn ofalus iawn y dystiolaeth sy'n awgrymu na ddylid rhoi cyfrifoldebau hybu'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg neu Weinidogion Cymru (fel y darperir yn adran 134 o'r Mesur arfaethedig), ac yn hytrach y dylid rhoi'r cyfrifoldeb hwn i gorff newydd a gaiff ei sefydlu ar wahân. Nodwn nad yw'r Gweinidog â'i fryd ar sefydlu corff o'r fath. Nodwn hefyd o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod cyrff cyhoeddus eraill yn gweithredu a chanddynt swyddogaethau hybu a rheoleiddio ill dau. Gan ystyried y sefyllfa economaidd bresennol a'n pryder na fyddai digon o waith i gyfiawnhau creu corff ychwanegol, **rydym yn fodlon â'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn hyn o beth.**

252. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r Gweinidog wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi'r cyfrifoldebau hybu i Gomisiynydd y Gymraeg, Gweinidogion Cymru ynteu gyfuniad o'r ddau. **Fel sy'n digwydd o dan y fframwaith presennol, rydym yn credu ei bod yn anochel y bydd gan Weinidogion Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ill dau swyddogaethau i hybu'r iaith. Serch hynny, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi ei benderfyniad ar y mater hwn cyn i drafodion Cyfnod 2 ddechrau.**

253. Pa bynnag benderfyniad a wneir, a chan adlewyrchu rhai o'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth, **rydym yn argymell yn gryf y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol graffu'n flynyddol ar y cyllidebau ar gyfer rheoleiddio a hybu'r Gymraeg, a hynny er mwyn sicrhau bod y naill swyddogaeth a'r llall yn cael eu hariannu'n briodol.** Ein barn ni ar y mater hwn yw na ddylid fyth gynyddu'r gyllideb ar gyfer rheoleiddio'r Gymraeg ar draul y gyllideb ar gyfer hybu'r iaith.

# 6. Rhan 3: Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

## Y cefndir

254. Mae adrannau 22 a 23 yn Rhan 3 o'r Mesur arfaethedig, ynghyd ag Atodlen 4, yn darparu ar gyfer penodi Panel Cynghori ar gyfer y Comisiynydd. Gweinidogion Cymru sydd i benodi aelodau'r panel. Rhaid cael o leiaf dri aelod ond nid mwy na phump ar y panel ar unrhyw adeg.

## Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

255. Er mai dim ond lleiafrif o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau am Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg, mynegwyd dwy farn dra gwahanol.

256. Un farn oedd nad oedd angen Panel Cynghori o gwbl. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr:

> "We question the necessity of having an appointed panel to work with the commissioner. There are areas on which the commissioner must consult the advisory panel, as well as many optional areas in which consultation can occur. The main section on the advisory panel states that the commissioner may consult on anything, but, crucially, the consultation at section 23(3) is with any or all of the panel members, so we would say that it lacks teeth. Even where consultation is required by the sections where a 'must' appears, many of the areas might involve only certain members of the advisory panel, rather than a consensus among all of them. We do not feel that the advisory panel is a necessary part of the whole mechanism, particularly given the additional areas of operation in the proposed Measure. It is perhaps unnecessary."[241]

257. Dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru:

> "Many advisory panels are appointed to advise the Assembly Government and other public bodies on their work without the need for specific statutory provision. It is not understood why

[241] Cofnod y Trafodion, paragraff [50], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> it is considered necessary to have such specific provision in relation to this Advisory Panel".[242]

258. Nid oedd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg yn credu bod panel o rhwng tri a phum aelod yn ddigonol "i adlewyrchu'r arbenigedd sydd ei angen ar y comisiynydd yn y rôl honno."[243] Dywedodd y tystion y byddai'n well ganddynt:

> "……weld y maes yn cael ei gynrychioli'n ddigonol un ai drwy alw ar arbenigwyr o'r meysydd perthnasol o bryd i'w gilydd yn ôl y galw, neu drwy greu cyngor yr iaith, i gefnogi syniad cymdeithas yr iaith, a hynny er mwyn cynrychioli ystod eang o fudiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg."[244]

259. Nid oedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn credu bod y panel yn "angenrheidiol yn y bôn", gan ychwanegu:

> "Gall y comisiynydd benodi pobl heb rôl statudol ac felly heb gynnwys y darpariaeth hwn yn y Mesur arfaethedig. Yr hyn sy'n ein poeni yw eich bod, drwy greu panel ymgynghori, yn ail-greu cwango iaith, yn hytrach na chreu rheolydd annibynnol, gydag atebolrwydd clir i ddinasyddion Cymru. Felly, i ryw raddau, byddai'r panel ymgynghori yn cymylu'r dyfroedd."[245]

260. Cymharodd yr Athro Colin Williams y bwriad i greu Panel Cynghori gyda'r sefyllfa mewn gwledydd eraill. Dywedodd:

> "Nid yw'n angenrheidiol. Mae'n dibynnu ar ba gyfundrefn yr ydych yn ceisio ei ddiffinio…[mae] comisiynydd iaith Iwerddon, adran ustus y Ffindir ac adran bwerus Catalwnia yn gofyn am gyngor arbenigwyr ac yn eu talu am y cyngor hwnnw."[246]

Ond aeth yn ei flaen i ddweud:

> "…mae rôl y comisiynydd yn gallu bod yn un unig—o fod y person mwyaf poblogaidd pan fydd yn lladmerydd dros y Ffrangeg, yr Wyddeleg neu'r Gymraeg ac yn arwr i bawb, i fod y person lleiaf poblogaidd yn y wlad pan fydd yn cosbi'r Llywodraeth…Felly, nid yw'n angenrheidiol, ond mae'n dacteg

---

[242] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[243] Cofnod y Trafodion, paragraff [190], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[244] ibid
[245] Cofnod y Trafodion, paragraff [70], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[246] Cofnod y Trafodion, paragraff [211], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

wleidyddol gadarn i ddarparu'r sylfaen honno er mwyn rhannu cyfrifoldeb wrth gefn."[247]

261. Y farn arall ymhlith y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad oedd y gallai swyddfa'r Comisiynydd elwa o gael corff cynghori o ryw fath. Dywedodd Mentrau Iaith Cymru:

> "Rydym yn cymeradwyo'r syniad o sefydlu panel Cynghori er mwyn dwyn ar yr holl wybodaeth ac arbenigedd cyfreithiol, cynllunio iaith, pholisi iaith ac eraill fydd ei angen ar y comisiynydd. All peth o'r arbenigedd hyn ddod gan staff swyddfa'r Comisiynydd ond mae hefyd yn ddefnyddiol cael barn annibynnol o du allan i'r broses er mwyn cadw barn wrthrychol. Hoffwn weld bod arbenigedd rhyngwladol hefyd yn cael ei ystyried i'w gynnwys ar y panel ymgynghori."[248]

262. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn cefnogi sefydlu'r Panel Cynghori arfaethedig, gan ddweud bod "cael y mewnbwn hwnnw o wahanol leoedd a buddiannau yng Nghymru yn bwysig"[249]. Aethant ymlaen i ymhelaethu:

> "…mae llawer o'r swyddogaethau yn y Mesur arfaethedig a'r fframwaith newydd yn disgyn ar ysgwyddau un person. Gwyddom o brofiad personol bod rhychwant y maes hwn yn eang iawn, ac mae'r cyfrifoldebau'n fawr. Felly, byddai'n fanteisiol sicrhau bod grŵp o bobl yn gallu cynghori'r unigolyn hwn a fydd yn amlwg iawn o safbwynt ei weithredoedd neu ei gweithredoedd."[250]

263. I'r rheini a gefnogai'r cynigion i sefydlu Panel Cynghori, roedd sicrhau cynrychiolaeth ddigon eang yn bwysig. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin y "dylid sicrhau cynrychiolaeth o bob sector"[251], tra teimlai Undeb Amaethwyr Cymru y "dylai aelodau o'r Panel Cynghori'r Comisiynydd arfaethedig gynrychioli cymunedau gwledig a threfol Cymru yn ogystal â'r sectorau gwaith, hynny yw, y sector cyhoeddus, gwirfoddol a masnachol o bob maint."[252]

264. Dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

---

[247] Cofnod y Trafodion, paragraff [211], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[248] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53
[249] Cofnod y Trafodion, paragraff [66], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[250] Cofnod y Trafodion, paragraff [67], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[251] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 49
[252] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 46

> "In order to truly reflect the voice of the people, the Commissioner must ensure that he or she builds a dialogue with the public. This should also be reflected through the members of the Advisory Panel, with at least one member representing the varied needs of service users. It is vital that the Panel reflects the diversity within Welsh speaking communities in Wales, not only in terms of regions of Wales and levels of Welsh but also to be able to better connect Welsh issues and broader diversity issues such as disability."[253].

265. Wrth gael eu holi, awgrymodd y tystion ar ran Llais Defnyddwyr Cymru y gallai'r Comisiynydd a'r Panel Cynghori ystyried ymwneud â defnyddwyr yn uniongyrchol drwy drefnu paneli defnyddwyr rheolaidd.[254] Meddent:

> "These could be one-off engagements with groups of consumers to discuss particular issues, so the advisory group would meet the consumer panel to discuss developing a particular standard or to look into a particular service area. That would be a key part of maintaining an ongoing dialogue with members of the public. That can also be done through a range of voluntary organisations that can also represent more hard-to-reach groups."[255]

266. Cododd cwestiwn hefyd ynghylch nifer yr aelodau ar y Panel Cynghori. Meddai Rhieni dros Addysg Gymraeg:

> "Mae'n anodd deall pam mae rhwng 3 a 5 aelod a fydd ar banel cynghori Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n anodd dychmygu bod nifer fach yn gallu cynrychioli'r gwahanol feysydd sy'n galw am weithredu brys o ran diogelu'r Gymraeg".[256]

267. Fel yn achos y Comisiynydd ei hun, roedd y dull o benodi'r Panel Cynghori yn bwysig i rai o'r ymatebwyr. Ffafriai UCAC benodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn yr un modd ag y byddai'n well ganddynt weld y Comisiynydd ei hun yn cael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol.[257] Meddai Rhieni dros Addysg Gymraeg:

---

[253] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37
[254] Cofnod y Trafodion, paragraff [341], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[255] ibid
[256] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 50
[257] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 52

> "Dylai'r panel gael ei benodi eto gan bwyllgor o'r Cynulliad, heb fod gan unrhyw un blaid fwyafrif."[258]

268. Serch hynny, meddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "Pwy sy'n apwyntio'r comisiynydd yw'r pwynt pwysig yn y man cyntaf, yn hytrach na phwy sy'n apwyntio'r panel. Dyna'r elfen o annibyniaeth sy'n hollbwysig."[259]

**Tystiolaeth y Gweinidog**

269. Esboniodd y Gweinidog y rhesymeg dros sefydlu Panel Cynghori:

> "Mae'r comisiynydd yn berson gyda phwerau eithaf eang ac mewn sefyllfa o rym. Fodd bynnag, y syniad oedd y byddai'n ddoeth cael panel cynghori na fyddai'n ymyrryd â gwaith dyddiol y comisiynydd. Nid oes gan y panel cynghori unrhyw rôl weithredol yng ngwaith dyddiol y comisiynydd. Eto i gyd, disgwyliem i'r personau hyn feddu ar y profiadau proffesiynol angenrheidiol er mwyn gallu cynghori'r comisiynydd, os yw'n dymuno cael cyngor, a hefyd i fod yn rhyw fath o garreg ateb pe bai'r comisiynydd eisiau eu defnyddio felly. Bydd hefyd yn rhan o'r *checks and balances*. Felly, os bydd y comisiynydd yn dechrau ymddwyn yn afresymol mewn unrhyw ffordd, mae gennych gorff sydd naill ai'n gallu ceisio tymheru'r ymddygiad hwnnw."[260]

270. Pwysleisiodd hefyd "nad ail fersiwn y bwrdd yw'r panel cynghori, ond pobl sydd yno i gynghori yn unig". [261] Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog y caiff y panel ei benodi am gyfnod o dair blynedd a'i fod yn "gyfle da hefyd i ddod a syniadau ffres a gwaed newydd i dîm y comisiynydd."[262]

271. Pan holwyd ef ynghylch maint y Panel Cynghori, dywedodd y Gweinidog:

> "Bydd cael aelodaeth o ddim mwy na phump yn sicrhau nad yw'r panel yn rhy afrosgo ac yn faich biwrocrataidd i'r comisiynydd ei reoli, yn hytrach na bod yn fan i drafod

[258] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 50
[259] Cofnod y Trafodion, paragraff [66], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[260] Cofnod y Trafodion, paragraff [96], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[261] Cofnod y Trafodion, paragraff [100], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[262] Cofnod y Trafodion, paragraff [101], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> syniadau, fel y bwriedir iddo fod. Bydd hefyd yn gostwng y costau ar gyfer y comisiynydd os yw'n gorff eithaf bach."[263]

272. Holwyd y Gweinidog hefyd ynghylch pam bod gofyn i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd cyn diswyddo aelodau'r Panel Cynghori[264] ond nid cyn eu penodi. Ymatebodd y Gweinidog:

> "Nid yw'n ofynnol i Weinidogion ymgynghori â'r comisiynydd cyn penodi; nid yw hynny'n golygu na fyddant yn gwneud hynny. Holl ddiben y panel cynghori yw ei fod yn gweithredu fel man i drafod syniadau ar gyfer y comisiynydd, i weithredu fel dull o bwyso a mesur, a sicrhau bod y comisiwn yn dilyn cyfeiriad rhesymol. Felly, bydd angen rhywfaint o annibyniaeth o'r comisiynydd ar y panel. Dyna pam y bydd Gweinidogion yn penodi aelodau'r panel. Fodd bynnag, o ran diswyddo aelodau'r panel, bydd yn bosibl i Weinidogion eu diswyddo ar y sail nad ydynt yn gallu neu'n barod i weithredu fel aelodau o'r panel neu eu bod yn anaddas i barhau fel aelodau, am ba reswm bynnag."[265]

**Ein barn ni**

273. **Rydym yn cytuno â'r Gweinidog ac â rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad bod angen Panel Cynghori ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.**

274. Rydym yn credu y bydd hwn yn banel pwysig i holi barn wrth brofi a chyflwyno syniadau newydd. Rydym yn cytuno hefyd â'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a awgrymodd fod angen cynrychiolaeth eang o wahanol sectorau ar y Panel Cynghori. Yn ein barn ni, dylai'r Panel Cynghori gynrychioli amrywiaeth Cymru gyfan. Gan hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i baragraff 5(4) o Atodlen 4 er mwyn ystyried y safbwyntiau hyn ynghylch amrywiaeth ac i egluro pa wybodaeth a phrofiad perthnasol y byddai'n rhaid i aelod o'r Panel Cynghori feddu arnynt.**

275. Rydym yn credu y byddai'r cyfyngiad presennol yn adran 22(3) ar uchafswm aelodau'r Panel Cynghori yn tanseilio'i allu i gynrychioli

---

[263] Cofnod y Trafodion, paragraff [122], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[264] Cofnod y Trafodion, paragraff [123], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[265] Cofnod y Trafodion, paragraff [124], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

amrywiaeth Cymru gyfan. Felly, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i gynyddu nifer yr aelodau a allai fod ar y Panel Cynghori ar unrhyw adeg benodol**.

276. O ran penodi'r Panel Cynghori, yn unol â'n hargymhelliad ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg, **rydym yn credu** y **dylai aelodau'r Panel Cynghori gael eu henwebu gan Weinidogion Cymru a'u cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw**.

277. Rydym wedi ystyried yr anghysondeb ymddangosiadol rhwng y gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiynydd cyn diswyddo aelodau'r Panel Cynghori, ond nid cyn eu penodi. Ar ôl ystyried y mater, rydym yn fodlon â'r trefniant hwn. Pe bai gofyn i'r Comisiynydd roi ei farn am ymgeiswyr, gallai'r system gael ei gweld yn un annheg os yw'r Comisiynydd yn adnabod rhai ohonynt ond nid rhai eraill. Ni fyddai sefyllfa o'r fath yn bosibl wrth ddiswyddo, oherwydd byddai'r Comisiynydd wedi cael profiad o weithio gyda holl aelodau'r Panel Cynghori ymlaen llaw.

278. **Rydym yn argymell y dylai unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru i ddiswyddo aelod o'r Panel Cynghori fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.**

# 7. Rhan 4: Safonau

## Y cefndir

279. Mae adrannau 24 - 69 o Ran 4 o'r Mesur arfaethedig yn sefydlu system newydd ar gyfer rhoi dyletswyddau ar bersonau mewn perthynas â'r Gymraeg, a hynny ar ffurf safonau. Mae'r Mesur arfaethedig yn creu pum math o safonau: safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; safonau hybu a safonau cadw cofnodion (adrannau 27 – 31).

280. Bydd y system a sefydlir o dan adran 25 o'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu manylion yr union safonau, a hynny ar gyfer y pum math o safon. Drwy reoliadau o dan adran 38, gall y Gweinidogion hefyd bennu'r personau hynny a fydd yn gorfod cydymffurfio â phob safon. Drwy wneud penderfyniadau ynghylch ffurf safonau penodol a sut y byddant yn berthnasol i berson, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru barchu unrhyw adroddiadau a lunnir gan y Comisiynydd ar ôl i'r Comisiynydd ddefnyddio pwerau penodol i gynnal ymchwiliadau safonau (adrannau 59 – 61). Ymhlith pethau eraill, bydd yr ymchwiliadau hynny'n galluogi'r Comisiynydd i edrych ar y safonau penodol y byddai'n rhaid i berson gydymffurfio â hwy, ynghyd ag edrych ar ffurf y safonau hynny.[266]

281. O dan adran 43 o'r Mesur arfaethedig, gall y Comisiynydd roi hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau. Mae hysbysiad cydymffurfio yn cyfeirio at un neu fwy o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 25, ac mae'n gofyn bod yn rhaid cydymffurfio â'r safon neu'r safonau y cyfeirir atynt. Gall hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol mewn rhai amgylchiadau, ond nid mewn amgylchiadau eraill ac/neu mewn rhai ardaloedd, ond nid mewn ardaloedd eraill.[267] Mae adran 43 felly yn rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i'r Comisiynydd ynghylch y graddau a'r modd y bydd safon benodol yn berthnasol i berson penodol.

282. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu nifer o resymau dros symud i'r system safonau a bennir yn Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig, sef:

[266] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.38
[267] Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 3, Nodiadau Esboniadol

- mae siaradwyr Cymraeg yn dal i wynebu anghysondebau ac anawsterau o ran derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg; [268]
- mae newidiadau i strwythur gwasanaethau cyhoeddus allweddol penodol, a ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, yn golygu bod gwedd gyhoeddus rhai sectorau a gwasanaethau allweddol y tu allan i gwmpas Deddf 1993 a all greu'r posibilrwydd o anghysondeb yn y sectorau hyn ac ansicrwydd ynghylch y gwasanaethau y gall cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith ddisgwyl eu derbyn;[269]
- mae datblygu, trafod a chytuno ar gynlluniau fesul achos wedi bod yn broses sy'n galw am lawer o adnoddau a gall y dasg o sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu datblygiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau'u darparu (e.e. newid mewn technoleg) fesul achos fod yn faich biwrocrataidd.[270]

283. Wrth grynhoi amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r darpariaethau ar safonau, mae’r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y canlynol:

- cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- lleihau'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n destun dyletswyddau drwy symud y ffocws oddi ar baratoi cynlluniau;
- sefydlu system a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur;
- o fewn sectorau penodol, sicrhau bod mwy o gysondeb o ran y cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau, gyda'r nod o sicrhau chwarae teg i bawb.[271]

[268] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1
[269] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2
[270] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3
[271] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10

## Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

*Sylwadau cyffredinol*

284. Roedd Pennod 3 ar yr egwyddorion cyffredinol yn trafod barn y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad am y pedwar amcan y cyfeirir atynt ym mharagraff 283 uchod. Er mwyn rhoi cyd-destun i'r rhan hon o'r adroddiad, gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- roedd y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y cyfan yn cytuno ei bod yn beth da rhoi mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg ynghylch gwasanaethau Cymraeg;
- serch hynny, roedd pryder eang na fyddai'r system safonau, fel y mae yn y Mesur arfaethedig, o anghenraid yn sicrhau mwy eglurder a chysondeb;
- o ran lleihau'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n destun dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg, roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ansicr neu hyd yn oed yn amau a fyddai'r system safonau mewn gwirionedd yn cyflawni hyn;
- mae'r safonau arfaethedig yn gymhleth, heb fod angen hynny, ac felly nid yw'n hawdd eu deall.

*Egluro cynnwys y safonau*

285. Mae natur y Mesur arfaethedig yn golygu nad yw union gynnwys y safonau wedi'i bennu yn y ddeddfwriaeth ei hun. Yn hytrach, bydd Gweinidogion Cymru yn creu safonau drwy reoliadau (o dan adran 25). Arweiniodd hyn at gryn dipyn o sylwadau beirniadol, gyda galw am ragor o eglurder yn y ddeddfwriaeth ei hun. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr:

> "Although the framework for the type of standards is set out in the proposed Measure there is no indication of the form or content of the standards.
>
> The imposition of standards upon providers of services to the public is the driver for this legislation. Therefore, the primary legislation should give a clear and detailed outline of the substance of the standards."[272]

[272] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 10

286. Meddai UCAC:

> ". . . [nid] yw'n hawdd deall y goblygiadau am fod y 'safonau' a grybwyllir yn ddarostyngedig i is-deddfwriaeth yn hytrach na'u bod yn ymddangos ar wyneb y Mesur ... yng nghyd-destun y Mesur mae'r safonau'n gwbl haniaethol ...
>
> ... er gwaethaf adrannau niferus yn y Mesur, erys yn annelwig beth fydd natur y safonau hyn, a sut y'u gweithredir."[273]

287. Dywedodd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y bydd gan y Comisiynydd gyfraniad allweddol yn y broses o osod safonau drwy roi hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 43. Bydd hynny'n rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i'r Comisiynydd ynghylch y graddau a'r modd y bydd safon benodol yn berthnasol i berson penodol. Nodwyd gan y tystion hyn nad oedd yn ymddangos bod unrhyw egwyddor yn y Mesur arfaethedig a fyddai'n llywio ym mha fodd y byddai'r Comisiynydd yn defnyddio'r disgresiwn hwnnw. Meddai Canolfan Llywodraethiant Cymru:

> "It does not seem to be clear on the face of the Measure what matters the Commissioner will take into account in coming to decisions …"[274]

288. Yn benodol, cyfeiriodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad at ddiffyg manylion ynghylch cynnwys y safonau, ac am ddiffyg enghreifftiau ymarferol o'r hyn a allai fod ynddynt. Heb hynny, meddent, roedd yn amhosibl rhoi sylwadau am eu heffaith a'u goblygiadau, ac roedd yn amhosibl dweud a fyddent yn welliant ar y cynlluniau iaith presennol. Meddai'r Arolwg Ordnans:

> "While the Measure makes provision for Standards to be imposed on organisations . . . there is currently no substantive indication of exactly what would be required under these standards."[275]

289. Yn yr un modd, meddai'r Gymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd:

> "... the exact nature of what is included will not be known until later in the process. This is confusing and unhelpful and

[273] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 52
[274] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[275] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 44

makes it hard for members to understand the practical implications for their business."[276]

290. Cynigiodd nifer o'r rheini a feirniadodd y diffyg eglurder yn y Mesur arfaethedig o ran y safonau at ffyrdd o oresgyn y broblem. Yn aml, roeddent yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi enghreifftiau o'r safonau, neu ryw fath o ganllawiau a fyddai'n egluro'u cynnwys. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru:

> "It would be useful if a guidance/advice document was produced to accompany the Measure once it has been approved. This document could contain examples relating to each standard to help demonstrate, for example, to organisations exactly what will be required of them and what these standards may look like in a more practical sense."[277]

291. Yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd hwn, roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn dymuno gweld rhagor o ymgynghori gan Weinidogion Cymru wrth baratoi'r safonau. Meddai Scottish Power:

> "... in sections 25(1) and 38 ... Welsh Ministers should have a statutory duty to consult affected parties before making regulations setting any standards or making them specifically applicable."[278]

292. Credai Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU hefyd bod angen rhagor o ymgynghori ac awgrymwyd y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys gofyniad ffurfiol ar Weinidogion Cymru i gomisiynu adroddiad yn ystyried yn llawn effaith unrhyw reoliadau arfaethedig ar y sector telathrebu. Roeddent hefyd o'r farn y dylai'r Gweinidogion geisio cyngor gan Ofcom ynghylch effaith bosibl eu cynigion ar natur y gystadleuaeth yn y farchnad delathrebu yng Nghymru.[279]

293. Roedd y Mobile Broadband Group yn dymuno gweld cyfraniad mwy gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y broses o baratoi safonau. Meddent:

> "the Proposed Measure needs to give a formal role to the WLC to prepare an advisory report for Welsh Ministers. This process should be incorporated into the Proposed Measure and the

[276] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 42
[277] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 34
[278] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 15
[279] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 19

> Welsh Ministers should be legally required to receive and consider the WLC's advisory report before draft Regulations for Standards are drawn up. At a minimum, the report should assess levels of demand, likely benefits to consumers and costs to providers."[280]

294. Pwysleisiodd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y broses o baratoi safonau. Nodwyd bod adran 61 o'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori a phob person perthnasol, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â phobl eraill, gan gynnwys y cyhoedd. Meddai Llais Defnyddwyr Cymru:

> "... we are concerned that there is currently no duty either on the Commissioner to consult with the public in investigating service sectors to inform the development of the Standards, or in developing the Standards themselves. As we understand it, the only formal consultation is likely to be from the Welsh Assembly Government on the regulations that set out the Standards."[281]

295. Beirniadodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd y ffaith bod y cyhoedd wedi'u heithrio o'r broses o bennu safonau:

> "…mae'r absenoldeb o'r unigolyn yn gallu herio unrhyw safon. Yn ddiweddar, pan fu'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ynghylch y Mesur arfaethedig, gofynnwyd iddo a fyddai modd creu safon ynghylch gwersi nofio ar gyfer plant. Yr ateb oedd na fyddai hynny'n bosibl. Yr ydym yn poeni nad oes gan unigolion y cyfle i herio paham nad yw safon wedi'i osod. Mae hwn i gyd i lawr i'r ffaith bod yr egwyddor o hawl ar goll o'r Mesur arfaethedig."[282]

*'Rhesymol a chymesur'*

296. O dan adran 53 o'r Mesur arfaethedig, croesawodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y ffaith bod person sydd wedi cael hysbysiad cydymffurfio yn gallu herio'r gofyniad arnynt i gydymffurfio â safon ar y sail y byddai hynny'n 'afresymol ac

---

[280] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 31
[281] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37
[282] Cofnod y Trafodion, paragraff [80], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

anghymesur'. Fodd bynnag, credai'r Arolwg Ordnans y dylai'r gofynion o ran yr hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur fod yn rhan o'r holl broses o bennu'r safonau:

> "We believe it would be helpful for the 'reasonable and proportionate' requirement to be clearly applied to any requirement that may be imposed on an organisation from the outset, rather than applied just as a grounds for challenge."[283]

297. At hynny, roedd llawer o'r rheini a groesawai'r cysyniadau o resymoldeb a chymesuredd hefyd yn pryderu nad oedd y meini prawf ar gyfer penderfynu beth oedd yn rhesymol ac yn gymesur yn glir. Dadleuodd SWALEC "y gallai hyn gael ei ddehongli mewn nifer o ffyrdd gwahanol ac y bydd yn rhoi disgresiwn sylweddol i'r unigolyn sy'n penderfynu ar y diffiniad".[284] Teimlai'r Gymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd fod angen diffinio'r hyn sy'n gymesur o'r dechrau.[285] Dywedodd Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin y byddai'n hoff o weld diffiniad o'r hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur, ac y gellir penderfynu ar hynny drwy ymgynghori â sefydliadau.[286]

298. Nododd sefydliadau eraill eu bod yn falch o weld y cysyniad o resymoldeb a chymesuredd yn cael ei gyflwyno, ond eu bod er hynny'n credu y gallai cyflawni amcanion eraill y tu hwnt i'r system safonau fod yn anodd, megis creu amodau cyfartal rhwng y rheini sy'n rhan o'r un sector. Meddai Nwy Prydain:

> "It will be difficult for the proposed Measure to marry the principles of a level playing field and tests of proportionality and reasonableness . . . . Companies who occupy the same sector do not necessarily share the same characteristics in terms of market share, growth, customer profile and product and service provision. There is also no mention of demand, which ought to have some bearing on service provision in a competitive market."[287]

299. Dywedodd CBI Cymru wrth drafod dehongli'r geiriau 'rhesymol' a 'chymesur':

---

283 Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 44
284 Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 8
285 Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 42
286 Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 43
287 Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 22

> "I think that the prime test of what is reasonable and proportionate should be the cost of providing services against the take-up and usage of those services. One can quickly move from tens of thousands of pounds to millions of pounds if one is taking a strict interpretation of treating the languages on a basis of equality. If you duplicate a fully functioning website, or if you ensure that you have a fully manned call centre with Welsh-language capacity on tap 24/7, costs will rise exponentially. That should be the prime test of reasonableness and proportionality. I would hope that there would be a very sensible dialogue between the commissioner and companies about that. It might have been helpful to state in the proposed Measure that those are the tests."[288]

300. Fodd bynnag, teimlai rhai tystion fod cysyniadau fel 'rhesymoldeb' a 'chymesuredd' yn gysyniadau cyfreithiol cyfarwydd, nad oeddent yn arwain at anawsterau penodol. Meddai Scottish Power:

> "'Reasonable' and 'proportionate' are general legal terms … so we are comfortable that there will be a standard expectation of what is reasonable and proportionate, and that that will come out through the consultation process."[289]

*Effaith safonau ar gystadleuaeth*

301. Cafwyd llawer o sylwadau gan y sector preifat ynghylch ehangu'r system safonau y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, yn enwedig yng nghyd-destun effaith bosibl y safonau ar gystadleuaeth mewn sectorau penodol ac ar gyrff penodol yn y farchnad. Fel y nodir ym Mhennod 3, roedd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'r ffaith y byddai'r safonau'n berthnasol y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, a byddai'n well ganddynt ddibynnu ar gynlluniau gwirfoddol.

302. Roedd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, fel Llais Defnyddwyr Cymru, yn croesawu'r system safonau i'r graddau y gallai safonau tebyg gael eu gosod yn gyffredinol, neu y gallai'r un safonau gael eu gosod ar bawb sy'n rhan o sector penodol yn y farchnad, gan greu amodau cyfartal yn hynny o beth.[290]

---

[288] Cofnod y Trafodion, paragraff [255], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[289] Cofnod y Trafodion, paragraff [270], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[290] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37

303. Pwysleisiodd BT Cymru bwysigrwydd sicrhau bod yr un safonau'n berthnasol i bob cystadleuydd mewn marchnad benodol:

> "Mae'r cysyniad o *level playing field* yn hollol hanfodol. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae'n rhaid gosod safonau tebyg inni i gyd. Bydd cwsmeriaid yng Nghymru yn disgwyl cael gwasanaeth tebyg gan yr holl gwmnïau yn y sector telathrebu."[291]

304. Credai Trenau Arriva Cymru bod creu amodau cyfartal yn gam ymlaen. Roeddent yn bur fodlon â'r system cyn belled â bod y safonau'n cael eu rhoi'n gyson o ran y Gymraeg.[292] Fodd bynnag, nid oedd Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru yn cytuno â hyn.[293] Meddent:

> "If there are differing standards, we do not understand how consistency is dealt with within the explanatory memorandum. Dealing with the point about a level playing field, it depends who you consider the competition to be."[294]

305. Fodd bynnag, nododd tystion eraill nad oedd yr holl gyrff mewn sectorau penodol o'r farchnad yn yr un sefyllfa i gyrraedd safonau penodol, a bod angen hyblygrwydd oherwydd hynny yn y system safonau arfaethedig er mwyn rhoi ystyriaeth i wahaniaethau o'r fath. Dywedodd y Gymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd hefyd ei bod yn bwysig bod y Mesur arfaethedig yn rhoi hyblygrwydd ac yn bragmatig gan y byddai effeithiau'r Mesur arfaethedig yn amrywio yn dibynnu ar gwmnïau a sectorau gwahanol.[295] Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r sector telathrebu yn cytuno. Er enghraifft, meddai Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU:

> "… [the proposed Measure] may have an adverse impact on competition in Wales since it does not take into account the multifaceted nature of the telecoms industry . . . . Since each operator's operational and geographic model will differ, any obligations imposed will impact companies in different ways. Proceeding on a "one size fits all" basis …. risks, in UKCTA's

---

[291] Cofnod y Trafodion, paragraff [174], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[292] Cofnod y Trafodion, paragraff [144], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[293] Cofnod y Trafodion, paragraff [145], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[294] Cofnod y Trafodion, paragraff [159], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[295] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 42

view, reducing rather than increasing the extent of competition in Wales."[296]

306. Dywedodd y Mobile Broadband Group fod y farchnad delathrebu bellach yn un hynod gymhleth, a bod y cysyniad o amodau cyfartal yn gymhleth yn yr un modd:

> "The main point is that this is a very complicated market, and I fear that the telecoms regulator will have to be consulted on the competition aspect, because it is not always obvious which playing field you are trying to level in the market."[297]

307. Cytunai'r Gymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd:

> "… Welsh Ministers, in drawing up the regulations, should ensure appropriate advice on competition issues is taken. . . .
>
> The proposed Measure does not properly take into account the role of Ofcom. As the regulator of telecommunications in the UK, ISPA believes that Ofcom's expertise in the area should be used in an advisory capacity."[298]

308. Yn rhannol er mwyn ymdrin â'r effaith bosibl ar gystadleuaeth drwy osod yr un safonau i bawb, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y posibilrwydd o greu rhywfaint o hyblygrwydd yn Atodlen 9. O dan adran 41 o'r Mesur arfaethedig, rhaid i unrhyw safon a wneir drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â gwasanaethau wneud darpariaethau ar gyfer yr holl weithgareddau a restrir yn Atodlen 9. Er enghraifft, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gellid creu hyblygrwydd o'r fath drwy newid y geiriau 'mae'n rhaid' am 'caiff', gan alluogi Gweinidogion Cymru i greu safonau sy'n ymwneud â gwasanaethau nad ydynt yn cynnwys yr holl weithgareddau a restrir.[299]

309. Ar y llaw arall, teimlai Bwrdd yr Iaith Gymraeg nad oedd y gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9 i'r Mesur arfaethedig yn ddigon eang, o bosibl:

> "O safbwynt y rhestr, teimlaf fod rhai elfennau ychwanegol sydd angen eu cynnwys, megis materion staffio a delio â chwynion. Hefyd, yr ydym yn gweld yn gynyddol bod angen cynnwys rôl y swyddogion sy'n rheoleiddio trwyddedi."

[296] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 19
[297] Cofnod y Trafodion, paragraff [177], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[298] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 42
[299] Er enghraifft, Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 31 ac MI 42

> “. . . os ydych yn cymharu Atodlen 9 i’r Mesur arfaethedig ag adran 9 Deddf 1993, credaf fod rhaid elfennau’n absennol o’r Atodlen. Ers 1993, mae cyrff wedi mynd ati i fynd llawer iawn ymhellach nag a oedd yn ofynnol yn y Ddeddf wreiddiol. Mae rhai cynlluniau diwygiedig yn mynd yn eithaf pell, o safbwynt gwneud pethau fel cydnabod hawl siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, neu’n rhoi statws cyfartal i’r ddwy iaith fel ieithoedd gweithredoedd mewn sefydliadau. Mae’r cyrff, felly, yn ychwanegu at yr hyn sydd yn y Ddeddf, ac yn mynd ymhellach na’r hyn sydd yn y Mesur arfaethedig.”[300]

310. Roedd nifer o’r ymatebion a gafwyd gan y sector nwy petrolewm hylifedig (LPG) yn mynegi pryderon am effeithiau posibl gosod safonau arnynt hwy, gan na fyddai eu cystadleuwyr yn gorfod cydymffurfio â safonau o gwbl. Meddai Calor Gas Ltd:

> “On this point of equality, the Measure would not affect the supply of our main competitors in rural areas—coal and oil. What is the logic for their omission?... this would be an extra cost and administrative burden on LPG, but not its main competitor fuels. It should be noted that the emissions profile for coal and oil are significantly worse both in terms of Air Quality emissions and greenhouse gas emissions. The perverse effect of the Measure in this respect is to incentivise a switch to more polluting fuels.”[301]

311. Dywedodd Camgas, cwmni arall o’r sector hwn, y byddai angen talu costau ychwanegol i ymdopi â’r baich gweinyddol ar gwmnïau LPG, ond na fyddai hynny’n wir i’w prif gystadleuwyr, sef cyflenwyr glo ac olew.[302] Mynegwyd pryder hefyd nad oedd hyn yn creu amodau cyfartal. [303]

312. Roedd gan UKLPG[304] y pryderon hyn:

> “As yet it is unclear what Standards may be required, but there is a huge amount of concern that the cost and administrative burden will put LPG at a competitive disadvantage.

[300] Cofnod y Trafodion, paragraffau [103 - 4], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[301] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 2
[302] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 16
[303] Cofnod y Trafodion, paragraff [241], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[304] UKLPG yw’r gymdeithas fasnach sy’n cynrychioli cynhyrchwyr a dosbarthwyr LPG a’r rheini sy’n cyflenwi cyfarpar a gwasanaethau cysylltiedig

. . . there are new energy sources coming to the rural market, and we remain concerned as to be the only one singled out for inclusion in the Measure.

The Board of UKLPG therefore asks the members of the Legislative Committee to exempt the distribution and supply of LPG from the proposed Measure on the grounds that its treatment should be consistent with its competitors."[305]

313. Esboniodd UKLPG hefyd eu bod yn gweithio mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r grid nwy ac na allant gystadlu gyda chyflenwyr nwy o'r prif gyflenwad.[306] Cadarnhawyd hyn gan Nwy Prydain.[307]

314. Oherwydd y dyb y byddai safonau'n gallu cael effaith niweidiol ar rai cyflenwyr ynni llai, cynigiodd Good Energy y dylai fod rhyw fath o eithriad cyffredinol i sectorau penodol ac/neu gystadleuwyr penodol yn y farchnad:

". . . smaller suppliers (Defined by OFGEM as the industry regulator as those serving less than 50,000 domestic customers in the UK) should be exempt from the Measure just as they are exempt from several other obligations which impose a disproportionate cost upon them compared to the big 6 suppliers."[308]

315. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn teimlo y dylid cydnabod sectorau penodol yn y Mesur arfaethedig, a hynny oherwydd eu natur arbennig. Er enghraifft:

"ColegauCymru considers the key purposes and outputs of the Welsh-medium and bilingual education sector are substantively different from most sectors, and that this should be reflected in the Proposed Measure."[309]

*Hawliau*

316. Roedd gan rai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad feirniadaeth fwy sylfaenol o'r system safonau, a hynny'n seiliedig ar eu barn y dylai'r Mesur arfaethedig greu hawliau iaith clir a phenodol i siaradwyr Cymraeg. Pwysleisiodd Emyr Lewis ei farn nad oedd y

[305] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 32
[306] Cofnod y Trafodion, paragraff [252], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[307] Cofnod y Trafodion, paragraff [199], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[308] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 25
[309] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 411

safonau yn Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig yn creu hawliau o gwbl. Eglurodd y berthynas rhwng hawliau a rhwymedïau (gweler hefyd Bennod 8), gan nodi "[os mai'r] bwriad yw i greu hawliau, mae angen cael rhyw fath o ddeilliant sy'n gwneud iawn i'r sawl a ddioddefodd."[310] Meddai:

> "Fel cyfreithiwr, credaf fod y gair 'hawl' yn golygu bod gennych yr hawl i wneud rhywbeth sy'n draddodadwy mewn rhyw ffordd a chael rhyw fath o rwymedi yn y pen draw. Nid yw'r Mesur arfaethedig yn gwneud hynny."[311]

Meddai hefyd:

> "...yn fy marn i, er mwyn cael hawl, mae angen rhywbeth sy'n gyfreithadwy ac sy'n arwain at ryw fath o ddeilliant, er budd y sawl sy'n meddu ar yr hawl honno—rhyw fath o rwymedi neu iawn... Nid yw'r safonau yn gwneud hynny. Maent yn syrthio'n brin."[312]

317. Cyfeiriodd yr Athro Colin Williams at dystiolaeth Emyr Lewis gan ddweud:

> "Yr wyf yn credu bod y Mesur arfaethedig hwn yn colli cyfle hanesyddol i drafod hawliau, am yr union reswm a roddodd Emyr. Yr wyf yn gobeithio y bydd y safonau yn arwain at ryw ymarfer ac ymhen pum mlynedd y daw pawb i ddeall bod ganddynt hawliau ac y byddant yn gweithredu fel pe bai ganddynt hawliau, ond nid yw hynny'n ddigonol. Os ceir hawliau, dylent fod yn hawliau eglur a diffiniadwy y gellir eu hamddiffyn gan y llysoedd.
>
> ... yr wyf yn credu y dylem fynd i'r afael â'r cwestiwn o hawliau yn awr. Yr wyf yn rhagdybio y bydd y gors hon yn mynd yn waeth, oni bai ein bod yn cynnig rhai hawliau statudol yn y Mesur arfaethedig neu fel rhan o'r pecyn o weithgareddau y mae'r Cynulliad yn ei gynnig. Fel arall, yr wyf yn credu y byddwn yn 'hostage to fortune', fel y dywedir yn Saesneg, yn dibynnu'n llwyr ar ddehongliad ac nid ar eglurder."[313]

318. Cafwyd y sylwadau hyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg:

---

[310] Cofnod y Trafodion, paragraff [114], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[311] Cofnod y Trafodion, paragraff [59], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[312] Cofnod y Trafodion, paragraff [84], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[313] Cofnod y Trafodion, paragraff [174 ac 176], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> “. . . yr ydym yn cydnabod bod angen system sy’n rhoi pŵer i’r dinesydd. O ddarllen y Mesur arfaethedig hwn, nid wyf yn gweld tystiolaeth o hynny. Yr hyn a fydd gennym fydd strwythur, drwy safonau, a fydd yn rhoi pwysau ar y darparwr, yn hytrach na hawliau i’r dinesydd.”[314]

319. Meddent hefyd:

> “Ni theimlwn bod y Mesur arfaethedig yn cyflawni’r hyn yr oeddwn yn ei obeithio iddo ei gyflawni. I ailddweud, nid oes unrhyw gyfeiriad at hawliau yn y ddeddfwriaeth hon. Yr hyn sydd gennych—eto, fel yn Neddf 1993—yw’r syniad o gryfhau’r elfen o ddyletswyddau nad ydynt yn arwain yn naturiol at hawliau absoliwt cyfreithiol.”[315]

320. At hynny, cyfeiriodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg at bwysigrwydd darparu hawliau iaith creiddiol, fan lleiaf, yn y Mesur arfaethedig ei hun:

> “…[Credwn] y gellid cynnwys rhai hawliau creiddiol mewn Mesur o’r fath. Byddai cynnig tri neu bedwar o hawliau eithaf sylfaenol yn gosod neges bwysig, a gellid adeiladu ar hynny mewn deddfwriaeth a allai ddod mewn degawd. Mae’r cysyniad bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o statws yr iaith yn mynd â ni yn ôl at gwestiwn y buom yn ei drafod ar y dechrau, sef ein bod yn gweld o’n holl waith ymchwil mai un o’r ffactorau mwyaf allweddol ynglŷn â defnyddio’r iaith Gymraeg yw siaradwyr yn teimlo bod gan yr iaith honno statws a hawl.”[316]

321. Meddai’r Ganolfan Cynllunio Iaith:

> “. . . yng nghyswllt dileu Cynlluniau Iaith Gymraeg a gosod fframwaith o safonau iaith ar gyfer darparu gwasanaethau . . . Tybed – yn hytrach na chymryd y cam chwyldroadol o ddileu Cynlluniau Iaith Gymraeg, gan lyncu adnoddau, amser ac egni cyrff maes o law o wneud hynny – nad gwell fyddai mabwysiadu ymagwedd esblygol gan droi elfennau craidd y Cynlluniau Iaith Gymraeg, sydd bellach yn ddefod ac arfer mewn rhannau helaeth o’r pau cyhoeddus a’r trydydd sector, yn set o hawliau, gan symleiddio ac ehangu ar elfennau eraill. Byddai gwneud hynny ynghyd â chryfhau’r elfen reoleiddio a hyrwyddo yn

[314] Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[315] Cofnod y Trafodion, paragraff [120], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[316] Cofnod y Trafodion, paragraff [121], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

gaffaeliad mawr ac yn ddatblygiad a fyddai'n gam naturiol o fewn trefn a phroses mae pawb yn y maes yn ei ddeall eisoes."[317]

322. Fel y crybwyllwyd ym Mhennod 3, roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn feirniadol mai'r unig hawl oedd yn cael ei greu gan y Mesur arfaethedig oedd yr hawl a geir yn Rhan 4; hynny yw, yr hawl i bersonau sy'n cael hysbysiadau cydymffurfio gan y Comisiynydd i herio'r hysbysiadau hynny. Meddai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

> "Yr unig hawl yn y Mesur Arfaethedig yw hawl i gwmnïau/gyrff herio'r safonau (c.53). Pam nad oes hawl tebyg i unigolion?"[318]

323. Ymhelaethodd Cymdeithas yr Iaith ar hyn:

> "Nid yw'r mesur yn creu hawliau yn y ffordd cyfreithiol traddodiadol Prydeinig, sef trwy osod dyletswydd fel y gall unigolion ei herio trwy'r llys, nac ychwaith yn y ffordd cyffredinol rhyngwladol trwy sefydlu hawliau cyffredinol sy'n ystyried rhesymoldeb a chymesuredd yr hawliau hynny.
>
> Mae llywodraeth y Cynulliad yn dadlau bod safonau a osodir ar gyrff yn mynd i 'arwain at hawliau' – dadl sydd yn hollol gamarweiniol yn gyfreithiol.[319]

Meddent hefyd:

> "… Y gallu i osod dyletswyddau cyson ar draws sectorau yw prif fantais safonau dros gynlluniau iaith. Fodd bynnag, heb hawliau craidd, y perygl yw y gallai safonau fod yr un mor aneglur ac aneffeithiol a chynlluniau iaith o safbwynt yr unigolyn...
>
> … Mae cyfundrefn safonau yn dibynnu ar ewyllys da un gwleidydd ac un comisiynydd, ond gyda hawliau byddai cyfrifoldeb cyfreithiol parhaol ar unrhyw lywodraeth a chomisiynydd i wireddu hawliau sylfaenol pobl am byth. Nid oes rhagor o rym i unigolion o dan y mesur hwn nag o dan Deddf Iaith 1993...
>
> … Nid yw safonau, heb eglurdeb hawliau'r tu ôl iddynt, yn mynd i sicrhau hawliau clir i bobl na darpariaeth gwell o

[317] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 54
[318] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[319] ibid

> wasanaethau Cymraeg oherwydd y gallan nhw amrywio o gorff i gorff ac ardal i ardal... fel cynlluniau iaith."[320]

324. Pan gawsant eu holi am hyn, pwysleisiwyd ganddynt drachefn nad oedd y system safonau yn creu hawliau:

> "Nid yw gosod safonau yr un peth â hawl—mater o ffocws ydyw. Mae dyletswydd yn ffocysu ar y darparwr; mae hawl yn ffocysu ar y defnyddiwr. Grymuso'r defnyddiwr sy'n bwysig. Ymhlyg yn y syniad o hawl mae iawn os caiff yr hawl ei nacáu. O dan y Mesur arfaethedig hwn, os yw corff yn torri safon, mae'r comisiynydd yn gallu ei gosbi, ond nid oes ffordd i'r unigolyn y'i nacaodd ei hawl gael iawn am y golled hon."[321]

*Materion penodol*

325. Cyfeiriodd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad at broblemau ymddangosiadol gydag adrannau penodol neu agweddau penodol ar y system safonau.

326. Gofynnodd Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru am eglurhad ynghylch goblygiadau'r Mesur arfaethedig o ran rheoleiddio gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.[322]

327. Dywedodd y Mobile Broadband Group fod y diffiniad o wasanaeth telathrebu yn un y gellid ei ddehongli yn hynod o eang.[323]

328. O ran hybu'r Gymraeg, meddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "Nid yw yn eglur pam mai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn unig sydd wedi eu nodi i gyflawni'r amcan hwn. Does bosibl na ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb ar bob corff cyhoeddus, sy'n wynebu'r cyhoedd, yng Nghymru. Yn sicr mae gan sefydliadau eraill (e.e o fewn y sector iechyd) gyfrifoldeb i hyrwyddo'r defnydd o iaith hefyd."[324]

329. Cyfeiriodd Llais Defnyddwyr Cymru at y safonau cadw cofnodion:

---

[320] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[321] Cofnod y Trafodion, paragraff [74], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[322] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 38
[323] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 31
[324] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 23

> "We would also like to see some clarity on the record-keeping standards for organisations in Schedules 7 and 8. At present, it is not clear whether all organisations in those Schedules will have a responsibility to undertake record keeping as well as service delivery. In our discussions with civil servants, they were not able to clarify that for us. For all organisations in Schedules 7 and 8, we feel that it is vital that a record-keeping standard is placed on them, because unless you are monitoring and evaluating complaints data, and also how often people use your service, you cannot assess how effective it is and how it might need to be adapted."[325]

**Tystiolaeth y Gweinidog**

330. Wrth drafod diben y system safonau a geir yn Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig, meddai'r Gweinidog:

> "Mae cynlluniau iaith wedi profi'n effeithiol ac yn fanteisiol iawn wrth wella'r gwasanaethau sydd ar gael i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, ond mae angen inni symud ymlaen. Mae angen mwy o eglurder arnom i sicrhau sefyllfa deg mewn rhai sectorau. Cynlluniau unigol yw cynlluniau iaith, ac er bod gan nifer ohonynt strwythurau a phatrymau tebyg, nid ydynt wastad yn gyson, hyd yn oed o fewn yr un sectorau. Diben gosod safonau, felly, yw rhoi mwy o eglurder i'r sefydliadau a'r cwsmeriaid, a chreu sefyllfa deg."[326]

331. Ar ein cais, cawsom lythyrau gan y Gweinidog hefyd yn trafod y darpariaethau sy'n ymwneud â safonau yn y Mesur arfaethedig, gan gynnwys enghreifftiau, wrth i ni ddirwyn ein gwaith craffu i ben, o sut y gallant edrych yn ymarferol.[327]

332. Pan ofynnwyd iddo a oedd cynsail yn rhywle arall yn y byd i'r system hon, dywedodd y Gweinidog:

> "...gwn fod rheoliadau wedi'u gwneud yn Iwerddon ar gyfer arwyddion, cyhoeddiadau wedi'u recordio, ac offer swyddfa a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus. Yng Nghanada, mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 1969 yn gosod dyletswyddau ar

---

[325] Cofnod y Trafodion, paragraff [306], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[326] Cofnod y Trafodion, paragraff [103], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[327] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 23 Ebrill 2010; Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 14 Mehefin 2010

> sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol. Mae'r sefyllfa yn wahanol ym mhob gwlad a ystyriwyd gennym, bron. Bydd y system safonau yn caniatáu datblygu dyletswyddau iaith Gymraeg sydd wedi eu teilwra i'r sefyllfa yma yng Nghymru."[328]

333. Er ei fod yn cydnabod ei bod yn "anodd rhagweld union effaith y Mesur arfaethedig"[329], dywedodd y Gweinidog:

> "...bydd y system o safonau yn arwain at fwy o eglurder o ran y dyletswyddau a roddir ar bobl. Bydd hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn haws cael gwared ar achosion o beidio â chydymffurfio. O ddweud hynny, bydd mwy o eglurder yn ei gwneud yn haws i sefydliadau wybod yr hyn y dylent fod yn ei wneud, a bydd y codau ymarfer y gall y comisiynydd eu cyhoeddi yn eu cynorthwyo i gynllunio sut i wneud hynny."[330]

334. Aeth y Gweinidog ati i grynhoi'r gwahaniaeth, yn ei farn ef, rhwng y cynlluniau iaith presennol a'r safonau arfaethedig:

> "Y gwahaniaeth sylweddol rhwng cynlluniau a safonau yw y byddai safonau yn ddyletswyddau penodol yn hytrach nag ymrwymiadau amodol a drafodir ar sail unigol. Bydd hyn yn arwain at hawliau o ran darpariaeth gwasanaethau. Bydd safonau'n arwain at well eglurder a chysondeb yn y gwasanaethau y gallwn ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Byddant yn gallu bod yn gymwys i sectorau cyfan a hyd yn oed, mewn ambell achos, i bob corff."[331]

335. Nid oedd gan y Gweinidog yr un pryderon â'r rheini a fynegwyd gan rai ymatebwyr y byddai'r system safonau yn arwain at lai o drafodaethau mewnol rhwng sefydliadau a'r ymdeimlad o berchnogaeth sy'n deillio o hynny. Meddai:

> "O ran y ddadl bod gan sefydliadau synnwyr o berchnogaeth o'u cynlluniau, nod y Mesur arfaethedig, drwy gyflwyno safonau sy'n creu dyletswyddau penodol, yw darparu hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg a sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu deall yn glir. Bydd y system newydd arfaethedig, sy'n seiliedig ar safonau, yn creu

---

[328] Cofnod y Trafodion, paragraff [112], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[329] Cofnod y Trafodion, paragraff [112], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[330] ibid
[331] Cofnod y Trafodion, paragraff [230], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

dyletswyddau y gellir eu gorfodi yn hytrach na'r ymrwymiadau amodol sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau. Yr wyf yn disgwyl y bydd angen i sefydliadau fabwysiadu rhyw fath o gynllun gweithredu i gyflawni'r safonau gofynnol. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu'r hyblygrwydd i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau weithredu cynlluniau o'r fath."[332]

336. Ychwanegodd:

> "Cyn y gellir gosod unrhyw safonau, bydd trafodaethau ac ymgynghori eang â'r cyrff hynny. . . [yr] hyn yr ydym yn ei wneud yw adeiladu ar lwyddiant y cynlluniau iaith, a bydd y safonau yn tyfu allan o'r cynlluniau hynny a'r gofynion ynddynt."[333]

337. Wrth drafod a allai'r system safonau olygu llai o faich gweinyddol na'r system bresennol, meddai'r Gweinidog:

> "Pan fydd y safonau wedi'u gosod ar draws y gwahanol sectorau, bydd y broses yn fwy syml. Os daw corff newydd i fod, ni raid creu cynllun newydd iddo. Gall fabwysiadu'r safonau sy'n berthnasol i'r sector arbennig hwnnw. Mae hwn yn un enghraifft o sut y caiff ei symleiddio. Hefyd, ni fydd angen adnewyddu cynlluniau cyfan, er efallai y bydd gan rai cyrff amcanion a thargedau i gynyddu eu safonau neu ychwanegu safonau at y rhai sydd wedi'u gosod."[334]

338. Cafwyd y sylwadau hyn gan y Gweinidog hefyd:

> "Ar hyn o bryd, mae trafodaethau unigol yn gorfod digwydd gyda'r oddeutu 500 o gyrff sydd â chynlluniau iaith. Mae'r cynlluniau hynny i fod i gael eu hadnewyddu bob tair blynedd, ac felly mae'r broses bresennol yn un eithaf llafurus. Yr ydym yn gobeithio y bydd y drafodaeth a fydd yn arwain at greu'r safonau yn digwydd un waith ac y bydd y safonau yn eu lle wedyn. Felly, bydd pawb yn eu deall, byddant yn eglur a bydd pawb yn gallu parhau â'r gwaith o baratoi'r gwasanaethau yn y gobaith o helaethu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg."[335]

---

[332] Cofnod y Trafodion, paragraff [127], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[333] Cofnod y Trafodion, paragraff [135], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[334] Cofnod y Trafodion, paragraff [126], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[335] Cofnod y Trafodion, paragraff [137], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

339. O ran sut i greu cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau mewn sectorau penodol, ochr yn ochr â'r sefyllfa ieithyddol wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru, meddai'r Gweinidog:

> "Pe baech chi'n troi at y busnesau preifat ac yn cymryd sector megis ynni er enghraifft, byddech yn gweld y byddai'n rhaid i'r safonau fod yn gyson ar draws sector o'r fath er mwyn sicrhau tegwch i bawb yn y maes. Dyna un o amcanion y Mesur arfaethedig, sef sicrhau'r safonau cyson hynny ar draws gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y cwsmer yn gwybod, ble bynnag yr aiff, y caiff y gwasanaeth arbennig hwnnw yn Gymraeg."
>
> "O safbwynt llywodraeth leol. . . rhagwelir fod rhai safonau cyson sy'n gwbl greiddiol i wasanaeth cyhoeddus. Un enghraifft hawdd fyddai ateb llythyr yn yr iaith a ddefnyddir gan gwsmer yn yr ohebiaeth wreiddiol. Byddech yn disgwyl i bob awdurdod lleol gyrraedd y safon honno a glynu wrthi."
>
> "O safbwynt rhyngwyneb â'r cyhoedd, mae'n amlwg bod arferion gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru oherwydd natur ieithyddol yr ardaloedd hynny. Byddai rhywun efallai'n disgwyl amrywiaeth oherwydd hynny ac yn disgwyl y byddai'r comisiynydd yn gallu amrywio'r safonau, ac er y bydd ganddo restr o safonau sy'n berthnasol i lywodraeth leol, na fyddai'r safonau hynny'n gyson ym mhob ardal. Mae hwn yn faes anodd ac nid ydym wedi cyrraedd ei ben draw eto wrth drafod y safonau, ond byddai rhywun yn disgwyl y byddai gwahaniaeth felly rhwng ardaloedd o ran rhai o'r safonau."[336]

340. Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog wrth gyfeirio at y cyfuniad hwn:

> "Bydd y safonau'n arwain at fwy o gysondeb. Ni fyddant yn golygu y bydd pethau'n hollol gyson drwy'r amser, er enghraifft, pe baech yn cymharu lleoedd fel Gwynedd a sir Fynwy. Rhaid i'r dyletswyddau yr ydych yn eu gosod ar gorff fod yn rhesymol ac yn gymesur. Fel y dywedodd y Gweinidog, gyda llawer o weithgareddau fel gohebu, gosod arwyddion a chynhyrchu ffurflenni syml i'r cyhoedd, gallwch efallai ddisgwyl y byddai'r safonau'n gyson ar draws Cymru, ond o ran

[336] Cofnod y Trafodion, paragraffau [156-81], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

gwasanaethau wyneb yn wyneb, gallech ddisgwyl y byddai rhywfaint o amrywiaeth."[337]

341. Serch hynny, ymhelaethodd y Gweinidog wrth drafod a allai fod safonau gofynnol penodol a fyddai'n berthnasol i bawb:

> "Mae'n bosibl y bydd amrywiadau. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl cysondeb o fewn sectorau. Lle mae'n bosibl nodi swyddogaeth a gyflawnir yn yr un modd gan bob sefydliad, gellid cael safon gyffredinol. Fodd bynnag, gall y system gydnabod yr amrywiadau ieithyddol sy'n bodoli yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y bydd yr un safonau'n union yn gymwys o ran gohebiaeth ac arwyddion, ond yn fwy hyblyg o ran cysylltiad wyneb yn wyneb, llafar mewn gwahanol rannau o Gymru."[338]

342. Meddai hefyd:

> "Ni fydd yr un safon unigol a fydd yn gymwys i bob sefydliad, neu byddai hynny ar wyneb y Mesur arfaethedig. Credwn y bydd y dull hyblyg hwn yn golygu, o fewn sectorau penodol, y bydd darpariaeth gyson, ond lle mae ei angen, gellir cael mwy o hyblygrwydd."[339]

343. Wrth gael ei holi am yr awgrym gan rai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y dylai fod gofyniad i ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o ymchwiliadau safonau o dan adran 61, meddai'r Gweinidog:

> "Ystyriwyd ei bod yn ddoeth peidio â gorfodi'r comisiynydd i ymgynghori â phartïon â budd yn ystod y cyfnod hwn wrth baratoi safonau, oherwydd, mewn ambell achos, gallai fod yn gwbl anymarferol disgwyl iddo neu iddi wneud hynny. Bydd nifer o gyfleoedd yn ystod y broses pan fydd pobl yn gallu cyfrannu eu syniadau ar unrhyw gynnig. Yn amlwg, mae'n iawn a chywir ymgynghori'n llawn â'r sefydliadau a fydd yn cael eu heffeithio gan y dyletswyddau."[340]

344. Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

> "Mae'n briodol i'r comisiynydd gael rhyddid o ran ymgynghori ag unrhyw unigolyn arall a allai fod â budd yn y mater. Er

[337] Cofnod y Trafodion, paragraff [159], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[338] Cofnod y Trafodion, paragraff [145], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[339] Cofnod y Trafodion, paragraff [153], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[340] Cofnod y Trafodion, paragraff [225], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

enghraifft, gallai'r comisiynydd deimlo bod angen ymgynghori â'r cyhoedd o ran safonau cadw cofnodion. Gallai'r comisiynydd deimlo bod sicrhau bod sefydliadau yn cadw cofnodion o ran cydymffurfio â'r safonau a nifer y cwynion yn fater gweinyddol. Felly, mae rhyddid i'r comisiynydd feddwl 'Mae hwn yn fater rhyngof i a'r sefydliadau dan sylw. Efallai nad oes angen i mi ymgynghori'n rhy eang ar hyn.' Fodd bynnag, gall wneud hynny os yw'n credu bod hynny'n briodol."[341]

345. Cyfeiriodd y Gweinidog at gynlluniau iaith gwirfoddol hefyd:

> "Ni fydd y system newydd arfaethedig yn atal y rhai hynny nad ydynt yn cyrraedd y safonau rhag parhau â'u cynlluniau neu eu polisïau gwirfoddol. Byddem yn dal i barhau i annog busnesau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y ddeddfwriaeth arfaethedig i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae cynlluniau gwirfoddol yn golygu'n union hynny: maent yn wirfoddol. Lle nad oes gofyniad statudol i fod â chynllun, nid oes unrhyw ffordd o orfodi. Mae'n amlwg bod y sefydliadau hynny sy'n gweithredu cynlluniau gwirfoddol yn ystyried eu bod yn werth eu cael a gallant barhau i'w gweithredu. Byddwn yn disgwyl i'r comisiynydd gymeradwyo a chefnogi hynny."[342]

346. Fel un ffordd o gael rhagor o hyblygrwydd yn y system safonau, argymhellodd rhai o'r ymatebwyr y dylid diwygio Atodlen 9 i'r Mesur arfaethedig er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru greu safonau cyflenwi gwasanaethau nad ydynt yn cyfeirio at bob gweithgaredd a restrir yn yr atodlen. Esboniodd un o swyddogion y Gweinidog pam nad oedd angen newid o'r fath:

> "Mae adran 41 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod unrhyw reoliadau a wnânt o dan adran 38 yn darparu bod safonau o ran darparu gwasanaeth sy'n ymwneud â phob gweithgaredd sydd wedi'i restru yn Atodlen 9 yn gymwys i berson, dim ond os yw'r person hwnnw'n gwneud y gweithgareddau hynny ... Pwrpas hynny wedyn yw sicrhau nad yw Gweinidogion yn methu â gwneud set cynhwysfawr y gellir eu gosod ar berson. Felly, mae'n ffordd o sicrhau bod Gweinidogion yn cynnwys popeth y gellid ei gynnwys yn y safonau.

[341] Cofnod y Trafodion, paragraff [226], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[342] Cofnod y Trafodion, paragraff [127], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

"Yn dilyn y broses honno, nid oes raid i'r comisiynydd ddefnyddio'r holl safonau hynny gyda phob corff. Bydd elfen o ddisgresiwn gan y comisiynydd. Rhaid i'r Gweinidog ddarparu set lawn o arfau i'r comisiynydd. Gall y comisiynydd wedyn ddewis yr arfau y mae'n dymuno eu defnyddio gyda chorff penodol."[343]

347. O ran creu Nod Siarter, fel y cynigiodd E.ON UK, meddai'r Gweinidog:

"Yr wyf yn croesawu'r syniad creadigol hwnnw, ond mae'r Mesur arfaethedig wedi'i ddatblygu ar sail gosod safonau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth yn atal llunio safon, pe bai'r comisiynydd yn ei hystyried yn briodol i'w hargymell, a fyddai'n seiliedig ar ryw fath o feincnod lle bydd sefydliadau yn cytuno ar gynlluniau ynglŷn â sut byddant yn cyflawni targed penodol. Felly, mae hyblygrwydd yn y Mesur arfaethedig, a chroesawaf ddiddordeb a dychymyg E.ON."[344]

348. Pan ofynnwyd am y posibilrwydd o beidio â chynnwys cyflenwyr nwy LPG yn y Mesur arfaethedig, meddai'r Gweinidog:

"Mae'n bwysig bod y Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'r cymhwysedd cyfan fel y cyflwynir ef ym mater 20.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Tasg y comisiynydd fydd ystyried a oes angen safonau ar gyfer cwmnïau o'r fath fel rhan o'i ymchwiliad safonau. Nid yw'r ffaith ei fod wedi'i gynnwys yn golygu y bydd unrhyw safonau'n cael eu gosod."[345]

349. Rhoddodd y Gweinidog gopi o lythyr i ni yr oedd wedi'i anfon at Camgas ynghylch hyn.[346]

350. Wrth ymateb i gwestiwn am sut y gallai safonau fod yn berthnasol i bersonau o ganlyniad i gyfeiriad yn Atodlen 7 at "[b]ersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau telathrebu i'r cyhoedd", ac yn benodol yr awgrym y gallai hyn gynnwys Skype, Facebook, Twitter a Yahoo, meddai'r Gweinidog:

[343] Cofnod y Trafodion, paragraffau [185 - 6], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[344] Cofnod y Trafodion, paragraff [139], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[345] Cofnod y Trafodion, paragraff [161], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[346] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 11 Mai 2010 (yn amgáu copi o lythyr a anfonodd at Cambrian Gas Ltd ar yr un dyddiad).

"Nid wyf yn bwriadu cyhoeddi dyletswyddau. Mae a yw'r cwmnïau hynny yn cael eu cwmpasu yn y diffiniad a oedd yn gysylltiedig â'r math o dechnoleg sy'n cynnal y safleoedd hynny yn gwestiwn technegol y bydd angen ei archwilio. Yn ddiddorol, mae Facebook eisoes yn cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes bwriad gorfodi dyletswydd arnynt."[347]

351. Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

"Fel y dywedodd y Gweinidog, nid y bwriad yw gweld cwmnïau fel Skype yn cael eu gosod o dan ddyletswyddau ar gyfer y protocol llais dros y rhyngrwyd. Nid wyf yn hollol sicr sut gallech wneud hynny'n gliriach yn y Mesur arfaethedig. Mae Atodlen 7 yn trosglwyddo'r cymhwysedd a ddarperir gan y GCD a gymeradwywyd i'r Cynulliad i'r Mesur arfaethedig, ac mae Atodlen 8 yna'n ceisio canolbwyntio ar y mathau o sefydliadau y gellid gosod safonau arnynt wrth ddarparu gwasanaethau telathrebu cyhoeddus."[348]

352. Cadarnhaodd y Gweinidog y sefyllfa hon drwy lythyr. Meddai:

"Er mae'n bwriad yw canolbwyntio ar wasanaethau ffonau symudol a llinell dir mae'r Llywodraeth yn credu y dylai'r Mesur, yn Atodlenni 5 a 7, adlewyrchu ystod cymhwyster y Cynulliad yn gyfan gwbl bo ran y personau y gellid gosod dyletswyddau arnynt dan fater 20.1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Credwn yn ogystal ei bod yn bwysig bod y Mesur yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer y dyfodol i ddygymod â gwasanaethau sy'n esblygu'n barhaus, ac oherwydd hynny rydym wedi cynnwys y geiriad fel y mae'n ymddangos ar hyn o bryd yn y Mesur arfaethedig. Trwy wneud hynny mae'r Mesur yn ddigon hyblyg i alluogi safonau i ymateb yn gyflym i newidiadau'n ymwneud â mecanweithiau darparu gwasanaethau, o fewn cwmpas cymhwysedd y Cynulliad."[349]

353. Wrth drafod rhoi safonau hybu i Weinidogion Cymru, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir yn unig, meddai swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

[347] Cofnod y Trafodion, paragraff [207], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[348] Cofnod y Trafodion, paragraff [210], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[349] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 30 Mehefin 2010

> "Mae'r safonau hybu yn grŵp diddorol iawn. Esbonia'r Mesur arfaethedig mai dim ond ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol y gellid eu gosod oherwydd maent yn sefydliadau a fyddai'n gallu chwarae rôl yn hyrwyddo defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg."[350]

354. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n barod i ystyried ehangu'r rhestr o sefydliadau y byddai safonau hybu yn berthnasol iddynt:

> "Y bwriad oedd i'r safon [hybu] arbennig hon fod yn berthnasol i gyrff sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu yn eang ar gymunedau lleol, a dyna pam y cyfeiriasom at y ddau sector hynny yn unig. Yr wyf yn hapus i ystyried sectorau neu gyrff eraill, os yw'r pwyllgor yn teimlo y byddai hynny'n llesol."[351]

355. O ran y safonau cadw cofnodion, meddai swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

> "O dan y Mesur arfaethedig, byddai modd gosod dyletswyddau o ran cadw cofnodion ar bob corff sy'n derbyn hysbysiad cydymffurfio, os ydynt yn Atodlenni 5 a 6 neu 7 ac 8. Mae modd gosod y ddyletswydd hon ar bob corff a fydd yn gorfod ufuddhau i'r safonau, ac felly byddem yn disgwyl i'r comisiynydd wneud hynny, fel y bydd yn gallu monitro'r cydweithredu â'r safonau."[352]

**Ein barn ni**

356. Wrth drafod yr egwyddorion cyffredinol ym Mhennod 3, rydym eisoes wedi rhoi sylwadau ynghylch y graddau y byddai'r Mesur arfaethedig yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.

357. Nodwn fod rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi beirniadu'r ffaith nad yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi unrhyw hawliau i gael gwasanaethau Cymraeg. Yn benodol, beirniadwyd y ffaith na cheir hawliau creiddiol sylfaenol i gael gwasanaethau Cymraeg y dylai siaradwyr Cymraeg allu'u cael, waeth ym mha ran o Gymru y maent yn byw. I raddau, rydym yn derbyn y ddadl honno, yn enwedig yng nghyd-destun y cyfeiriad yng nghytundeb Cymru'n Un at "*hawliau ieithyddol* o safbwynt darparu gwasanaethau" (ein pwyslais ni).

[350] Cofnod y Trafodion, paragraff [142], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[351] Cofnod y Trafodion, paragraff [201], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[352] Cofnod y Trafodion, paragraff [199], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

358. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith y byddai'n ddymunol cael rhagor o eglurdeb a chysondeb yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, ac er gwaethaf y cynnydd sylweddol a wnaed o dan Ddeddf 1993, rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau sylweddol yn dal i fodoli yn y galw am wasanaethau Cymraeg mewn gwahanol rannau o Gymru, ynghyd ag yn y gallu i ddarparu'r rheini. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cydnabod hefyd nad yw efallai'n bosibl cael cysondeb llwyr yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, oni bai y caiff ymrwymiadau sylfaenol eu gosod ar lefelau isel iawn.

359. Yn ein barn ni, y peth pwysig yw sut i gysoni'r nod o ddarparu gwasanaethau ar lefel gyffredinol a phendant ar y naill law, gyda'r amrywiaeth leol sy'n bodoli ledled Cymru ar y llaw arall, a hynny mewn ffordd sy'n gwella'r sefyllfa sydd ohoni.

360. Tra bo Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig yn sefydlu dull ar gyfer creu safonau, nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch cynnwys y safonau hynny (ac eithrio Atodlen 9, sy'n rhestru'r gweithgareddau a gyflwynwyd gan adran 41(2) ac y mae'n rhaid i safonau cyflenwi gwasanaethau a gaiff eu creu drwy reoliadau o dan adran 38 gan Weinidogion Cymru gyfeirio atynt).

361. Rydym eisoes wedi cydnabod bod gan y system safonau y potensial i arwain at welliannau yn y gwasanaethau a ddarperir (gweler paragraff 114). Fodd bynnag, nid oes modd i ni gasglu'n bendant a fydd hyn yn arwain at y newidiadau hynny gan nad yw'r Mesur arfaethedig ei hun yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau o sylwedd sy'n ymwneud â chynnwys y safonau.

362. Yn ein barn ni, dyma un o'r rhesymau pam mae llawer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi gofyn am eglurhad pellach gan Weinidogion Cymru ynghylch gwir gynnwys y safonau, o bosibl drwy gylchredeg safonau drafft a fyddai'n rhoi enghreifftiau clir o'r gwahanol fathau o safonau y bwriedir eu creu o dan y Mesur arfaethedig. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi yr eglurhad hwn drwy baratoi a chyhoeddi safonau drafft, ar ffurf y rheini y bwriedir eu creu o dan y Mesur arfaethedig.**

363. Rydym hefyd wedi dweud ei bod yn rhy gynnar i ddatgan a fydd symud o'r cynlluniau iaith i safonau yn creu fframwaith hwylusach a symlach yn weinyddol, a fframwaith mwy effeithiol yn sgil hynny, ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg.

364. Nodwn y gallai'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r system safonau arwain at amrywiaeth sylweddol o safonau gwahanol. Nodwn hefyd fod y Gweinidog wedi cydnabod ei bod yn debygol y bydd y personau sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau yn dal yn mynd i orfod creu cynlluniau gweithredu i roi'r safonau ar waith yn eu sefydliadau. Nodwn hefyd, yn ystod y broses o greu safonau, y bydd llawer o gyfle i ymgynghori â'r personau y bydd y safonau hynny'n berthnasol iddynt, a chyfeiriodd y Gweinidog yntau at hynny. Gan hynny, rydym yn pryderu y gallai'r broses o gytuno ar safonau, ynghyd â'r angen posibl i ddatblygu cynlluniau gweithredu, arwain os rhywbeth at gynyddu'r baich gweinyddol i rai sefydliadau. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sut y gellir lleihau'r baich hwn cymaint ag y bo modd, heb i hynny amharu ar yr angen i ymgynghori'n briodol.**

365. Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r safonau ar ôl cael argymhellion gan y Comisiynydd.[353] Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth ym Mhennod 2 yn Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig i ddynodi hyn. Credwn ei bod yn bwysig bod y Mesur arfaethedig yn egluro'n glir beth yw diben y safonau a sut y dylai'r broses o wneud safonau weithio. Gan hynny, **rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i'r perwyl hwn, a hynny'n unol â thystiolaeth y Gweinidog**.

366. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog na fydd safonau, fel rheol, ond yn cael eu datblygu gan Weinidogion wrth ymateb i ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan y Comisiynydd. Nodwn hefyd, wrth gynnal yr ymchwiliadau hynny, fod angen ymgynghori â'r personau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, yn ein barn ni, bydd yn dal yn bosibl i Weinidogion Cymru wneud safonau o dan adran 25 heb ymgynghori â'r Comisiynydd nac â'r personau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt, a hynny gan ei bod yn ymddangos y gall Gweinidogion greu safonau heb ymchwiliad safonau. At hynny, credwn y dylai rheoliadau a gaiff eu paratoi gan Weinidogion Cymru ynghylch safonau o dan adran 25 fod yn amodol ar ymgynghori, ac ni welwn reswm da pam na ddylai gofyniad o'r fath gael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig ei hun. Gan hynny, **rydym yn argymell bod adran 25 yn cael ei diwygio ar y sail hon.** At hynny, am resymau tebyg, credwn y dylid creu dyletswydd i ymgynghori â sefydliadau ynghylch rheoliadau sy'n darparu bod safonau yn berthnasol iddynt o dan adran

[353] Er enghraifft, Cofnod y Trafodion, paragraff [129], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

38. Felly, **rydym yn argymell bod adran 38 yn cael ei diwygio i'r perwyl hwn.**

367. Yn gysylltiedig â'n hargymhellion ynghylch adrannau 25 a 38 a'r angen i ymgynghori, rydym wedi ystyried y gred ymhlith nifer o'r ymatebwyr mai cyfyngedig yw rôl y dinesydd yn y broses o greu safonau. Er enghraifft, o dan adran 61 o'r Mesur arfaethedig, sy'n ymdrin â chynnal ymchwiliadau safonau, nodwyd bod angen i'r Comisiynydd ymgynghori â'r personau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt yn y pen draw, yn ogystal ag ymgynghori â'r Panel Cynghori, ond nid yw'n ofynnol iddo ymgynghori â neb arall, gan gynnwys y cyhoedd.

368. Tra ein bod yn cydnabod na fydd gan y cyhoedd o bosibl ddiddordeb arbennig mewn agweddau technegol ar safonau penodol a allai fod yn destun ymchwiliadau safonau, nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn cyfiawnhau gadael i'r Comisiynydd yn unig benderfynu a fydd yn ymgynghori â'r cyhoedd ym mhob ymchwiliad safonau, yn enwedig pan allai fod gan y cyhoedd yng Nghymru ddiddordeb sylweddol iawn mewn nifer o ymchwiliadau safonau. Felly, credwn y byddai'n well pe bai adran 61 yn nodi y dylai'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyhoedd. **Rydym yn argymell bod adran 61(2) yn cael ei diwygio er mwyn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal ymchwiliadau safonau**.

369. O ran ehangu'r system safonau y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, rydym eisoes wedi rhoi sylwadau ac wedi dweud y dylai'r system bresennol gael ei hehangu mewn egwyddor i gynnwys sefydliadau yn y sector preifat sy'n cyflawni swyddogaethau o natur lled-gyhoeddus.

370. Fodd bynnag, credwn y dylid ystyried yn ofalus bryderon y sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â'r system newydd. Credwn hefyd fod y system safonau yn cynnwys darpariaethau sylweddol sy'n galluogi sefydliadau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt i gyfrannu at y broses o bennu'r safonau hynny – drwy'r gofyniad o dan adran 61 i'r Comisiynydd ymgynghori â hwy wrth gynnal ymchwiliad safonau, er enghraifft. Nodwn hefyd fod gan sefydliadau hawl i apelio i'r Tribiwnlys os ydynt o'r farn na fyddai safon a osodwyd yn rhesymol neu'n gymesur.

371. Nodwn y dystiolaeth sylweddol a glywsom am y camau cadarnhaol y mae nifer o sefydliadau wedi'u cymryd wrth ddarparu

gwasanaethau Cymraeg o dan gynlluniau gwirfoddol, er nad ydynt yn gorfod cydymffurfio â Deddf 1993 ar hyn o bryd. Nodwyd ein bod yn cefnogi ehangu'r system reoleiddio i rai sefydliadau yn y sector preifat sy'n cyflawni swyddogaethau o natur lled-gyhoeddus. Serch hynny, credwn y dylid parhau i annog cyrff i greu cynlluniau gwirfoddol, a nodwn nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddull yn y Mesur arfaethedig sy'n darparu ar gyfer hyn. Roeddem hefyd yn hoff o'r syniad o Nod Siarter a allai gael ei ddatblygu ar gyfer sefydliadau na fydd y system safonau'n berthnasol iddynt. **Felly, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sut y gellir gwneud darpariaeth i greu Nod Siarter ac iddo ryw ffurf ar gymeradwyaeth swyddogol, o bosibl gan y Comisiynydd.**

372. Rydym wedi clywed tystiolaeth ynghylch sefyllfa cyflenwyr LPG, a'r ffaith ei bod yn ymddangos na fyddai eu prif gystadleuwyr yn gorfod cydymffurfio â'r Mesur arfaethedig gan nad yw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn ymestyn i'r cystadleuwyr hynny. Credwn fod hyn yn groes i'r nod o sicrhau amodau cyfartal o fewn sectorau. Er y gall y cwmnïau hyn apelio yn erbyn penderfyniad i osod safonau arnynt ar y sail nad yw'n rhesymol neu'n gymesur, credwn mai'r ffordd orau o ymdrin â hyn fyddai drwy beidio â'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig tan y bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol i gynnwys y diwydiannau y maent yn cystadlu â hwy. **Felly, rydym yn argymell bod Atodlen 8 yn cael ei diwygio i egluro na fydd y safonau'n berthnasol i gyflenwyr LPG.**

373. O ran y diffiniad o'r sector telathrebu, rydym wedi nodi'r sicrwydd a roddodd y Gweinidog ynghylch y sefyllfa hon ac rydym yn derbyn y sicrwydd hwnnw.

374. O ran y ffaith mai dim ond ar Weinidogion Cymru, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir y gosodir safonau hybu, dywedodd y Gweinidog ei fod yn barod i ystyried ehangu'r rhestr hon o sefydliadau y gellid rhoi safonau hybu iddynt, er iddo esbonio'r rhesymeg dros ei chyfyngu yn y fath fodd.

375. Tra ei bod yn ddealladwy na ddylid cynnwys cyrff gwasanaethau iechyd, awdurdodau'r heddlu a chyrff eraill sydd â swyddogaethau penodol, nid yw'n glir pam bod y llinell wedi'i thynnu ar ôl y prif awdurdodau lleol, a pham bod cynghorau tref a chymuned wedi'u heithrio.

376. Nid yw'n glir ychwaith pam na ddylai'r Mesur arfaethedig gynnwys cyrff lle mae'r defnydd o'r iaith yn un o'u swyddogaethau canolog. Ni welwn fod rheswm da pam na ddylai'r Mesur arfaethedig beidio â rhoi swyddogaethau hybu i gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Sianel 4 Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. **Rydym yn argymell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio i ganiatáu rhoi safonau hybu i gyrff o'r fath.** Yn fwy cyffredinol**, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ailystyried i ba gyrff y dylid rhoi safonau hybu, gan gyflwyno gwelliannau fel y gwêl yn dda.**

377. O ran y safonau cadw cofnodion, rydym wedi nodi safbwyntiau'r Gweinidog. **Yn ein barn ni, credwn y byddai'n fuddiol pe bai safonau cadw cofnodion clir yn berthnasol i bob sefydliad er mwyn barnu pa mor llwyddiannus fu unrhyw safon a osodwyd. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant perthnasol i wneud hyn yn ofyniad statudol.**

# 8. Rhan 5: Gorfodi Safonau

## Y cefndir

378. Mae Rhan 5 (adrannau 70 i 99) o'r Mesur arfaethedig yn pennu'r weithdrefn y mae'r Comisiynydd i'w dilyn wrth ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau.

379. O ran gorfodi, mae Memorandwm Esboniadol y Mesur arfaethedig yn nodi:

> "...dim ond un mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymchwilio i achosion honedig o dorri cynlluniau [a wnaed o dan Ddeddf 1993] sy'n cael ei ddarparu gan Ddeddf 1993, ac nid oes darpariaeth ar gyfer dewisiadau eraill wedi'u graddoli. Efallai nad yw un mecanwaith yn briodol ym mhob achos, ac efallai na fydd yn sicrhau'r canlyniadau cywir i bawb ym mhob achos. Yn ogystal, nid oes gan [Fwrdd yr Iaith] y pŵer o dan Ddeddf 1993 i'w gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth iddo a fydd yn ei gynorthwyo yn ei ymchwiliadau."[354]

380. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn crynhoi amcanion gorfodi Llywodraeth Cymru fel "datblygu trefn orfodi fwy effeithiol mewn perthynas ag unrhyw ddyletswyddau a gaiff eu gosod" o dan y Mesur arfaethedig.[355]

## Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

381. Nododd Emyr Lewis fod perthynas amlwg rhwng natur a chynnwys y safonau a gaiff eu creu o dan Ran 4, a pha mor rhwydd y gellid eu gorfodi. I'r perwyl hwn, mae angen i'r safonau fod yn ddigon clir.[356]

382. Nododd Canolfan Llywodraethiant Cymru bryder y gallai'r amrywiaeth mewn safonau achosi problemau wrth geisio sefydlu cyfundrefn orfodi effeithiol:

> "The nature of the standards must be clear so that they can be enforced. At the same time they must be reasonable and

[354] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.6
[355] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10
[356] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9

> proportionate depending on the nature of particular bodies otherwise they might be considered to be illegal, because they are unreasonable. To meet this requirement, it may prove difficult to establish an overall effective enforcement regime when there could be a variety of standards applicable."[357]

383. Roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn bryderus bod rôl y dinesydd yn y broses o orfodi safonau yn gymharol gyfyngedig. Meddai Emyr Lewis:

> "Gall y dinesydd gwyno am fethiant i gadw at hysbysiad cydymffurfio, a gall roi tystiolaeth, ond wedi hynny, dyna ddiwedd ar ymwneud ffurfiol y dinesydd yn y broses.
>
> ...gallesid ystyried rhoi rhyw fath o rwymedi i'r dinesydd, lle dioddefodd yn sgil methiant awdurdod cyhoeddus i gadw at safonau iaith o fewn rhai cyd-destunau penodol, er enghraifft gofal iechyd cynradd, gofal cymdeithasol neu fynediad i addysg Gymraeg."[358]

384. Cyfeiriodd Emyr Lewis hefyd at y ffaith nad oedd y dinesydd yn rhan ddigon amlwg o'r broses orfodi:

> "Ble mae'r dinesydd yn ffitio i mewn? Gall dinasyddion wneud cwyn i'r comisiynydd os na chedwir at delerau hysbysiadau cydymffurfio, fel y'u gelwir, sef y cynlluniau iaith. Gall y comisiynydd gynnal ymchwiliad, paratoi adroddiad a gwneud argymhellion. Os oes nifer fawr o amodau eraill wedi'u cyflawni, gall y comisiynydd osod sancsiwn ar y corff cyhoeddus. Serch hynny, hyd y gwelaf i, nid oes cyfle yn y Mesur arfaethedig hwn i'r dinesydd, heblaw rhywun sydd yn rhoi tystiolaeth, gymryd rhan bellach. Mae'r Mesur arfaethedig hwn mor gymhleth ac y mae'r darpariaethau hyn mor drwm, fy mhryder i yw y bydd siaradwyr Cymraeg cyffredin—pobl sydd yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg a'r rhai sydd yn dymuno dysgu'r Gymraeg—yn meddwl bod y peth yn ddryswig fiwrocrataidd. Hefyd, mae ymwneud rhywun yn dod i ben ar y pwynt lle mae'n gwneud cwyn. Yr wyf yn pryderu y bydd pobl yn gweld hynny'n ddiflas o safbwynt y Mesur arfaethedig hwn."[359]

---

[357] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[358] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9
[359] Cofnod y Trafodion, paragraff [60], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

385. Pan ofynnwyd iddo sut oedd datrys hyn, meddai Emyr Lewis:

> "Rhywbeth llawer symlach, yn fy marn i. . . Hoffwn weld rhyw ffordd o wneud iawn â'r unigolyn sydd wedi dioddef—rhaid bod yr unigolyn wedi dioddef, a dylid sicrhau rhyw ffordd o wneud iawn yn y cyd-destun hwnnw, boed hynny'n orchymyn i ddarparu'r gwasanaeth er lles yr unigolion, y gellir ei orfodi drwy'r llysoedd, os oes rhaid, neu yn iawn ariannol mewn amgylchiadau priodol. Dyna un ffordd o glymu'r dinesydd i mewn yn fwy a sicrhau eich bod yn rhoi hawliau."[360]

386. Mewn ymateb i ragor o gwestiynu am y mater, dywedodd Emyr Lewis:

> "…yr hawl sydd gan y dinesydd ar hyn o bryd yw i wneud cwyn. Gallai'r dinesydd deimlo'n well o wybod bod gan y comisiynydd yr hawl i roi amser caled i'r corff cyhoeddus ac i osod sancsiynau neu ei ddirwyo. Byddai hynny, o bosibl, yn ddigon o iawn i rai pobl. Ni chredaf fod hynny'n creu hawliau fel y cyfryw. Os y bwriad yw i greu hawliau, mae angen cael rhyw fath o ddeilliant sy'n gwneud iawn i'r sawl a ddioddefodd. Rhaid pwysleisio bod hyn yn gymwys dim ond os yw rhywun wedi methu â chydymffurfio mewn ffordd sy'n peri dioddefaint, ac ni fyddai gan rywun sy'n hawlio mewn amgylchiadau afresymol neu anghymesur unrhyw hawl o dan yr hyn yr wyf yn ei awgrymu."[361]

387. Nododd Mentrau Iaith Cymru bryderon tebyg i Emyr Lewis, gan ddweud:

> "Mae'r Mesur arfaethedig yn teimlo fel ei fod yn pwyso i ffwrdd o'r dinesydd—nid yw'r dinesydd yn ganolog iddo. Un enghraifft benodol yw sefydliad sy'n dod o dan rym y comisiynydd am beidio â chyrraedd y safonau, neu beth bynnag. Ar sawl adeg, mae'r sefydliad hwnnw'n cael apelio os nad yw'n cytuno â'r penderfyniad. Fodd bynnag, ni welaf hawl i'r unigolyn apelio os nad yw'n cytuno ag unrhyw benderfyniad a wnaed gan y comisiynydd o ran sefydliad neu a wnaed mewn tribiwnlys—neu rywle ar hyd y llwybr hwnnw. Ni all yr unigolyn godi ei lais eto i ddweud nad yw'n hapus gyda'r hyn sy'n digwydd. Mae digon o

---

[360] Cofnod y Trafodion, paragraff [62], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[361] Cofnod y Trafodion, paragraff [114], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> gyfleoedd ar hyd y llwybr hwnnw i'r sefydliad gwyno, ond nid yw hynny'n wir am y dinesydd."[362]

388. Roedd gan Fwrdd yr Iaith bryderon tebyg:

> "…nid yw'r safonau'n arwain at yr hawliau cyfreithiol hynny... mae elfen o ymbweru, sy'n wahanol, ond nid yw ymbweru ynddo'i hun yn rhoi pŵer cyfreithiol. Yr hyn y mae yn ei wneud efallai yw gwneud i rywun deimlo'n well wrth herio, er nad yw o reidrwydd yn cynnig y ffynhonnell i herio. Un peth yr ydym wedi'i nodi o ran y Mesur arfaethedig yw'r ffaith nad ydyw hyn yn rhoi grym i unigolyn fynd yn uniongyrchol i'r llys."[363]

389. Nododd Llais Defnyddwyr Cymru y gellid cynnwys dinasyddion yn well drwy sicrhau bod y Comisiynydd yn rhoi adborth i gwynion yn ystod pob cam, gan nodi, o dan y Mesur arfaethedig, bod adborth o'r fath yn dueddol o fod yn gyfyngedig nes y gwneir y penderfyniadau terfynol. Cyfeiriwyd yn benodol ganddynt at adran 81 o'r Mesur arfaethedig, sy'n rhoi pŵer i'r Comisiynydd gyhoeddi methiant gan gorff i gydymffurfio â'r safon, neu ei gwneud yn ofynnol i'r corff ei hun gyhoeddi hynny.[364] Awgrymodd Llais Defnyddwyr Cymru y dylai'r dinesydd gael adborth yn ystod pob cam ac y dylai'r ddyletswydd i gadw mewn cysylltiad â'r sawl sy'n cwyno fod wedi'i chynnwys yn y Mesur arfaethedig ei hun.[365]

390. Nododd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn credu bod angen i'r broses orfodi fod yn hyblyg. Dywedodd Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain:

> "It is to be hoped that the system of enforcement would be one of persuasion in the first instance, that it took note of the practicalities of offering bilingual services particularly in difficult financial times. The measure sounds quite draconian as it is not clear as to how exactly it would operate."[366]

391. Roedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru yn gobeithio y byddai'r drefn orfodi yn gyson â threfniadau tebyg:

---

[362] Cofnod y Trafodion, paragraff [272], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[363] Cofnod y Trafodion, paragraff [132], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[364] O dan adran 72 o'r Mesur arfaethedig, os bydd ymchwiliad gan y Comisiynydd wedi deillio o gŵyn gan aelod o'r cyhoedd, rhaid i'r person hwnnw hefyd gael copi gan y Comisiynydd o'i adroddiad a'i benderfyniad
[365] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 37
[366] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 20

> "... enforcement of Welsh Language legislation should have parity with enforcement of the raft of other equalities legislation in Wales."[367]

392. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y cosbau sifil a all gael eu gosod am beidio â chydymffurfio â safonau. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn briodol gosod cosbau sifil. Meddai BT Cymru:

> "Mae gorfodaeth a chosbau yn rhan bwysig o sicrhau chwarae teg. Ni allwn gael chware teg heb sicrhau bod y safonau sy'n cael eu gosod yn addas a bod pawb yn eu dilyn. Mae BT yn gwmni sy'n cadw at y gyfraith, ac felly, os na fydd y cosbau yn ddigonol, ni fyddai'n hoffi gweld cwmnïau eraill yn penderfynu gwneud llai a derbyn y cosbau yn hytrach na chydymffurfio."[368]

393. Serch hynny, aethant yn eu blaenau i fynegi rhywfaint o bryder am osod cosbau ariannol:

> "Mae hyn yn dangos perygl gorfodi yn y sector preifat. Unwaith yr ydych yn dechrau mynd i lawr llwybr gorfodi, yr ydych yn dechrau sôn am sancsiynau, a rhaid i sancsiynau fod yn sylweddol er mwyn iddynt fod yn realistig. Mae hon yn enghraifft dda o pam nad yw gorfodi yn syniad da."[369]

394. Roedd y Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol yn credu y dylid eithrio'r sector preifat rhag cosbau sifil:

> "Any fine or penalty on a commercial organisation for not supplying a service that is commercially unattractive would not be helpful. As I said, any fines or penalties that have to be paid would detract from our investment elsewhere."[370]

395. Nododd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad bod potensial i effaith y gosb sifil uchaf o £5,000 am fethu â chydymffurfio amrywio'n sylweddol, a hynny'n dibynnu ar faint ac adnoddau'r sefydliad dan sylw. Meddai Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU:

> "Again, you have the question of the complexity of the sector. What counts as a serious fine for a very small operator might be trifling for a bigger operator, and what might be a serious

[367] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 21
[368] Cofnod y Trafodion, paragraff [217], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[369] Cofnod y Trafodion, paragraff [220], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[370] Cofnod y Trafodion, paragraff [326], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

fine for a bigger operator might be quite devastating for a small operator."[371]

396. Cyfeiriodd Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru at yr effaith sylweddol y gallai'r gosb sifil uchaf o £5,000 ei chael ar fusnesau bach, o'i chymharu â'r effaith ar fusnesau mawr:

> ". . . on the ability to appeal and challenge, I would say that the same is true for small businesses. It may not be as easy, financially or practically, for a small business to go through that process as it would be for a business with more resources. For a microbusiness with an average turnover in Wales, £5,000 would be quite a large sum."[372]

397. Nid ar sefydliadau'r sector preifat yn unig y gallai cosb sifil o £5,000 fod yn faich sylweddol. Nododd Simon White o Un Llais Cymru y canlynol am effaith bosibl cosb sifil o'r fath a'r gynghorau cymunedol:

> "The important point is that it needs to be proportionate and reasonable. If you have a situation where a maximum fine of £5,000 is given to a community council that has set a precept of less than £10,000—and half of the community councils in Wales have a precept of £10,000 or less—clearly, it would be a very significant issue. Hopefully, we will never get to that situation, but it is important that the scale at which community and town councils operate is capable of being reflected in the proposed Measure as it is finally applied."[373]

398. Nododd Grŵp y Post Brenhinol y byddai'n well gan rai sefydliadau dalu'r gosb sifil yn hytrach na chyflawni'r dyletswyddau:

> "As a matter of interest, when we read about the enforcement details, we were not clear about whether the figure of £5,000 would be a one-off cost to an organisation for non-compliance. One needs to be careful that an organisation might not decide that it would be better off paying the fine rather than complying, unless it is a recurring, everyday cost. That is not clear at all in the proposed Measure, or at least we could not see it when we looked at it. So, if there is to be enforcement,

---

[371] Cofnod y Trafodion, paragraff [223], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[372] Cofnod y Trafodion, paragraff [270], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[373] Cofnod y Trafodion, paragraff [65], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

we will comply with it, but we do not have a particularly strong view about whether it is a good or bad enforcement process."[374]

399. Gwnaeth Scottish Power bwynt tebyg:

> "In general, we believe that the penalties should be set high enough to discourage companies from ignoring any legislation and ensure that they comply, but they should probably not be at such a high level that they put off some organisations from continuing to trade in Wales, which would be the case if they were set excessively high. They would also need to relate to the degree of seriousness of the breach. There should be some discussion about what is considered to be a breach, the quantum of breaches and their seriousness."[375]

**Tystiolaeth y Gweinidog**

400. O ran y pryderon a nodwyd gan rai o'r ymatebwyr am rôl gyfyngedig y dinesydd wrth i safonau gael eu gorfodi, cynigiodd y Gweinidog sawl esboniad. Roedd un yn seiliedig ar y gosodiad bod y system safonau yn creu hawliau torfol — sef hawliau sydd i'w rhoi ac i'w gorfodi ar ran cymuned gyfan. Gan hynny, ni fyddai system orfodi i'w defnyddio gan unigolion yn briodol:

> "Mae dwy ffordd o ddod at y sefyllfa hon. Drwy sefydlu dyletswyddau neu safonau sy'n cael eu goruchwylio gan gomisiynydd, yr ydym yn ceisio sefydlu system o hawliau; mae'r hawliau i'w mwynhau gan gymuned gyfan ac yn cael eu gorfodi ar ei rhan, sef, yn yr achos hwn, siaradwyr Cymraeg. Hynny yw, hawliau cyfansawdd ydynt, nid hawliau unigol i'r sawl sydd eisiau herio'r materion hyn yn y llys ac sy'n gallu gwneud hynny. Wrth roi dyletswydd ar gyrff i gyflwyno gwasanaeth i'r unigolyn, mae'r ddyletswydd honno'n gorwedd gyda chomisiynydd sy'n gweithredu ar ran grŵp o bobl. Y comisiynydd sydd wedyn yn gweithredu os bydd unigolyn yn teimlo nad yw'r gwasanaeth hwnnw wedi'i gynnig iddo."[376]

401. Roedd hi'n ymddangos bod cyfiawnhad arall yn seiliedig ar yr awydd i allu ymateb yn hyblyg pan na fydd personau wedi

[374] Cofnod y Trafodion, paragraff [199], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[375] Cofnod y Trafodion, paragraff [282], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[376] Cofnod y Trafodion, paragraff [263], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

cydymffurfio â safonau, Byddai hynny'n gweddu'n well, yn ôl awgrym y Gweinidog, i swydd y Comisiynydd:

> "Drwy'r Mesur arfaethedig hwn, byddwn yn gosod y dyletswyddau ar y cyrff priodol, a rhaid iddynt fod yn gymesur, ac wedyn, bydd gan yr unigolion yr hawl i dderbyn y gwasanaeth. Os nad ydynt yn derbyn y gwasanaeth y cytunwyd arno gan y comisiynydd drwy'r safonau hyn, bydd ganddynt le i fynd, sef at y comisiynydd. Bydd y comisiynydd wedyn yn penderfynu'r ffordd briodol i gorff neu berson weithredu i wneud iawn am y tramgwydd. Gallai hynny olygu bod corff neu berson yn newid ei ffordd o weithio drwy gyfrwng cyfarwyddyd polisi a datblygu polisi, neu, yn y pen draw, os bydd corff eisiau'r sylw drwg gallai gael ei landio â chosb."[377]

402. Cyfeiriodd y Gweinidog at y baich y gallai unigolion ei wynebu (pan fyddant yn honni nad ydynt wedi cael y manteision a ddylai ddeillio o'r safonau) os bydd angen iddynt gymryd camau gorfodi eu hunain:

> "Gall unrhyw un wneud y gwŷn honno i'r comisiynydd. O'i wneud fel arall, a rhoi'r cyfan ar yr unigolyn, byddai rhai unigolion efallai'n teimlo nad ydynt yn ddigon abl i herio'r peth mewn tribiwnlys neu lys barn. Nid dyna'r ffordd yr ydym eisiau edrych ar y broses hon, ond drwy osod hawliau torfol. Credaf mai dyna'r ffordd briodol o fynd ymlaen a'r ffordd mwyaf cymwys i fwyafrif ein dinasyddion."[378]

403. Ychwanegodd:

> "Hyd yn oed pe bai unigolion o dan drefn wahanol yn herio rhywbeth, gallai corff benderfynu dioddef yr her gan feddwl nad yw'n golygu dim iddo, achos ei fod yn ddigon mawr a phwerus i'w anwybyddu a thalu pa iawndal bynnag a fynnir. Nid yw hynny'n gwella'r sefyllfa, sut bynnag, gan y gall corff gario ymlaen yn union fel ag yr oedd o'r blaen. Credaf fod y system a gynigir yn y Mesur arfaethedig yn rhoi llawer mwy o gryfder i achos rhywun sydd eisiau defnyddio gwasanaeth cyfrwng Cymraeg."[379]

---

[377] Cofnod y Trafodion, paragraff [266], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[378] Cofnod y Trafodion, paragraff [264], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[379] Cofnod y Trafodion, paragraff [267], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

404. Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch a ellid gosod uchafswm o £25,000 o gosb sifil, er enghraifft, os bydd un person wedi gweithredu'n groes i'r ddeddfwriaeth ar bum achlysur gwahanol, dywedodd y Gweinidog y bydd gan y Comisiynydd "bob math o ddulliau o fewn ei awdurdod er mwyn ymdrin ag unrhyw gŵyn neu unrhyw dramgwyddo ar safonau."[380] Ychwanegodd y Gweinidog:

> "Byddem yn disgwyl gweld proses raddedig a synhwyrol cyn ein bod yn cyrraedd y man lle mae cosb yn cael ei gosod. Gall hynny fod yn unrhyw beth o alwad ffôn sy'n esbonio'r hyn sydd wedi digwydd mewn sefyllfa arbennig i ymchwiliad llawn. Yn y pen draw, £5,000 yw'r swm mwyaf y gellir ei osod os oes rhywun yn tramgwyddo."[381]

405. Rhoddodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog y wybodaeth a ganlyn ynghylch faint o gosb sifil y gellid ei gosod ar un person:

> "Os oes pum achos ar wahân o ddiffyg cydymffurfio neu bum tramgwydd ar wahân, yna byddai'n bosibl gosod cosb sifil o hyd at £5,000 ym mhob achos. Fodd bynnag, cyn i'r comisiynydd osod cosbau sifil, mae'r Mesur arfaethedig yn gofyn iddo ystyried difrifoldeb y tramgwydd ac amgylchiadau'r unigolyn."[382]

406. Nododd un o swyddogion eraill y Gweinidog:

> "Mae hefyd yn bwysig cofio, dan adran 97, fod angen i'r comisiynydd gyhoeddi dogfen polisi gorfodi sy'n gosod sut y mae'n bwriadu defnyddio'r ystod o ddulliau gorfodi a fydd ar gael, i'w gymeradwyo gan Weinidogion. Felly, er enghraifft, pe bai'r ddogfen honno'n dweud, 'Yr wyf yn bwriadu gosod cosb o £5,000 ar gorff bob tro y mae'n troseddu', efallai y byddai gan Weinidogion rywbeth i'w ddweud. Felly, mae hynny'n rhoi rhyw fath o *check and balance* er mwyn sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd resymol a chymesur."[383]

407. Ar ein cais ni, ysgrifennodd y Gweinidog atom yn rhoi eglurhad pellach ynghylch y pwynt hwn.[384]

---

[380] Cofnod y Trafodion, paragraff [267], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[381] Cofnod y Trafodion, paragraff [237], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[382] Cofnod y Trafodion, paragraff [242], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[383] Cofnod y Trafodion, paragraff [244], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[384] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, 30 Mehefin 2010

408. O ran yr awgrym y gallai amrywiaeth o safonau achosi problemau wrth sefydlu cyfundrefn orfodi a fyddai'n deg, yn effeithiol ac yn ddealladwy i bawb ar draws pob sector, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae'r gyfundrefn er mwyn sicrhau cydweddiad â'r dyletswyddau hynny'n mynd i fod yr un peth ac yn gyson i bawb. Felly, mae cysondeb o fewn y broses honno, er y gall y dyletswyddau fod yn wahanol o gorff i gorff."[385]

**Ein barn ni**

409. Rydym yn cydnabod y bydd y broses o orfodi safonau yn dibynnu ar ba mor eglur a manwl y caiff y safonau eu llunio. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai amrywiaeth mewn safonau (yn hytrach na'u heglurder) yn achosi problemau wrth orfodi safonau, o reidrwydd. **Rydym yn gymharol fodlon â'r gyfundrefn orfodi fel y'i hamlinellir yn Rhan 5 o'r Mesur arfaethedig, ar wahân i'r sylwadau penodol a nodwn isod.**

410. O ran cynnwys y dinesydd pan fydd y Comisiynydd yn rhoi'r broses orfodi ar waith, rydym yn nodi bod darpariaeth ar gyfer cynnwys dinasyddion yn y broses honno o dan adrannau 72 (dyfarnu ar ymchwiliad), 84 (ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol) a 94 (ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwyn ynghylch ymddygiad). Felly, rydym o'r farn bod y Mesur arfaethedig yn darparu i raddau ar gyfer cynnwys y dinesydd yn barhaol yn y broses ymchwilio.

411. Fodd bynnag, rydym yn ansicr a yw rôl gyffredinol y dinesydd yn y broses orfodi yn ddigonol, ac rydym yn rhannu'r farn mai pwerau cyfyngedig iawn, ar wahân i'r pŵer o allu cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd, sydd gan y dinesydd i sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu cymryd. Yn ein barn ni, mae sail i'r pryderon a nodwyd gan nifer o'r ymatebwyr ynghylch diffyg darpariaeth ar gyfer cynnwys dinasyddion yn y broses gwynion.

412. Felly, rydym yn pryderu nad yw dinasyddion yn cael eu cynnwys cymaint ag y byddai modd, a chredwn y dylid cryfhau'r darpariaethau hynny.

413. Rydym yn nodi'r cyferbyniad rhwng adran 100 o'r Mesur arfaethedig, sy'n creu darpariaeth i unigolion wneud cais i'r

---

385 Cofnod y Trafodion, paragraff [248], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth honedig â'r hawl i gyfathrebu yn Gymraeg, ac adran 70, nad yw'n creu darpariaeth debyg o ran ymchwilio i fethu â chydymffurfio â safonau. **Rydym yn argymell diwygio adran 70 er mwyn tynnu sylw at allu unigolion i ddechrau'r broses o gynnal ymchwiliad ac i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd orfod egluro penderfyniad i beidio â chynnal ymgynghoriad, sy'n debyg i'r gofyniad yn adran 103(6).**

414. Byddai modd creu darpariaeth hefyd i'r achwynydd apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd. Gan hynny, **rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried ffyrdd eraill sy'n amlygu'r modd y gall y cyhoedd gyfrannu at gyflawni amcanion y Mesur arfaethedig, a chredwn y dylid cyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw.**

415. O ran y gosb sifil uchaf o £5,000, rydym yn cydnabod, fel y nodwyd gan swyddogion y Gweinidog, y gallai'r gosb gael ei gosod sawl gwaith ar yr un sefydliad, bob tro y bydd methiant i gydymffurfio â safon. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r effaith wahanol y gallai cosb sifil o'r fath ei chael, yn dibynnu ar faint ac adnoddau'r sefydliad dan sylw. Fodd bynnag, rydym yn nodi mai dyma yw uchafswm y gosb sifil, ac y gallai cosb lai gael ei gosod, neu ddim cosb o gwbl, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

416. Rydym o'r farn bod y materion sydd wedi'u pennu yn adran 82(2) ac y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu hystyried wrth bennu lefel cosbau sifil yn sicrhau y bydd unrhyw gosb a osodir yn rhesymol ac yn gymesur. **Rydym yn fodlon, felly, gyda'r darpariaethau sy'n ymwneud â chosbau sifil.**

# 9. Rhan 6: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

## Y cefndir

417. Mae Rhan 6 (adrannau 100 – 108) o'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i ymyriadau honedig penodol â rhyddid personau yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.[386]

418. Mae Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi dyletswydd ar Gomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i Weinidogion Cymru ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith wrth ddiogelu'r rhyddid hwn.[387]

419. At hynny, mae'r Comisiynydd hefyd yn cael llunio a chyhoeddi adroddiadau ar ymchwiliadau penodol y bydd yn eu cynnal.[388]

## Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

420. Cytunai nifer o sefydliadau mewn egwyddor ag amcanion Llywodraeth Cymru, ac ar y cyfan roeddent yn cefnogi amcanion y Gweinidog i sicrhau bod gan bobl ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

421. Dywedodd Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain[389] a Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin[390] nad oedd gan bobl unrhyw gyfiawnhad dros ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a chytunent fod angen darpariaeth o'r fath yn y Mesur arfaethedig. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cytuno y dylai pobl gael y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.[391]

422. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn amlwg o blaid cynnwys darpariaethau'n ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn y ddeddfwriaeth:

> "Mae WLGA yn cytuno gyda'r cynnig yn y Mesur sy'n rhoi cyfrifoldeb ar y Comisiynydd i baratoi adroddiad blynyddol ar

---

[386] Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 3, Nodiadau Esboniadol
[387] ibid
[388] ibid
[389] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 20
[390] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 43
[391] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 265

effeithiolrwydd y gyfraith sy'n gofalu am ryddid pobl yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu a'u gilydd, ac i archwilio unrhyw honiadau o atal yr hawl hwn."[392]

423. Croesawodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru hefyd ddatblygiadau i sicrhau dull agored a chyson o ymateb i bryderon nad yw pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithle neu wrth gael gwasanaethau."[393]

424. Wrth gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru, teimlai Dŵr Cymru'n gryf y byddai siaradwyr Cymraeg yn elwa'n fawr ar y rhan hon o'r Mesur arfaethedig:

> "The introduction of this process should make it easier for members of the public to complain if they have a genuine grievance."[394]

425. Er eu bod yn cefnogi'r cysyniad na ddylid ymyrryd â'r defnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, mynegodd tystion eraill bryderon am yr hyn y gellid ei ddisgrifio'n ganlyniadau nas rhagwelwyd. Meddai SWALEC:

> "… [SWALEC] is very happy to ensure that members of staff are allowed to use Welsh in the workplace, however if an individual insisted for example on the right to speak Welsh in a meeting which would entail bringing in interpreters/translation of documents SSE would be extremely concerned."[395]

426. Ychwanegodd Nwy Prydain ei fod yn cefnogi'r egwyddor y dylai pobl yn y gweithle gael y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ond y byddai'n hoffi gwybod a fyddai hyn yn arwain at unrhyw oblygiadau penodol i'w fusnes.[396]

427. Er eu bod ar y cyfan yn cefnogi hawl siaradwyr Cymraeg i siarad Cymraeg yn y gweithle, roedd rhai sefydliadau yn pryderu bod yr adran hon yn cyflwyno system gyfreithiol eithaf llawdrwm i ymdrin â sefyllfa go anghyffredin, a sefyllfa y gellid ei datrys yn ddigon rhwydd yn ymarferol.

---

[392] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 23
[393] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 21
[394] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 11
[395] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 8 (mae SSE, sef Scottish and Southern Energy gynt, yn gweithredu yng Nghymru o dan frand SWALEC)
[396] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 22

428. Ychydig yn unig o werth a welai CBI Cymru yn y rhan hon o'r Mesur arfaethedig:

> "Part 6 is a large sledgehammer to nearly crack a small nut. I am not aware of any evidence that interference with the ability of people to speak Welsh in the workplace is a major issue. We have the example at Thomas Cook, but the fact that we are still talking about that five or six years on and that nothing else has cropped up in the meantime to replace it tells us all what we need to know, to be frank. The Thomas Cook example was dealt with. It was a clumsy application by a local branch manager that was dealt with reasonably swiftly and sensibly by the company at head office level.
>
> It took a huge amount of damage to its brand in the press, and we are still talking about it now. So why on earth would companies want to put themselves through that in the future? Yet, there are situations involving workforces where not everyone speaks Welsh, where you need to have the right to insist that people have to converse in English. I just think that that is common sense. My reading of Part 6 is that it does not confer an absolute right on individuals to use Welsh in the workplace. However, clearly it gives the commissioner the power to investigate and to issue a critical report. Frankly, the media will do that, generally; if it is a very large company, the media will jump on that and do it for the commissioner. So, I do not really see that Part 6 serves any useful purpose."[397]

429. Cytunai Grŵp y Post Brenhinol yn gryf â hyn:

> "People are absolutely entitled to use their language of choice in the workplace. We lean to the view held by the Confederation of British Industry, namely that this is rather a big weapon for a moderately small problem. In a sense, the fact that when an issue arises it becomes such a big new story so quickly demonstrates that point. Not only does it become a big news story fast, but as far as we can establish, nothing has ever occurred, other than that the ridiculous policy that created the problem in the first place is reversed. You then ask yourself

[397] Cofnod y Trafodion, paragraffau [278-279], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

why there is all this effort on legislation when this has never been a problem beyond the first event."[398]

430. Meddent hefyd:

"The evidence of the few high-profile instances of this shows that the court of public opinion offers the first source of justice for that situation, and policies generally get changed because of it. We have never faced that, and common sense and pragmatism in the workplace prevails."[399]

431. Fodd bynnag, roedd Mentrau Iaith Cymru yn anghytuno â'r farn hon. Pwysleisiodd y tystion fod darpariaeth i sicrhau bod gan unigolyn y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan angenrheidiol o'r Mesur arfaethedig, gan nad yw hynny'n cael ei warantu ym mhob sefyllfa ar hyn o bryd:

"...yn y byd go iawn, nid yw hynny'n wir drwy'r amser—ac mae pawb wedi clywed am enghreifftiau fel honno yn Thomas Cook ac ati. Felly, yn y byd go iawn, er bod rhyddid i siarad Cymraeg, mae lleoedd o hyd lle nad yw pobl yn cael siarad Cymraeg a maent yn cael ffrae am wneud os ydynt mewn gweithle ac ati, ac, o bosibl, fe'u cosbir. Nid ydym yn ymwybodol o sawl gwaith y mae hyn wedi digwydd mewn gweithleoedd ac nad ydym wedi cael gwybod amdano. Person dewr iawn sydd yn sefyll i fyny ac yn dweud wrth eu pennaeth bod ganddynt hawl i siarad Cymraeg a'u bod yn mynd i gwyno. Gobeithio, gyda'r Mesur arfaethedig, y bydd y broses honno'n fwy agored ac y bydd yn haws i unigolion fynd at y comisiynydd a gwneud rhywbeth yn ei gylch."[400]

432. Teimlai ymatebwyr eraill nad oedd yr elfen hon yn y Mesur arfaethedig yn ddigon pellgyrhaeddol. Teimlai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg nad oedd y ddarpariaeth yn dod law yn llaw â'r pwerau gorfodi a fyddai'n rhoi amcanion Llywodraeth Cymru ar waith yn effeithiol:

"Nid yw'r cymalau sydd yn delio â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn werth eu cadw oni bai y bydd gan y Comisiynydd bwerau i orfodi neu gosbi, lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau

[398] Cofnod y Trafodion, paragraff [218], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[399] Cofnod y Trafodion, paragraff [219], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[400] Cofnod y Trafodion, paragraff [293], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd."[401]

433. Adleisiwyd y farn hon gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru a holodd:

> "… whether there needs to be legislation governing the exercise of a "freedom" in circumstances where there is no machinery provided for enforcing breaches of such freedom."[402]

434. Mynegodd Mentrau Iaith Cymru bryderon ynghylch pa mor effeithiol oedd darpariaeth yn rhoi rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, gan ddadlau o blaid cyflwyno hawl i siarad yr iaith yn lle:

> "Nid yw'r Mesur yn rhoi hawl i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg.
>
> Rydym yn croesawu'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, ond teimlwn fod yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn sylfaen i'r rhyddid yma. Awgrymwn y dylai'r mesur iaith ddatgan bod gan bobl Cymru'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur."[403]

435. Roedd UCAC hefyd yn credu bod y Mesur arfaethedig yn ddiffygiol yn hyn o beth:

> "Gresynwn at y ffaith nad yw'r Mesur wedi manteisio ar y cyfle ... nodi fod defnyddio'r iaith Gymraeg yn hawl ddynol."[404]

436. Awgrymodd un o gyn-aelodau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ei bod yn bosibl mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn yn y lle cyntaf oedd drwy'r gyfraith gydraddoldeb bresennol:

> "Cyfeiriaf fy sylwadau yn benodol at gwestiwn 'hawl' siaradwyr y Gymraeg i ddefnyddio eu hiaith mewn mannau gwaith. Defnyddiaf y gair 'hawl' yn fwriadol gan nad wyf yn deall beth yw ystyr na grym cyfreithiol y gair 'rhyddid' fel y ceir ar hyn o bryd yn y Mesur arfaethedig... Y mae angen dealltwriaeth llawer mwy cadarn o gyfreithiau cydraddoldeb cyn mynd ymhellach â'r mater hwn."[405]

437. Ynghyd â'r pryderon hyn, teimlai nifer o sefydliadau fod y rhan hon o'r Mesur arfaethedig yn amwys ac yn aneglur. Teimlai nifer o

---

[401] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 47
[402] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[403] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 53
[404] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 52
[405] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 40

sefydliadau ac unigolion nad oedd modd iddynt wneud sylwadau am y darpariaethau oherwydd nad oedd digon o wybodaeth ar gael. Dywedodd un aelod o'r cyhoedd, a oedd yn cefnogi'r nod o ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i siarad Cymraeg:

> "[Nid wyf yn] deall yn iawn "beth wedyn", pe byddai'r fath ymyrraeth yn bod pa rym sydd i unioni'r sefyllfa."[406]

438. Pan holwyd Emyr Lewis am ddehongliad y Gweinidog[407] ynghylch y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â'r rhyddid i siarad Cymraeg (yn hytrach na'r hawl i wneud hynny), dywedodd Emyr Lewis nad oedd yn sicr ei fod "yn deall yr hyn oedd gan y Gweinidog dan sylw"[408] tra disgrifiodd yr Athro Colin Williams Ran 6 yn "nonsens llwyr."[409]

439. Cyfeiriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr at y diffyg eglurder ynghylch ystyr 'rhyddid', gan ddweud mai dyna oedd y brif broblem wrth geisio deall yr elfen hon yn y Mesur arfaethedig:

> "The Measure as it stands does not clearly define what is meant by the 'freedom to use Welsh' and does not offer a robust means by which that freedom can be upheld."[410]

440. Pwysleisiodd Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd pa mor bwysig oedd sicrhau "eglurder yn y Mesur … a hynny er mwyn cael y gefnogaeth gyfreithiol i unrhyw achosion o ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg"[411].

441. Croesawodd Un Llais Cymru yr hyn a welai'n amcan ganmoladwy, ond pwysleisiodd bod angen rhagor o eglurder ynghylch goblygiadau hyn yn ymarferol.[412] Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd y byddai'n croesawu "rhagor o fanylion am yr amcan hwn cyn gwneud sylwadau."[413]

442. Awgrymodd nifer o sefydliadau nad oedd angen Rhan 6 yn y Mesur arfaethedig o gwbl ac y dylid cael gwared arno'n llwyr.

---

[406] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 18
[407] Cofnod y Trafodion, paragraff [201] 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[408] Cofnod y Trafodion, paragraff [125], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[409] Cofnod y Trafodion, paragraff [257], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[410] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 26
[411] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 49
[412] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 245
[413] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 55

443. Gwrthwynebai Emyr Lewis Ran 6 ar y sail y gallai'r ansicrwydd ynghylch ei ystyr arwain at ganlyniadau anfwriadol, hyd yn oed i siaradwyr Cymraeg eu hunain:

> "Ofnaf fod y darpariaethau hyn yn awgrymu rheoleiddio'r sefyllfaoedd lle gall pobl siarad Cymraeg â'i gilydd. Am y rheswm hwnnw, byddai'n well gen i weld y rhan hon yn cael ei gollwng o'r Mesur."[414]

444. Wrth gael ei holi, meddai:

> "Ni chredaf ei fod yn briodol o gwbl i unrhyw swyddog neu Lywodraeth i ymyrryd yn y math hwnnw o drafodaeth. Rhaid datrys y math hwnnw o beth ar lawr gwlad o fewn y gymuned ac o fewn cymdeithas. Fy mhryder i ynghylch yr hyn a fwriedir yw ei fod yn ymddangos fel cam cyntaf—nid dyna'r bwriad, ond dyna sut mae'n ymddangos—tuag at ddechrau dyfarnu ar y sefyllfaoedd lle mae hi, a lle nad yw hi, yn briodol i bobl sy'n dymuno siarad Cymraeg gyda'i gilydd i wneud hynny. Nid wyf am inni gychwyn ar hyd y lôn hwnnw."[415]

445. Cytunai Bwrdd yr Iaith Gymraeg ag Emyr Lewis, gan ychwanegu:

> "Gallai'r comisiynydd bigo'r mater hwn i fyny drwy ei ddyletswyddau cyffredinol beth bynnag, felly efallai nad oes angen rhoi cymaint o sylw iddo mewn Mesur arfaethedig sy'n hirfaith yn barod."[416]

446. Pwysleisiodd y Bwrdd hefyd nad yw'r adran hon yn cyflawni'r amcan o warchod rhyddid siaradwyr Cymraeg yn y gweithle:

> "Mae hyn wedi codi'n uniongyrchol o'r achos yn ymwneud â Thomas Cook yn y gorffennol. Nid ydym yn sicr bod yr hyn sydd yn y Mesur arfaethedig yn mynd i ateb y gofynion hynny yn y dyfodol. Yn sicr, pan godir y math hwnnw o achos, mae'n cael sylw yn y wasg. Dyna sy'n newid y sefyllfa ac yn creu newid yn y gweithle. Nid wyf yn sicr a yw'r Mesur arfaethedig hwn yn ateb yr angen hwnnw yn uniongyrchol."[417]

---

[414] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9
[415] Cofnod y Trafodion, paragraff [117], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[416] Cofnod y Trafodion, paragraff [134], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[417] Cofnod y Trafodion, paragraff [136], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

447. Teimlai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg bod y Rhan hon o'r Mesur arfaethedig "bron yn ddiwerth."[418] Meddent:

> "Mae'n hynod arwyddocaol i ni ... fod adran sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, oherwydd mae'n cydnabod bod y sefyllfa hon yn broblemus. Ond y broblem yw na fyddai Rhan 6 ar ei ffurf bresennol yn mynd i'r afael â'r sefyllfa o gwbl, na chynnig proses na goblygiadau i wneud yn iawn am y sefyllfa. Mae'n hollbwysig inni gofio nad eithriad oedd achos Thomas Cook. Y gwir amdani yw pe bai gan y comisiynydd rym i weithredu canlyniad ymchwiliad, a phe bai gan yr unigolyn yr hawl i herio sefyllfa yn y gweithle, byddai Adran 6 yn rymus tu hwnt wrth sicrhau cyfiawnder i siaradwyr Cymraeg. Yr ydym yn colli cyfle gwirioneddol."[419]

448. Cytunai Mudiadau Dathlu'r Gymraeg â barn Cymdeithas yr Iaith. Meddent:

> "…mae'n cydnabod bod problem ond mae wedi creu datrysiad drwy rhyw gymal diwerth i greu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg."[420]

449. Wrth gael eu holi, dywedodd Grŵp y Post Brenhinol[421] a Scottish Power[422] yn ddiamwys y dylid cael gwared yn llwyr ar Ran 6 o'r Mesur arfaethedig. Cytunai CBI Cymru gan ddweud nad oedd angen y Rhan hon am nad oedd iddi unrhyw ddiben defnyddiol.[423]

**Tystiolaeth y Gweinidog**

450. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog bod Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig yn angenrheidiol i ymdrin â sefyllfaoedd "lle mae rhywun yn teimlo bod ei ryddid i siarad Cymraeg wedi cael ei rwystro."[424] Mewn sefyllfa o'r fath, esboniodd y Gweinidog:

---

[418] Cofnod y Trafodion, paragraff [124], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[419] ibid
[420] Cofnod y Trafodion, paragraff [220], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[421] Cofnod y Trafodion, paragraff [221], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[422] Cofnod y Trafodion, paragraffau [307-8], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[423] Cofnod y Trafodion, paragraff [279], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[424] Cofnod y Trafodion, paragraff [221], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

> "Bydd gan y comisiynydd hawl i ymchwilio i achosion o'r fath ac i gyflwyno adroddiad cyhoeddus, gan obeithio y bydd hynny'n ddigonol i sicrhau'r rhyddid hwnnw ym mhob man."[425]

451. Wrth gael ei holi gan yr Aelodau, amlinellodd un o swyddogion y Gweinidog ym mha sefyllfaoedd penodol y byddid wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl y Mesur arfaethedig:

> "Mae'n bwysig sylweddoli bod hyn yn ymwneud â rhyddid dau berson sydd eisiau siarad Cymraeg â'i gilydd i wneud hynny. Nid yw o reidrwydd yn ymwneud â pherthynas person â chorff cyhoeddus, neu â sefyllfa pan fo rhywun yn dymuno cael gwasanaeth gan gorff cyhoeddus. Er enghraifft, efallai fod dau ffrind mewn canolfan hamdden eisiau siarad Cymraeg â'i gilydd, ond bod rhywun yn ymyrryd â'r rhyddid hwnnw…
>
> Gall fod yn rheolwr mewn gweithle yn gofyn i ddau berson i beidio â siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn y fan a'r lle. Gall fod yn gydweithwyr yn bwlio dau berson gan eu bod yn siarad Cymraeg—yn eu pryfocio drwy ddweud ei fod yn iaith hurt ac yn eu dynwared. Gall fod yn rheolwr yn dweud wrth ddau berson i beidio â siarad Cymraeg yn y dyfodol. Gall hefyd fod yn rheolwr yn symud dau berson sy'n hoffi siarad Cymraeg gyda'i gilydd i'r naill ben a'r llall o'r swyddfa er mwyn eu rhwystro rhag siarad Cymraeg, ac y math hwnnw o beth."[426]

452. Wrth ymateb i bryderon gan dystion ynghylch Rhan 6, amddiffynnodd y Gweinidog yr hyn y disgrifiodd yn "ffordd ganol" ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd "lle mae person yn teimlo yr amharwyd ar ei ryddid i siarad Cymraeg"[427].

453. Esboniodd y Gweinidog:

> "Yr ydym wedi dweud y byddem yn adolygu'r broses hon pe baem yn teimlo nad oedd y drefn yn gweithio neu pe bai'n aneffeithiol. Mae hynny'n hollol groes i'r hyn a ddywedodd [ CBI Cymru], sef ein bod yn defnyddio gordd i dorri cneuen. Mae'n ffordd hollol gymesur o ddelio â sefyllfa nad yw'n ymddangos yn gyffredin."[428]

---

[425] Cofnod y Trafodion, paragraff [201], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[426] Cofnod y Trafodion, paragraffau [203 a 211], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[427] Cofnod y Trafodion, paragraff [251], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[428] Cofnod y Trafodion, paragraff [252], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

454. Anghytunai'r Gweinidog hefyd â'r galwadau gan rai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y dylid cael gwared yn llwyr ar Ran 6 o'r Mesur arfaethedig.[429] Anghytunai hefyd â barn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg nad oedd diben cadw'r adrannau hyn.[430]

455. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r pryderon, cydnabu'r Gweinidog "y byddai'n ddoeth" monitro'r broses o roi'r Rhan hon ar waith er mwyn "gweld a yw'r hyn yr ydym wedi ei awgrymu yn effeithiol neu yn berthnasol."[431] Ychwanegodd y Gweinidog:

> "Os yw'n amherthnasol, ni fydd unrhyw ddefnydd ohono ac os yw'n annigonol, daw hynny i'r amlwg a chaiff Llywodraethau'r dyfodol benderfynu a oes angen deddfu yn y maes."[432]

**Ein barn ni**

456. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan sefydliadau sy'n credu bod y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddarpariaeth bwysig sy'n werth ei chadw yn y Mesur arfaethedig. Er ein bod yn cydnabod bod achosion o'r fath yn gymharol anghyffredin, rydym yn derbyn y gall fod sefyllfaoedd lle na chaiff pobl siarad Cymraeg gyda'i gilydd, a dylid cael ffyrdd o sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

457. Nodwn bryderon rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad sy'n credu nad yw'r pwerau a roddir i'r Comisiynydd yn ddigon effeithiol na chryf i roi modd digonol i unigolion ddatrys y sefyllfa mewn achosion pan amharwyd ar eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, o gofio bod gan y Comisiynydd bwerau eang o dan adran 3 o'r Mesur arfaethedig, nid ydym yn credu bod dadleuon y rheini a ddywedodd y dylid ehangu swyddogaethau gorfodi ac ymchwilio'r Comisiynydd yn dal dŵr. **Rydym yn credu bod darpariaethau digonol eisoes i'w cael mewn adrannau eraill o'r Mesur arfaethedig, yn benodol o dan adran 3, a fydd yn caniatáu i'r Comisiynydd ymdrin â chwyn yn ymwneud â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.**

458. Nodwn a chydnabyddwn y dystiolaeth a gafwyd gan sefydliadau ac unigolion sy'n teimlo bod Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig yn aneglur, yn rhy gymhleth ac yn astrus. Derbyniwn hefyd yr awgrym bod y

---

[429] Cofnod y Trafodion, paragraff [257], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[430] Cofnod y Trafodion, paragraff [257], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[431] Cofnod y Trafodion, paragraff [257], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[432] ibid

ddeddfwriaeth bresennol ym maes cydraddoldeb yn ffordd well o ymdrin ag achosion sy'n ymwneud ag ymyrryd ar ryddid i unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. **Felly, er eglurdeb a chywirdeb, ac o gofio'r pwerau a fydd gan y Comisiynydd, rydym yn credu y dylid defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol ym maes cydraddoldeb er mwyn ymdrin ag unrhyw achosion sy'n ymwneud ag ymyrryd ar ryddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.**

459. Er gwaethaf sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn monitro'r ddeddfwriaeth hon yn ofalus unwaith y caiff ei rhoi ar waith, **yn ein barn ni, os bydd y Gweinidog yn derbyn ein hargymhelliad i gynnwys datganiad clir ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yn Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig, ni fyddai angen darpariaeth ddilynol i ddiogelu rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r iaith. Byddai'r datganiad ynddo'i hun yn diogelu rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol. Os gwneir y newid hwnnw i'r Mesur arfaethedig, credwn y dylid cael gwared ar Ran 6 yn llwyr.**

## 10. Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg

### Y cefndir

460. Mae Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig (adrannau 109 -124) yn sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ac yn gwneud darpariaethau cysylltiedig. Mae'r Tribiwnlys i gynnwys Llywydd, aelodau sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ac aelodau lleyg, ac maent i'w penodi gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 8.47 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am swyddogaethau ysgrifenyddol y Tribiwnlys, a hynny er mwyn cadw'r costau mor isel â phosibl.

### Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

461. Ni roddodd llawer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad farn benodol ynghylch sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg.

462. Yn ôl Canolfan Llywodraethiant Cymru:

> "It is agreed that it is helpful to establish a Welsh Language Tribunal to give an independent assessment of the Commissioner's decisions on the enforcement of the prescribed standards."[433]

463. Fel yn achos Comisiynydd y Gymraeg, roedd rhywfaint o bryder ynghylch ai Gweinidogion Cymru ddylai benodi'r Tribiwnlys. Byddai'n well gan Emyr Lewis weld y Cynulliad Cenedlaethol yn penodi'r aelodau, a nododd fod y dadleuon o blaid hynny yn gryfach, os rhywbeth, gan y byddai i'r Tribiwnlys swyddogaethau barnwrol.[434] Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru yntau mai'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai benodi'r Tribiwnlys.[435]

464. Dywedodd y Mobile Broadband Group y canlynol am y Tribiwnlys:

> ". . . [as it] forms a key element of government policy, it must demonstrably be acting independently of the WAG. At Schedule 11, Part 2, section 9 (2), the Proposed Measure should specifically mention that one of the principles to be followed in drawing up the appointment Regulations is that the

[433] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 27
[434] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9
[435] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 266

Tribunal must be independent of government (and, clearly, the WLC)."[436]

465. Fodd bynnag, teimlai BT Cymru:

> Ni chredaf fod rheswm i feddwl na fyddai'n annibynnol. Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod system sy'n weddol debyg i lawer o dribiwnlysoedd eraill.[437]

466. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod pwyllgor Cymru o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn ddiweddar wedi cyhoeddi adolygiad o'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru[438] ac argymhellodd y Gymdeithas y dylid dwyn hynny i gof wrth sefydlu'r tribiwnlys.[439]

## Tystiolaeth y Gweinidog

467. Nid oedd y Gweinidog yn cytuno na fyddai'r Tribiwnlys yn ddigon annibynnol ar Weinidogion Cymru (neu'r Comisiynydd). Meddai:

> "Mae enghreifftiau eraill o dribiwnlysoedd yn bod ac nid wyf wedi clywed y fath feirniadaeth o dribiwnlysoedd eraill. Byddant yn cael eu penodi mewn ffyrdd tebyg a chan ddilyn gweithdrefnau tebyg i'r tribiwnlysoedd eraill."[440]

468. Holwyd y Gweinidog hefyd pam mai Gweinidogion Cymru a fyddai'n gyfrifol am swyddogaethau ysgrifenyddol y Tribiwnlys, a hynny ar sail y gost. Meddai'r Gweinidog:

> "Y gobaith yw y bydd y tribiwnlys hwn yn eistedd yn anaml iawn. Gan nad yw hi'n synhwyrol i sefydlu strwythur drud gyda'r disgwyliad y bydd yn eistedd bob wythnos neu fis neu faint bynnag, mae'n well ar hyn o bryd i wneud hynny gyda gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, os gwelwn fod hynny'n annigonol neu wedi'i gyfaddawdu mewn rhyw ffordd, gallwn edrych ar drefniadau newydd yn y dyfodol."[441]

---

[436] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 31
[437] Cofnod y Trafodion, paragraff [227], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[438] http://www.ajtc.gov.uk/welsh/publications.htm
[439] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 10
[440] Cofnod y Trafodion, paragraff [213], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[441] Cofnod y Trafodion, paragraff [215], 17 Mawrth 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

**Ein barn ni**

469. **Rydym yn derbyn dadleuon y Gweinidog ynghylch trefniadau gweinyddol y Tribiwnlys.**

470. O ran penodi'r Tribiwnlys, yn unol â'n hargymhelliad ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg a'r Panel Cynghori, credwn y **dylai aelodau'r Tribiwnlys gael eu henwebu gan Weinidogion Cymru a'u cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw.**

# 11. Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg ac ati

## Y cefndir

471. Mae Rhan 9 o'r Mesur arfaethedig (adrannau 134 – 138) yn gwneud darpariaeth ynghylch disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r trefniadau ar gyfer llunio Cynlluniau Iaith Gymraeg a geir yn Neddf 1993, ynghyd â darpariaeth i ddirymu'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf honno.

472.Mae adrannau 134 i 136 yn gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau pontio o'r system bresennol (sef honno a geir yn Neddf 1993) i'r system newydd o dan y Mesur arfaethedig hwn, a hynny fesul tri cham.

473.Mae adrannau 137 i 138 ac Atodlen 12 yn gwneud darpariaethau atodol a darpariaethau eraill mewn perthynas ag adrannau 134 i 136.

## Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

474. Fel y dengys rhywfaint o'r dystiolaeth ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn, mynegwyd pryderon ynghylch y cyfnod pontio wrth drosglwyddo swyddogaethau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg, ac wrth drosglwyddo o system y cynlluniau iaith i system y safonau.

475. Yn benodol, teimlai rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod perygl y gallai'r arbenigedd mewn polisi iaith a hybu'r iaith – arbenigedd sydd wedi'i feithrin ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg – gael ei wasgaru neu ei golli wrth ddiddymu'r Bwrdd.

476. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

> "Bydd hefyd yn bwysig dangos sut na fydd yr arbenigedd iaith sy'n bodoli'n barod mewn sefydliadau yn cael ei golli."[442]

477. Pan gawsant eu holi, meddent:

> "Mae'n gonsýrn byw ein bod yn newid sawl elfen o'r patrwm cynllunio ieithyddol yng Nghymru ar yr un pryd. Fel y soniodd y

[442] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 14

prif weithredwr, yr ydym yn newid y teclyn cynllunio ieithyddol a'r strwythur. Mae cyrff wedi cysylltu â ni yn barod i ofyn y cwestiwn sylfaenol canlynol: beth sy'n digwydd nesaf—oes pum mlynedd o hiatus yn mynd i fod, a beth y dylem fod yn ei wneud yn y cyfnod hwn? Mae angen sicrhau bod y Mesur arfaethedig hwn yn bont, yn hytrach nag yn ddyffryn mewn cynllunio ieithyddol i'r dyfodol, ac mae angen cynllunio er mwyn i hynny ddigwydd. Mae'n bosibl inni symud tuag at sefyllfa gryfach, ond rhaid inni beidio â cholli pum mlynedd yn ystod y broses. Gall safonau sectorol gryfhau'r sefyllfa yn y dyfodol, ond rhaid inni beidio â chael y gagendor hwnnw."[443]

478. Meddent hefyd:

"…Bydd rhywun yn gofyn, 'Beth yw'r pwrpas i fi gadw at fy nghynllun iaith os na fydd neb yno i'm herio?', a bydd rhai blynyddoedd, efallai, pan fyddwn yn datblygu safonau, felly mae perygl y bydd tair, pedair neu bum mlynedd pan na fydd cymaint o egni creadigol ag sydd ar hyn o bryd.[444]

479. O ran y trefniadau pontio, meddai Emyr Lewis:

"Mae nifer fawr o haenau a chymalau i'r gwahanol brosesau sy'n arwain o bennu safonau iaith yn y lle cyntaf, hyd at eu gorfodi mewn achosion unigol yn y pen draw. Fy mhryder yw y bydd y prosesau hyn yn sugno egni ac adnoddau'r Comisiynydd, yn arbennig felly yn y blynyddoedd cynnar, wrth i safonau gael eu creu gan Weinidogion Cymru, ac wrth i hysbysiadau cydymffurfio gael eu sefydlu.

Ar yr un pryd, bydd Cynlluniau Iaith yn dal i gael eu gweithredu gan y cyrff priodol, a'u harolygu gan y Comisiynydd.

… Ar yr un pryd, bydd disgwyl i'r Comisiynydd barhau â'r gwaith o hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg."[445]

480. Pan holwyd ef ynghylch hyn, ymhelaethodd Emyr Lewis ar y sylwadau a wnaeth yn ei gyflwyniad ysgrifenedig:

"Bydd gosod y gyfundrefn rheoleiddio newydd yn ei lle, yn enwedig gan ei bod mor gymhleth, yn cymryd amser. Bydd yn cymryd blynyddoedd.

---

[443] Cofnod y Trafodion, paragraff [138], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[444] Cofnod y Trafodion, paragraff [99], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[445] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 9

> Yn y cyfamser, bydd cynlluniau iaith yn dal i fodoli. Fy mhryder yw na fydd y cyrff a reoleiddir, neu rai ohonynt, yn cymryd y cynlluniau iaith o ddifrif, ac, felly, ni fyddant yn cymryd eu dyletswyddau tuag at yr iaith Gymraeg o ddifrif, gan wybod bod rhywbeth arall ar y gorwel." [446]I

481. Tra'r oeddent yn cytuno'n fras â sefydlu swyddfa'r Comisiynydd, mynegodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru bryder ynghylch colli Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel endid gan ddweud:

> "If it is to be abolished it is important that effective advisory and support processes are in place to assist our work . . . There is a need for a central body of expertise to take responsibility for language planning and the provision of guidelines and support resources."[447]

482. Rhoddodd ymatebwyr eraill sylwadau am golli Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd. Meddai Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin:

> "It is hoped … that the working relationship that has been developed with the Welsh Language Board will not be diminished in any way. . . . We are very fortunate and extremely grateful for the joint working relationship which has been developed with the Welsh Language Board in recent years. We have developed a mutual understanding of our organisational aims and constraints and it is hopeful that this can continue under the new structure."[448]

483. Meddai BT Cymru:

> "Cynhelir cyfrifiad yng Nghymru yn 2011 ac mae BT yn credu'n gryf na ddylai'r newidiadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a amlinellwyd yn y Mesur Arfaethedig, effeithio momentwm gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r wlad.
>
> Mae BT yng Nghymru yn cydnabod gwaith ardderchog Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers ei sefydlu, yn arbennig ei uned sector preifat, ac mae'n argymell yn gryf y dylid parhau â gwaith hyrwyddo ac eirioli'r Bwrdd yn y dyfodol."[449]

484. Ychwanegodd y tystion:

---

[446] Cofnod y Trafodion, paragraffau [110 -1], 22 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[447] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 21
[448] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 43
[449] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 30

> "Mae hefyd angen osgoi bwlch gan fod cyfrifiad y flwyddyn nesaf. Bydd yr hyn a ddywed y cyfrifiad hwnnw'n allweddol. Felly, mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y misoedd nesaf yn arbennig o bwysig, ac os bydd unrhyw fwlch neu wyrdroi pethau yn y cyfnod hwn, gallai gael effaith niweidiol ac felly rhaid i ni sylweddoli pa mor bwysig yw rôl hyrwyddo, yn arbennig ar hyn o bryd."[450]

485. Nid oedd Mentrau Iaith Cymru "yn teimlo bod digon o drafodaeth wedi bod am yr hyn a fydd yn digwydd wedi dileu'r bwrdd, o ran yr holl swyddogaethau gwahanol sydd ganddo, megis hyrwyddo, sy'n rhan fawr o'i waith."[451]

### Tystiolaeth y Gweinidog

486. O ran trosglwyddo swyddogaethau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Comisiynydd, dywedodd y Gweinidog:

> "Yn amlwg, yr ydym mewn trafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'n gwneud synnwyr i'r bwrdd feddwl am y newidiadau yn ein hwynebu a dechrau meddwl am sut i baratoi ar gyfer sicrhau cyfnod pontio llyfn. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ategu'r farn y byddai sefydliadau yn talu llai o sylw i'w cynlluniau iaith ac i ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod pontio hwnnw. Yn wir, efallai y byddai mwy o sylw'n cael ei roi i'r gwaith hwn wrth i sefydliadau ymateb i ymchwiliadau safonol y comisiynydd a pharatoi eu hunain ar gyfer y drefn orfodi fwyaf cadarn a fydd ar gael i'r comisiynydd."[452]

### Ein barn ni

487. Nodwn fod nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi mynegi pryderon am y trefniadau pontio o'r system bresennol i'r system newydd o dan y Mesur arfaethedig.

488. O'r dystiolaeth a ddaeth i law, mae'n amlwg bod agwedd a dull Bwrdd yr Iaith Gymraeg o weithio wedi cael croeso a chefnogaeth gref gan y sefydliadau y bu'n ymwneud â hwy. Yn benodol, rydym wedi

---

[450] Cofnod y Trafodion, paragraff [158], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[451] Cofnod y Trafodion, paragraff [262], 27 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[452] Cofnod y Trafodion, paragraff [108], 17 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

nodi cynifer o sefydliadau sydd wedi dweud pa mor effeithiol y bu eu perthynas weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n braf clywed hynny, ac mae'n amlwg y bydd y Gymraeg yn elwa ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

489. Felly, mae'n hanfodol nad yw profiad ac arbenigedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei golli yn ystod y broses bontio, ac mae'n bwysig nad yw'r agweddau a gafodd eu meithrin ymhlith sefydliadau tuag ato'n newid. At hynny, llawn cyn bwysiced yw sicrhau na chollir yr ewyllys da tuag at y Gymraeg sydd wedi'i feithrin drwy ddatblygu cynlluniau iaith gwirfoddol. Mae hynny yr un mor wir yn achos y sefydliadau y bydd darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn effeithio arnynt ag ydyw i'r rhai na fydd y darpariaethau'n effeithio arnynt.

490. Felly, **rydym yn argymell yn gryf bod y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynllunio'n effeithiol ar gyfer pontio i'r system newydd, a hynny er mwyn cynnal y momentwm sydd wedi'i feithrin wrth hybu'r Gymraeg ac wrth reoleiddio'r modd y darperir gwasanaethau Cymraeg.**

# 12. Y goblygiadau ariannol

## Y cefndir

491. Mae Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Mesur arfaethedig. Mae Paragraffau 8.22 i 8.58 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi amlinelliad o oblygiadau'r gost i sefydliadau o orfod cydymffurfio â safonau.

## Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

492. Roedd pryder eang ymhlith sefydliadau nad oedd y Memorandwm Esboniadol yn rhoi amcangyfrif cywir o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig.

493. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

> "The Explanatory Memorandum does not provide any adequate costs analysis of the proposals. Although the costs of individual features are considered, figures are not provided consistently or in every instance, and all are taken to be within the current budget for the Welsh Language Board or are to be subsumed by the Welsh Assembly Government. This is confusing and inadequate. Effectively, there is insufficient information on the costs impact of this legislation."[453]

494. Roedd E.ON UK hefyd yn teimlo bod y goblygiadau ariannol yn anodd i'w mesur o'r wybodaeth a ddarparwyd:

> "Until we understand the exact nature of the Standards to be imposed on our sector under the framework established by the proposed Measure it is not possible to quantify the financial implications."[454]

495. Dywedodd Good Energy nad oedd y wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn ddigonol:

> "The research covered in the Explanatory Memorandum, seems to have only covered small businesses located within Wales, and appears to consider that the smallest energy supplier in

[453] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 10
[454] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 17

Wales has a 10% market share, which is incorrect. Therefore the Measure does not appear to have considered the impact on smaller licensed energy suppliers."[455]

496. Roedd Passenger Focus hefyd yn teimlo nad oedd y costau a oedd wedi'u cynnwys yn ddigon cywir nac yn ddigon manwl:

> "Carem nodi fod cost gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol yn uwch na'r swm dangosol a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd gyda'r ymgynghoriad hwn. Mae'r canllawiau'n nodi, yn achos sefydliad bychan, yr "...amcangyfrifir na fydd y costau hyn yn uwch na £1000 y flwyddyn". Er nad ydym yn cadw cyfrif manwl o gostau gweithredu ein cynllun, cost cyfieithu ein hadroddiad blynyddol diweddaraf i'r Gymraeg oedd £1200, felly mae'r cyfanswm yn amlwg yn uwch na'r ffigur dangosol."[456]

497. Cytunai Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru yn gryf â'r farn hon. Roeddent yn teimlo bod yr amcangyfrif o gostau'n afrealistig o isel.[457] Ychwanegwyd hefyd:

> "Our experience shows that these costs are likely to be in excess of the estimates contained in the Explanatory Notes (8.29). At a time of rising costs to the industry - fuel and insurance, for example - these extra costs will evidently have an effect on the core activity of our members, and could well lead to a reduction in services (especially marginal ones) or increased costs."[458]

498. Roedd Un Llais Cymru hefyd yn teimlo:

> "... there is probably an understatement, particularly for councils that have not adopted schemes as yet, which is, as I say, over 500 councils across Wales. The explanatory memorandum talked about a cost of around £1,000 for small, public sector organisations. It may be that councils produce more written information than other public bodies in general, but if you take an eight-page set of full council minutes of approximately 3,000 words being produced 12 times a year and you had that translated relatively modestly at a cost of £50

[455] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 25
[456] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 35
[457] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 38
[458] ibid

per 1,000 words, then you are talking about £1,800 to produce those minutes bilingually. If you then add on top the cost of the agendas and then other committees' minutes that might also need to be translated, then the translation costs alone could go well above the £1,000 noted in the explanatory memorandum."[459]

499. Dywedodd BT Cymru ei bod yn bosibl bod y wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn anghywir:

> "Fframwaith yn unig sydd yn y Mesur arfaethedig. Mae'r memorandwm yn ceisio asesu faint y bydd yn ei gostio. Gwneir cymhariaeth yn y memorandwm â faint mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei chostio. Er enghraifft, mae'n dweud na ddylai cwmni mawr ddisgwyl gwario mwy na £200,000—ond yr ydym ni yn gwybod ein bod yn gwario llawer mwy na £200,000 ar wasanaethau Cymraeg yn barod."[460]

500. Roedd llawer o sefydliadau hefyd yn poeni bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn rhy eang, a bod manylion hanfodol wedi'u hepgor.

501. Dywedodd Scottish Power:

> "We believe that the RIA is a bit too broad-brush; it is applying the same approach to everyone, but our estimated costs ... would be potentially considerably higher than the £200,000 that is proposed for a company of our size. So, once we get to the consultation on the standards, we can give a much better estimate of our costs, but we feel that that is not realistic at the moment."[461]

502. Roedd CBI Cymru hefyd yn feirniadol o'r materion a ystyrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "I think that it is simplistic in the extreme. It is, frankly, facile. I am on record in a few of these committees talking about the quality of regulatory impact assessments. This is just a finger-in-the-air job."[462]

[459] Cofnod y Trafodion, paragraff [68], 20 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[460] Cofnod y Trafodion, paragraff [168], 13 Mai 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[461] Cofnod y Trafodion, paragraff [168], 29 Ebrill 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[462] Cofnod y Trafodion, paragraff [288], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

503. Roedd y diffyg gwybodaeth a oedd ar gael ynghylch y math o wasanaethau a ddisgwylir a chost gwasanaethau o'r fath yn destun pryder i CBI Cymru:

> "Frustratingly, we still have no visibility of the likely level of services. It is nigh on impossible to give meaningful comment on costs and acceptability until we have some clarity on that."[463]

504. Roedd sefydliadau eraill yn pryderu ynghylch y costau ychwanegol a oedd ynghlwm wrth gynyddu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir ganddynt, yn arbennig o gofio'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael ynghylch y math o safonau a gaiff eu pennu yn y dyfodol. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

> "Some of our members have expressed concern about the potential increase in cost of providing services bilingually when the sector is facing deep and severe funding cuts. Until the standards are established it is very hard for us to offer advice and reassurance."[464]

505. Teimlai Nwy Prydain y gallai effaith ariannol y Mesur arfaethedig effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad ynni yng Nghymru:

> British Gas is concerned that the implementation, management and enforcement costs of compliance could be detrimental to Energy competition in Wales and could result in additional pass-through costs to consumers."[465]

506. Fodd bynnag, meddai Llais Defnyddwyr Cymru:

> "… it is difficult to asses the types of costs that we are talking about because there is a lack of clarity about what standards will look like. We recognise that. However, we do not believe that any additional costs of making Welsh-language services available to consumers in Wales should be passed on to consumers. The costs should be absorbed through profits and shareholders."[466]

507. Meddent hefyd:

---

[463] Cofnod y Trafodion, paragraff [207], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[464] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 265
[465] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI22
[466] Cofnod y Trafodion, paragraff [369], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

"… we do not feel that there is any reason why Welsh-language consumers should be disadvantaged by having to pay a levy to receive services through the medium of Welsh."[467]

508. Dywedodd ColegauCymru ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o oblygiadau annisgwyl o ran cost o ganlyniad i gydymffurfio â'r safonau newydd na fyddai'n codi o dan y system bresennol, sef y cynlluniau iaith Gymraeg:

"Essentially, it appears that, if the iterative process of agreeing a Welsh Language Scheme disappears, the FE colleges will be expected to invest in a degree of self-regulation to achieve the same ends. At present, the Welsh Language Board provides colleges with support and expertise (as well as statutory regulation) each time a Welsh Language Scheme is revised. If the Welsh Language Board or the Commissioner's office will not provide this support under the Proposed Measure, colleges will need to consider how to source this expertise through different means. There might be costs involved. It is not clear whether these costs are recognised in the Proposed Measure."[468]

**Ein barn ni**

509. Rydym yn rhannu pryderon yr ymatebwyr ynghylch y diffyg gwybodaeth sydd yn y Memorandwm Esboniadol am effaith ariannol nodau ac amcanion y Mesur arfaethedig.

510. Rydym yn ymwybodol bod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, **credwn ei bod yn bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agored â phob sefydliad os daw'r ddeddfwriaeth hon i rym, a hynny er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'n gywir y gost o roi ei ddarpariaethau ar waith.**

[467] Cofnod y Trafodion, paragraff [370], 10 Mehefin 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
[468] Tystiolaeth Ysgrifenedig, MI 41

# Y tystion

Roddodd y canlynol wybodaeth ar lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a welir isod. Gellir darllen trawsgrifiad o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc2-agendas.htm

*17 Mawrth*

| | |
|---|---|
| Alun Ffred Jones AM | Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru |

*22 Ebrill*

| | |
|---|---|
| Emyr Lewis | Cyfreithiwr a chynrychiolydd y Deyrnas Unedig ar Gyngor Pwyllgor o Arbenigwyr Ewrop sy'n ymchwilio i lefel gydymffurfio gwladwriaethau â Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop |
| | LC2(3)-07-10 ; Papur 1 |
| Yr Athro Colin Williams | Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| | LC2(3)-07-10 ; Papur 2 |

*29 Ebrill*

| | |
|---|---|
| Meri Huws | Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Meirion Prys Jones | Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Gwyn Jones | Cyfarwyddwr Polisi a Therminoleg, Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| | LC2(3)-08-10 ; Papur 1 |
| Huw Roberts | Cyfarwyddwr Materion Cymru, Grŵp y Post Brenhinol |
| Stuart Taylor | Pennaeth Cysylltiadau Allanol Cymru, Grŵp y Post Brenhinol |

| | |
|---|---|
| | LC2(3)-08-10 ; Papur 2 |
| Richard Tasker | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Debyd Uniongyrchol, Scottish Power |
| Eifion Griffiths | Uwch-ddadansoddwr, Gweithrediadau Rhwydwaith, Scottish Power |
| | LC2(3)-08-10 ; Papur 3 |
| *13 Mai* | |
| Kay Powell | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| | LC2(3)-09-10 ; Papur 1 |
| Ann Beynon | Prif Weithredwr, BT Cymru |
| Elenor Bonner-Evans | BT Cymru |
| | LC2(3)-09-10 ; Papur 2 |
| Hamish McLeod | Mobile Broadband Group UK |
| | LC2(3)-09-10 ; Papur 3 |
| Domhnall Dodds | Pennaeth Materion y Llywodraeth, Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU |
| | LC2(3)-09-10 ; Papur 4 |
| Pat Ardis | Rheolwr Gyfarwyddwr, Camgas |
| Rob Shuttleworth | Prif Weithredwr, UK LPG |
| | LC2(3)-09-10 ; Papur 5 |
| *20 Mai* | |
| Simon White | Prif Weithredwr, Un Llais Cymru |
| | LC2(3)-10-10 ; Papur 1 |
| John Pockett | Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru |
| Tony McNiff | Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru |

| | |
|---|---|
| | LC2(3)-10-10 ; Papur 2 |
| Ben Davies | Trenau Arriva Cymru |
| Michael Vaughan | Trenau Arriva Cymru |
| | LC2(3)-10-10 ; Papur 3 |
| *27 Mai* | |
| Menna Machreth | Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Colin Nosworthy | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Catrin Dafydd | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| | LC2(3)-11-10 ; Papur 1 |
| Alun Owens | Mudiadau Dathlu'r Gymraeg |
| Ceri Owen | Mudiadau Dathlu'r Gymraeg |
| | LC2(3)-11-10 ; Papur 2 |
| Iwan Williams | Swyddog, Mentrau Iaith Cymru |
| Siân Lewis | Aelod Pwyllgor, Mentrau Iaith Cymru |
| | LC2(3)-11-10 ; Papur 3 |
| Derek Parlour | Pennaeth Masnachol, y Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol |
| | LC2(3)-11-10 ; Papur 4 |
| *10 Mehefin* | |
| Graham Benfield | Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Lynne Reynolds | Swyddog Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| | LC2(3)-12-10 ; Papur 1 |
| Rhys Jones | Nwy Prydain |

| | |
|---|---|
| | LC2(3)-12-10 ; Papur 2 |
| Non Rhys | Rheolwr Polisi Cymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru |
| | LC2(3)-12-10 ; Papur 3 |
| David Rosser | Cyfarwyddwr, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Rebecca Thomas | Uwch Eiriolwr Polisi, Llais Defnyddwyr Cymru |
| Liz Withers | Prif Eiriolwr Polisi, Llais Defnyddwyr Cymru |
| | LC2(3)-12-10 ; Papur 4 |
| *17 Mehefin* | |
| Mr Bernat Joan i Mari | Yr Ysgrifennydd dros Bolisi Iaith, Llywodraeth Catalonia |
| | LC2(3)-13-10 ; Papur 1 |
| Alun Ffred Jones AC | Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru |
| | LC2(3)-13-10 ; Papur 1 |
| | LC2(3)-13-10 ; Papur 2 |
| | LC2(3)-13-10 ; Papur 3 |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-wl/welsh_language_measure_consultation_responses.htm

| *Ymatebwyr i'r ymgynghoriad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Howard Jones | MI1 |
| Calor Gas Ltd | MI2 |
| Thomas John Boucher | MI3 |
| Di-enw | MI4 |
| Mrs T. M. Wright | MI5 |
| Yr Athro Colin Williams | MI6 |
| Hedd Gwynfor | MI7 |
| SWALEC | MI8 |
| Emyr Lewis | MI9 |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr | MI10 |
| Dŵr Cymru | MI11 |
| Trenau Arriva Cymru | MI12 |
| Grŵp y Post Brenhinol | MI13 |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | MI14 |
| Scottish Power | MI15 |
| Camgas | MI16 |
| E.ON UK | MI17 |

| | |
|---|---|
| Iwan Edgar | MI18 |
| Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU | MI19 |
| Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain | MI20 |
| Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO Cymru) | MI21 |
| Nwy Prydain | MI22 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | MI23 |
| Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru | MI24 |
| Good Energy | MI25 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | MI26 |
| Canolfan Llywodraethiant Cymru | MI27 |
| Gareth V. Williams | MI28 |
| RWE npower | MI29 |
| BT Cymru | MI30 |
| Mobile Broadband Group UK | MI31 |
| UK LPG | MI32 |
| Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol | MI33 |
| Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru | MI34 |
| Ffocws ar Deithwyr | MI35 |

| | |
|---|---|
| RNIB Cymru | MI36 |
| Llais Defnyddwyr Cymru | MI37 |
| Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru | MI38 |
| Cylch | MI39 |
| Aled Edwards | MI40 |
| ColegauCymru | MI41 |
| Cymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd (IPSA) | MI42 |
| Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin | MI43 |
| Arolwg Ordnans | MI44 |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | MI45 |
| Undeb Amaethwyr Cymru | MI46 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | MI47 |
| Mudiadau Dathlu'r Gymraeg | MI48 |
| Cyngor Sir Gâr | MI49 |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg | MI50 |
| Urdd Gobaith Cymru | MI51 |
| UCAC | MI52 |
| Mentrau Iaith Cymru | M I53 |
| Y Ganolfan Cynllunio Iaith | MI54 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | MI55 |

| | |
|---|---|
| Ioan Teifi | MI56 |
| Aled ab Iwan | MI57 |
| Gruffydd Williams | MI58 |
| Medwyn Williams | MI59 |
| Elliw Alwen | MI60 |
| Huw Morgan Jones | MI61 |
| Carys Eleri Evans | MI62 |
| Jen Rowlands | MI63 |
| Catrin Cooper | MI64 |
| Geraint William Ashton | MI65 |
| Huw Jones | MI66 |
| Ceri Cooper | MI67 |
| Sion Ifan | MI68 |
| Sion Ifan | MI69 |
| Fflur Arwel | MI70 |
| Dafydd Gwynedd | MI71 |
| Delyth Fon Thomas | MI72 |
| Phil Evans | MI73 |
| Phil Evans | MI74 |
| Gareth Meirion Jones | MI75 |
| Sian Thomas | MI76 |
| Gareth Haulfryn | MI77 |
| Bethan Ruth Roberts | MI78 |
| James Leggett | MI79 |

| | |
|---|---|
| Gerallt Rhys Roberts | MI80 |
| Emyr Llyr Rees | MI81 |
| Anwen Evans | MI82 |
| Gethin Lewis | MI83 |
| Dr Meic Stephens | MI84 |
| Heledd Williams | MI85 |
| Rhys Aneurin | MI86 |
| Fflur Gwenllian Roberts | MI87 |
| Eleri Llewelyn Morris | MI88 |
| Dai Hawkins | MI89 |
| Matthew Morgan | MI90 |
| Owen Saer | MI91 |
| Dean Jones | MI92 |
| Valerie Wakefield | MI93 |
| Geraint Lewis | MI94 |
| Gruffydd Emyr Jones | MI95 |
| Manon Wyn | MI96 |
| John Henry Grindell | MI97 |
| Ruth Jen Evans | MI98 |
| Glenn Wall | MI99 |
| Gaynor Jones | MI100 |
| Barry Taylor | MI101 |
| Ceri Wyn Griffith | MI102 |
| Gwawr Rhiannon Evans | MI103 |

| | |
|---|---|
| Anne Margaret Loughran | MI104 |
| Matt Hutchinson | MI105 |
| Morgan Rhys Hopkins | MI106 |
| Dr Ceridwen Lloyd-Morgan | MI107 |
| Randal Isaac | MI108 |
| Robin Crag Farrar | MI109 |
| Owen Llywelyn | MI110 |
| Bethan Ifans | MI111 |
| Sioned Haf | MI112 |
| Meirion MacIntyre Huws | MI113 |
| Jan Newton | MI114 |
| Mervyn Ian Newton | MI115 |
| Heledd Mair Morgan | MI116 |
| Gwyn Llewelyn Williams | MI117 |
| Alan Luff | MI118 |
| Rhodri Evans | MI119 |
| Delyth Haf Evans | MI120 |
| Delwyn Griffiths | MI121 |
| Rhiain Bebb | MI122 |
| Lois Dauncey Roberts | MI123 |
| Elenid Non Hughes | MI124 |
| Darren John Lewis | MI125 |
| Gwenno Angharad Elias | MI126 |
| Dilwyn Llwyd | MI127 |

| | |
|---|---|
| Meic O’Shea | MI128 |
| Bethan Morgan | MI129 |
| Angharad Clwyd | MI130 |
| R. Edwards | MI131 |
| Esyllt Williams | MI132 |
| Awen Gwyn | MI133 |
| Llinos Manon Williams | MI134 |
| Catrin Evans | MI135 |
| Tim Pearce | MI136 |
| Madison Tazu | MI137 |
| Gareth Dobson | MI138 |
| Silva Nurmio | MI139 |
| Siwan Jones | MI140 |
| Gwenno Dafydd Williams | MI141 |
| Bethan Wyn Jones | MI142 |
| Eurig Lloyd | MI143 |
| Lydia Adams | MI144 |
| Huw Jones | MI145 |
| Osian Lewis | MI146 |
| Angharad Gwyn | MI147 |
| Judith Elizabeth Davies | MI148 |
| Rhys ap Rhobert | MI149 |
| Rhydian Gwilym | MI150 |
| Mari Rhiannon Lovgreen | MI151 |

| | |
|---|---|
| D. Gwynfor Davies | MI152 |
| Dafydd Roberts | MI153 |
| Dylan Jones | MI154 |
| Lois Angharad Wyn | MI155 |
| Charlotte Aull Davies | MI156 |
| Annest Jones | MI157 |
| Ian Robert Williams | MI158 |
| Dewi Owen Jones | MI159 |
| Gareth Williams | MI160 |
| Helen McGreary | MI161 |
| Manon Elis | MI162 |
| Stuart Williams | MI163 |
| Elinor Gwerfyl Price | MI164 |
| Erin Roberts | MI165 |
| Siriol Teifi | MI166 |
| Dr Gwenllian Parry | MI167 |
| Lowri Ann Evans | MI168 |
| Gareth Victor Williams | MI169 |
| William Gwyn Hopkins | MI170 |
| Huw Lewis | MI171 |
| Mari Elin Morgan | MI172 |
| Miss Rhian George | MI173 |
| Luned Gwawr Evans | MI174 |
| Miss Eleri Owen | MI175 |

| | |
|---|---|
| Lisabeth Miles | MI176 |
| Mari Gwilym | MI177 |
| Dilys Lewis | MI178 |
| Angharad Elen Blythe | MI179 |
| Howard Huws | MI180 |
| Dafydd Bates | MI181 |
| Tegwyn Jones | MI182 |
| Rhys Llwyd | MI183 |
| Branwen Evans | Mi184 |
| Ffion Harries | MI185 |
| Steffan ab Owain | MI186 |
| Ceri Thomas | MI187 |
| Mrs Carys Llywelyn | MI188 |
| Katherine Gale | MI189 |
| Owain Joynson | MI190 |
| Marged Haycock | MI191 |
| Simon Evans | MI192 |
| Rhian Green | MI193 |
| Trystan Deiniol | MI194 |
| Nona Wyn Davies | MI195 |
| Glesni M. Edwards | MI196 |
| Sioned Eleri Jones | MI197 |
| Huw Trystan Wilcox | MI198 |
| David John Evans | MI199 |

| | |
|---|---|
| Carwyn Evans | MI200 |
| Hazel Charles Evans | MI201 |
| Tegwen Alaw Parri | MI202 |
| Paul Williams | MI203 |
| Verian Williams | MI204 |
| Erfyl Wyn Williams | MI205 |
| Paul Thomas | MI206 |
| Eirian Wyn | MI207 |
| Emlyn Roberts | MI208 |
| Nesta Davies | MI209 |
| Gwenllian LLyr | M210 |
| Markus A. Wursthorn | MI211 |
| Vivian Parry Williams | MI212 |
| Manon Haf Owen | MI213 |
| Gareth Williams | MI214 |
| Lowri Esyllt Wynn Jones | MI215 |
| R. Gareth Jones | MI216 |
| Gwen Saunders Jones | MI217 |
| B. W. Jones | MI218 |
| Llio Fflur | MI219 |
| Angharad Griffiths | MI220 |
| Branwen Rhys Huws | MI221 |
| Nia Hywyn | MI222 |
| Llinos Roberts-Young | MI223 |

| | |
|---|---|
| Anna Williams | MI224 |
| Iola Jones | MI225 |
| Mair Stuart | MI226 |
| Cian Ciaran | MI227 |
| Daff Davies | MI228 |
| Matthew James Adams | MI229 |
| Heledd Roberts | MI230 |
| Anwen Lynne Roberts | MI231 |
| Jonathan Brown | MI232 |
| Alan Thomas | MI233 |
| Geraint John Lewis | MI234 |
| Menna Machreth | MI235 |
| John Pritchard | MI236 |
| Hefin Jones | MI237 |
| Lynsey Thomas | MI238 |
| Gemma Hayes | MI239 |
| Mared FFlur Ifan | MI240 |
| Shauna Roberts | MI241 |
| Meilyr Wyn | MI242 |
| Helen Pughe | MI243 |
| Agored Cymru | MI244 |
| Un Llais Cymru | MI245 |
| Llywodraeth Catalonia | MI246 |
| Angela Formby | MI247 |

| | |
|---|---|
| Liam Griffiths | MI248 |
| Branwen Gwyn | MI249 |
| Catrin Davies | MI250 |
| Carl Williams | MI251 |
| Carole Anna Davies | MI252 |
| Greg Bevan | MI253 |
| Sian Cwper | MI254 |
| Mark Chataway | MI255 |
| Sioned Eleri | MI256 |
| Sion Llewelyn Jones | MI257 |
| Alwyn Gruffydd | MI258 |
| Gareth Clubb | MI259 |
| Rhodri ap Dyfig | MI260 |
| Carl Morris | MI261 |
| Alwyn Jones | MI262 |
| David Thomas | MI263 |
| Ceri Meredydd Jones | MI264 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | MI265 |
| Comisiynydd Plant Cymru | MI266 |
| Ceri Jones | MI267 |
| Robert Mooney | MI268 |
| Gofal Canser y Fron Cymru | MI269 |
| Eleri Gwilym | MI270 |

| | |
|---|---|
| Benjamin Pitre – An Abuzet | MI271 |
| Cangen PCS, Bwrdd yr Iaith Gymraeg | MI272 |
| Cymdeithas Manwerthu Ynni | MI273 |

## Gohebiaeth gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth

Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth - Tystiolaeth Ychwanegol, 23 Ebrill 2010

Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth - Tystiolaeth Ychwanegol, 14 Mehefin 2010

Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth - Tystiolaeth Ychwanegol, 30 Mehefin 2010

Llythyr gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth - Tystiolaeth Ychwanegol, 1 Gorffennaf 2010

# Atodiad 1: Materion 20.1 a 20.2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**Mater 20.1**

Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r canlynol —

(a) awdurdodau cyhoeddus;

(b) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus;

(c) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad;

(d) personau sydd wedi eu sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol —

(i) i hybu dysg a gwybodaeth drwy addysgu neu ymchwilio neu drwy ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau;

(ii) i gasglu neu ddiogelu gwybodaeth gofnodedig, neu wrthrychau a phethau sy'n hybu dealltwriaeth, neu ddarparu mynediad at yr wybodaeth honno neu at y gwrthrychau a'r pethau hynny;

(iii) i gefnogi, gwella, neu hybu treftadaeth, diwylliant, chwaraeon neu weithgareddau hamdden, neu ddarparu mynediad atynt;

(iv) sy'n ymgymryd â hybu gwybodaeth ehangach am Gymru a chynrychioli buddiannau Cymru mewn gwledydd eraill;

(v) sy'n ymgymryd â bancio canolog;

(e) personau y rhoddir iddynt swyddogaethau neu y gosodir arnynt swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy ddeddfiad;

(f) personau sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd ac sy’n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol;

(g) personau sy’n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd;

(h) darparwyr tai cymdeithasol;

(i) personau sy’n darparu i’r cyhoedd y mathau canlynol o wasanaethau neu wasanaethau eraill sy’n gysylltiedig ag unrhyw un neu ag unrhyw rai o’r gwasanaethau hynny —

(i) gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan (gan gynnwys cyflenwi neu ddosbarthu);

(ii) gwasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthion);

(iii) gwasanaethau post a swyddfeydd post;

(iv) gwasanaethau telathrebu;

(v) addysg, hyfforddiant (lle mae’r darparwr yn derbyn arian cyhoeddus i’w ddarparu) neu gyfarwyddyd gyrfaoedd, a gwasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd;

(vi) gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd;

(vii) gwasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol;

(j) personau sy’n dewis bod yn ddarostyngedig i gael y dyletswyddau wedi’u gosod arnynt neu sy’n cytuno i hynny.

O ran gosod dyletswyddau mewn perthynas â pharagraff (b), dim ond dyletswyddau’n ymwneud â gwasanaethau i’r cyhoedd sy’n cael eu darparu o dan gytundeb, neu’n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus, a gynhwysir yn y mater hwn.

Nid yw person sy’n derbyn arian cyhoeddus sy’n dod i gyfanswm o £400,000 neu fwy mewn blwyddyn ariannol yn dod o fewn paragraff (f) oni bai—

(a) ei fod wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu

(b) bod penderfyniad wedi ei wneud iddo gael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.

O ran gosod dyletswyddau mewn perthynas â pharagraff (i)—

(a) dim ond dyletswyddau'n ymwneud â'r gwasanaethau a'r gwasanaethau eraill cysylltiedig sydd wedi eu crybwyll a gynhwysir yn y mater hwn, a

(b) ynglŷn â'r gwasanaethau cysylltiedig, nid yw'r mater hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau cysylltiedig mewn siop, ac eithrio gwasanaethau cownteri swyddfeydd post a gwerthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ynghylch darlledu.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar berson (ac eithrio awdurdod iaith Gymraeg) onid oes modd i'r person hwnnw herio'r dyletswyddau hynny, fel y bônt yn gymwys i'r person hwnnw, ar sail rhesymoldeb a chymesuredd.

**Mater 20.2**

Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).

Dehongli'r maes hwn

Yn y maes hwn—

ystyr "arian cyhoeddus" ("public money") yw—

(a) arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy—

(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(ii) Gweinidogion Cymru;

(iii) Senedd y DU;

(iv) Gweinidogion y Goron; neu

(v) un neu ragor o sefydliadau'r Cymunedau Ewropeaidd;

(b) arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

ystyr “awdurdod cyhoeddus” ("public authority") yw pob awdurdod cyhoeddus sy’n dod o fewn ystyr “public authority” yn adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998(a);

ystyr “awdurdod iaith Gymraeg” ("Welsh language authority") yw person y mae deddfiad yn rhoi iddo neu’n gosod arno swyddogaethau—

(a) gosod neu orfodi ar bersonau eraill ddyletswyddau ynglŷn â’r Gymraeg,

(b) pennu’r dyletswyddau ynglŷn â’r Gymraeg sydd i’w gosod ar bersonau eraill, neu

(c) penderfynu ynghylch heriau i’r dyletswyddau ynglŷn â’r Gymraeg sydd i’w gosod ar bersonau eraill.

ystyr “darlledu” ("broadcasting") yw comisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddi-wifr eraill;

mae “deddfiad” ("enactment") yn cynnwys unrhyw ddeddfiad yn y dyfodol;

ystyr “gwasanaethau bysiau” ("bus service") yw gwasanaeth rheolaidd â cherbyd gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981(b)), i gludo teithwyr am brisiau tocyn ar wahân, ac eithrio gwasanaeth—

(a) y mae capasiti cyfan y cerbyd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw wedi ei brynu gan siartrwr at ei ddefnydd ei hun neu i’w ailwerthu;

(b) sy’n daith neu’n drip a drefnwyd yn breifat gan unrhyw berson sy’n gweithio’n annibynnol ar weithredwr y cerbyd; neu

(c) lle mae’r teithwyr yn teithio gyda’i gilydd ar daith, gyda seibiannau neu hebddynt, a ph’un ai ar yr un diwrnod ai peidio, o un neu fwy o leoedd i un neu fwy o leoedd ac yn ôl;

ystyr “gwasanaethau post” ("postal services") yw’r gwasanaeth o gludo llythyrau, parseli, pacedi neu bethau eraill o un man i fan arall drwy’r post a’r gwasanaethau cysylltiedig o dderbyn, casglu, sortio a danfon y cyfryw bethau;

ystyr “gwasanaethau telathrebu” (telecommunications service") yw unrhyw wasanaeth sy’n cynnwys darparu mynediad at, neu gyfleusterau i wneud defnydd o, unrhyw system sy’n bod (p’un ai yn gyfan gwbl yntau’n rhannol yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) at y diben o hwyluso trosglwyddo cyfathrebiadau drwy unrhyw fodd sy’n golygu defnyddio ynni electrig, magnetig neu electro-magnetig (gan gynnwys y cyfarpar a geir yn y system), ond nid yw’n cynnwys darlledu, radio na’r teledu;

ystyr “siop” ("shop") yw unrhyw fangre lle y mae’r brif fasnach neu fusnes sy’n cael ei gynnal yn fasnach neu fusnes gwerthu nwyddau.

## Atodiad 2: Cyflwyniadau ysgrifenedig sy'n awgrymu gwelliannau penodol a gwelliannau technegol

| | |
|---|---|
| Emyr Lewis | MI 9 |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr | MI 10 |
| Scottish Power | MI 15 |
| E.ON UK | MI 17 |
| Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU | MI 19 |
| Canolfan Llywodraethiant Cymru | MI 27 |
| Mobile Broadband Group | MI 31 |
| Llais Defnyddwyr Cymru | MI 37 |
| Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru | MI 38 |
| Cymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd | MI 42 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | MI 47 |